

Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



PAPUR CEFNDIR 1 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO

Cynlluniau a Strategaethau Cysylltiedig

Awst 2012

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll, Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

1.	Cyflwyniad	5
2.	Y cyd-destun lleol	5
3.	Gweledigaeth y CDLI	7
4.	Crynodeb o'r prif faterion	8
5.	Amcanion y CDLI	11
6.	Cynlluniau a strategaethau cenedlaethol	14
6.1	Cynllun Gofodol Cymru – Diweddariad 2008.....	14
6.2	Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 4, Chwefror 2011	20
6.3	Polisi Cynllunio Mwynau Cymru	22
6.4	Nodyn Cyngor Technegol 5 - Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009	23
6.5	Nodyn Cyngor Technegol 6 Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010.....	24
6.6	Nodyn Cyngor Technegol 8 – Ynni Adnewyddadwy (2005)	26
6.7	Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio 2009	27
6.8	Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a'r Perygl o Lifogydd 2004	29
6.9	Nodyn Cyngor Technegol 22 - Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy 2010	30
6.10	Crynodeb o Nodiadau Cyngor Technegol eraill	33
6.11	Strategaeth Cludiant Cymru	39
6.12	Strategaeth Cerdded a Beicio Cymru	41
6.13	Cynllun Datblygu Gwledig dros Gymru 2007-2013.....	42
6.14	Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru 2002	43
6.15	Tuag at Ddyfodol Diwastraff 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' 2010	46
6.16	Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru (Adroddiad Terfynol Drafft 2007)	48
6.17	Rhaglen Gwella Mynediad i Arfordir Cymru.....	52
6.18	Strategaeth yr Amgylchedd Cymru.....	53
6.19	Strategaeth Pobl Hŷn Cymru 2008-2013.....	55
7.	Cynlluniau a strategaethau rhanbarthol	55
7.1	Canllaw Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru 2002.....	55
7.2	Strategaeth Datblygu Gogledd Cymru	58
7.3	Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru 2010 - 2015.....	59
7.4	Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru 2004 - 2013.....	60
7.5	Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru (Agregau) 2008	62
7.6	Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru (Medi 2009).....	64
7.7	Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru – Strategaeth Cludiant Cyhoeddus	65
7.8	Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru – Strategaeth Cludo Nwyddau	67
7.9	Fersiwn Drafft o Gynllun Rheilffordd Rhanbarthol Taith	69
7.10	Cynlluniwyd ar gyfer Gogledd Cymru – Gweledigaeth ar gyfer y Gymuned Iechyd a Chynllun ar gyfer Gwasanaethau'r Prif Ysbytai, Dogfen Ymgynghorol, Ebrill 2006	69
7.11	Cynllun Rheoli Morlin Bae Lerpwl 1999.....	71
7.12	Astudiaeth a Chynllun Gweithredu Arfordir a Mewndir Siroedd Conwy a Dinbych	73
7.13	Harbwr y Foryd, Y Rhyl - astudiaeth Dichonolrwydd Pont Droed i Gerddwyr	75
7.14	Astudiaeth Isranbarthol Gorllewin Swydd Caer – Gogledd Ddwyrain Cymru 2004	75

7.15	Strategaeth Ofodol Isranbarthol Gorllewin Swydd Caer –Gogledd Ddwyrain Cymru 2006 - 2021	76
7.16	Fframwaith Is-ranbarthol Conwy-Sir Ddinbych	76
7.17	Cau'r Bwlch - Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru Ail Ddrafft 2009.....	80
7.18	Asesiad Marchnad Tai Lleol Gogledd Orllewin Cymru	81
7.19	Datganiad Dros Dro Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru	82
8.	Cynlluniau a strategaethau lleol.....	82
8.1	Un Conwy 2013-2025	82
8.2	Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2008 – 2012.....	84
8.3	Strategaeth Adfywio Conwy 2005 – 2015.....	86
8.4	Strategaeth Cynaliadwyedd 2008.....	88
8.5	Menter Bywyd y Bae – Cynllun Datblygu 2007-2014.....	89
8.6	Cynllun Gweithredu Twristiaeth 2008 – 2016	91
8.7	Asesiad Risg Llifogydd Conwy	92
8.8	Cynllun Strategaeth Amddiffyn Arfordir Bae Colwyn 2006	93
8.9	Strategaeth Amgylchedd o Safon Conwy 2006 – 2014	94
8.10	Rhaglen Gweithredu dros Gonwy 2005 - 2015.....	100
8.11	Strategaeth Tai Lleol ar gyfer Conwy 2008-2012	102
8.12	Strategaeth Cefn Gwlad Conwy 1998 – 2003	103
8.13	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy	103
8.14	Adroddiad Coed Conwy 2003.....	105
8.15	Cynllun Lleol Gweithredu Dros Gymunedau Gwledig Conwy.....	105
8.16	Cynllun Cludiant Lleol CBSC 2001 - 2006	106
8.17	Strategaeth Conwy Iach 2008 - 2011	106
8.18	Strategaeth Hamdden a Datblygiad Cymunedol Conwy 2006 - 2010.....	107
8.19	Strategaeth Ddiwylliannol Ddrafft Ar Gyfer Conwy 2004 – 2009	108
8.20	Cynllun Gweithredu Camdefnyddio Sylweddau Conwy 2005 - 2008.....	109
8.21	Crynodeb o Gynllun Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy Ebrill 2009 i Mawrth 2010	109
8.22	Prif Gynllun Cyffordd Llandudno 2009.....	110
8.23	Cynlluniau a strategaethau eraill	115
9.	Cynlluniau datblygu awdurdodau cyfagos	115
9.1	Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych 1996 -2011.....	115
9.2	Strategaeth a Ffafrir Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021	116
9.3	Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001 - 2016	117
9.4	Cynllun Lleol Eryri 1993 – 2003.....	118
9.5	Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007 - 2022	118
10.	Rhestr termau.....	122
	Atodiad 1.....	125
	Atodiad 2.....	131
	Atodiad 3.....	134

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae goblygiadau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn eang o ran y modd y bydd cynllunio'n gweithredu er budd cymunedau. Mae archwilio'r modd y mae cynlluniau datblygu'n cael eu paratoi a'u gweithredu wedi bod yn gyfle i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy beidio â gweithio ar y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn ei le.
- 1.2 Gofynna Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r holl awdurdodau lleol ystyried effaith cynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill wrth baratoi CDLI. Cyfeirir at hyn ym mharagraff 1.16 CDLI Cymru a pharagraffau 4.2.2 hyd 4.2.4 yn y Llawlyfr CDLI.
- 1.3 Yn yr adroddiad hwn cyflwynir trosolwg bras o Gonwy a'i nodweddion allweddol ac yna bydd yn canolbwyntio yn gyntaf ar yr amrywiaeth o faterion polisi sydd yn effeithio ar Ardal y Cynllun ac yn wir unrhyw effeithiau cronus y gallai'r rheiny eu cael ar yr ardaloedd cyfagos.
- 1.4 Er mwyn cael trosolwg o'r materion polisi perthnasol a'u heffaith ar Ardal y Cynllun, bydd yr adroddiad yn mynd ymlaen i asesu effaith cynlluniau datblygu, canllawiau a strategaethau eraill yn unol â chais Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd amcanion unigol a gweledigaeth gyffredinol y strategaethau hyn yn cael eu hasesu er mwyn coladu ystod o faterion cynllunio sydd yn ymglymu â'i gilydd mewn perthynas â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 1.5 Yna bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad ar gyfer y weledigaeth gyffredinol o ran y CDLI adneuo ynghyd ag amcanion cyffredinol y gellir seilio'r polisiau manylach arnynt yn ddiweddarach.

2. Y cyd-destun lleol

- 2.1 Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys ardal 1,130 km sgwâr gyda phoblogaeth breswyl a amcangyfrifir i fod oddeutu 110,900 o drigolion. Mae'r llain arfordirol gul yn cynnwys mwyafrif helaeth y boblogaeth, sef oddeutu 80%, ac mae oddeutu 5% o'r boblogaeth yn byw o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, sydd y tu allan i Ardal y Cynllun.

- 2.2 Bae Colwyn yw un o'r prif aneddiadau, ac mae iddo rôl bwysig yn y sector masnach a busnes. Tref wyliau Fictoraidd draddodiadol yw Llandudno, sy'n cyfuno ei rôl bresennol ym maes twristiaeth gyda chanolfan fasnachol ffyniannus, ac sy'n gweithredu fel canolfan siopa isranbarthol yr ardal. Ymysg yr aneddiadau eraill ceir Llanfairfechan a Phenmaenmawr tua'r gorllewin a threfi Abergele a Bae Cinmel tua'r dwyrain. Mae Conwy'n Safle Treftadaeth y Byd ac yn bwysig o ran treftadaeth ac oherwydd cyfraniad y dref i'r economi dwristiaeth. Mae Cyffordd Llandudno'n datblygu'n lleoliad pwysig i fuddsoddi mewn swyddfeydd a busnesau.
- 2.3 Mae Conwy'n ardal â thirwedd nodedig sy'n amrywio rhwng traethau o dywod, pentiroedd a dyffrynnoedd cysgodol, gweini agored, coetiroedd naturiol a chadwyn o fynyddoedd trawiadol. Ceir nifer o ardaloedd Tirwedd Hanesyddol gyda phum safle wedi'u dynodi'n safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol, y mae eu hamgylchedd yn cael ei ddiogelu i'r raddfa uchaf. Mae Ardal y Cynllun hefyd yn cynnwys nifer o safleoedd a ddynodwyd yn lleol, sy'n cyfrannu at gymeriad ac ansawdd cyffredinol yr amgylchedd naturiol.
- 2.4 Ar y cyfan, mae'r economi'n dibynnu'n fawr ar dwristiaeth, yn arbennig yn ystod misoedd yr haf, ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn aneddiadau'r arfordir, yn arbennig Bae Cinmel, Abergele, Llandudno a Chonwy. Mae cyflogaeth ddiwydiannol, er ei bod yn weddol gyfyngedig ac ar yr arfordir yn bennaf, yn cynnwys busnesau gweithgynhyrchu, ymchwil a swyddfeydd mewn lleoedd fel Bae Cinmel, Bae Colwyn, Cyffordd Llandudno, Penmaenmawr a Llanfairfechan. Mae amaethyddiaeth a choedwigaeth yn weithgareddau cyflogaeth pwysig yn yr ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf. Y prif aneddiadau Betws yn Rhos, Cerrigydrudion, Eglwysbach, Glan Conwy, Llanfairtalhaiarn, Llangernyw, Llansannan, Tal y Bont, Dolgarrog a Threfriw.
- 2.5 Mae llawer o'r materion polisi sydd yn berthnasol i Gonwy yn eang, yn gymhleth ac yn amlach na pheidio yn cydblethu ag amrywiol ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r prif faterion polisi yn ymwneud â thai, cyflogaeth, cludiant, yr amgylchedd, gwastraff, iechyd, mwynau, ynni, tir agored a chyfleusterau cymunedol.

3. Gweledigaeth y CDLI

- 3.1 Mae asesiad o amryw o gynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn gymorth i ddeall yr ymagwedd weledigaethol a fydd yn angenrheidiol yn strategaeth y CDLI er mwyn iddi ymdrin â'r gwahanol faterion cynllunio sy'n bodoli. Lluniwyd Strategaeth Gymunedol Conwy gyda'r bwriad o ddarparu fframwaith cynllunio trosfwaol ar gyfer strategaethau eraill a'r CDLI ei hun, felly mae ganddi ran i'w chwarae yn y penderfyniadau wrth baratoi'r CDLI. Gan hyn, mae gweledigaeth y CDLI yn cyfateb â gweledigaeth y Strategaeth Gymunedol fel y cafodd ei diwygio a'i chynnwys yn 'Un Conwy'.
- 3.2 Erbyn 2022, bydd cymunedau Conwy yn fwy cynaliadwy ac yn cynnig safon uwch o fywyd. Bydd y CDLI wedi darparu oddeutu 6350 o gartrefi newydd, 36 hectar o gyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch, isafswm o 1875 o gartrefi fforddiadwy newydd, rhandiroedd a mannau agored newydd a chyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol i gyfrannu at fodloni anghenion Ardal y Cynllun. Dan arweiniad Polisi Egwyddorion Datblygu DP/1 'Datblygu Cynaliadwy' a DP/2 'Dull Strategol Trosfwaol', ardaloedd trefol llain yr arfordir yn yr Ardal Strategaeth Datblygiad Trefol fydd ffocws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Ardal y Cynllun. Bydd hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau gofodol i warchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a chreu mannau hygyrch a chynaliadwy.
- 3.3 Bydd tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol a mwy o bwyslais ar greu ynni ac effeithlonrwydd ynni, a chyflawni adeiladau safon uwch ac wedi'u dylunio'n dda wedi deillio. Bydd tir ar gyfer tai newydd, tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, diwylliant, hamdden, cyflogaeth, mannau agored, cyfleusterau cymunedol a datblygiadau defnydd cymysg yn cael eu clustnodi a'u cyflwyno'n bennaf trwy ddatblygu safleoedd hygyrch a chynaliadwy yn y trefi a'r pentrefi mwy o faint yn yr Ardaloedd Strategaeth Datblygu Trefol a Gwledig.
- 3.4 Bydd cludiant cyhoeddus, rhwydwaith cerdded a seiclo a chyfleuster cyfnewid gwell yn Llandudno wedi gostwng problemau tagfeydd, wedi darparu cysylltiadau hanfodol i gyfleusterau a gwasanaethau allweddol ac wedi cyfrannu at gyflwyno angen am dai a chyflogaeth.

- 3.5 Trwy weithredu Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, bydd y Prif Bentrefi wedi adlewyrchu eu clymau swyddogaethol â'r ardaloedd trefol a Pharc Cenedlaethol Eryri, ond hefyd eu rôl gefnogol i Bentrefi Bychain a Phentrefannau. Gan adlewyrchu eu cymeriad, bydd twf cynaliadwy cyfyngedig wedi cyfrannu at gyflwyno cyfuniad o farchnad a thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Byddant wedi cyfrannu at ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol i'r Pentrefi Bychain a'r Pentrefannau trwy roi rhwydd hynt i drigolion lleol gyrraedd siopau, cyflogaeth a gwasanaethau. Bydd twf cynaliadwy cyfyngedig yn y Pentrefi Bychain a'r Pentrefannau yn adlewyrchu eu cymeriad, yn cyfrannu at fodloni anghenion y gymuned, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol, manau agored a gwasanaethau allweddol. Byddwn wedi ystyried diogelu'r Iaith Gymraeg.
- 3.6 Bydd yr amgylchedd naturiol, y cefn gwlad a'r morlin wedi'u gwarchod a'u gwelliant wedi'i hybu. Bydd manau gwyrdd wedi'u diogelu i gyfrannu at anghenion adloniant, iechyd ac economaidd Conwy. Bydd 'Lletemau Glas' newydd wedi'u creu i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hunaniaeth aneddiadau presennol. Bydd datblygiad wedi cyfrannu at warchod gwerth bioamrywiaeth ac amwynder cefn gwlad a'r arfordir a bydd wedi lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol trwy hyrwyddo ffynonellau ynni cynaliadwy'.

4. Crynodeb o'r prif faterion

- 4.1 Wrth ddadansoddi'r cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol amrywiol uchod, codwyd nifer o faterion cynllunio gwahanol sy'n effeithio'n sylweddol ar waith cynllunio yn Ardal y Cynllun yn y dyfodol. Bydd angen i'r CDLI felly, ystyried y materion a ganlyn:

Cymdeithasol
Y prif fodd o deithio i'r gwaith, gan gynnwys teithio ymhell tuag allan, ydi gyda cheir o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae angen gwell defnydd o gludiant cynaliadwy ac isadeiledd cludiant yng Nghonwy trwy ddatblygu system gludiant integredig, mynediad cynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig, darparu cludiant cyhoeddus, cyfnewidfeydd moddol, mwy o gyfleusterau cerdded a beicio ac annog cynlluniau teithio i ostwng y ddibyniaeth ar geir.
Mae faint o Dir Glas sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghonwy yn uchel. Mae

<p>angen sicrhau bod datblygiadau yn gwneud defnydd effeithiol o dir (yn enwedig tir a ddatblygwyd eisoes mewn lleoliadau cynaliadwy), er mwyn lleihau colli safleoedd 'Tir Glas' a'r defnydd o dir amaethyddol o ansawdd uchel.</p>
<p>Mae angen darparu oddeutu 6350 o gartrefi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.</p>
<p>Mae gan Gonwy gyflenwad annigonol o dai fforddiadwy. Mae angen gwneud yn siŵr bod oddeutu 1875 o gartrefi newydd fforddiadwy yn cael eu darparu mewn lleoliadau cynaliadwy dros y 15 mlynedd nesaf trwy adnabod y safleoedd a safleoedd eithriedig mewn lleoliadau gwledig.</p>
<p>Mae gan Gonwy boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, rhaid i'r Cynllun sicrhau bod mynediad at gartrefi fforddiadwy, gwasanaethau lleol, cyfleusterau cymunedol a chludiant cyhoeddus ar gyfer grwpiau difreintiedig.</p>
<p>Mae angen i iechyd cyffredinol y Fwrdeistref Sirol wella. Mae angen gwella iechyd cyffredinol y boblogaeth trwy annog cyfleusterau beicio a cherdded, darparu mannau agored a mynediad at gyfleusterau cymunedol allweddol.</p>
<p>Mae ardaloedd trefol a gwledig yn y Fwrdeistref Sirol yn dioddef oherwydd diffyg mannau agored ffurfiol ac anffurfiol. Mae angen cynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon a hamdden a mannau agored a gwyrdd trwy ddatblygu a gwella cysylltiadau â chefn gwlad a'r arfordir.</p>
<p>Mae yna broblemau o ran trosedd ac ofni troed ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae angen gostwng troseddau a'r ofn o droseddau trwy ddylunio datblygiad newydd.</p>
<p>Mae yna bwysau ar yr iaith Gymraeg. Trwy'r CDLI mae angen diogelu a gwella'r iaith Gymraeg.</p>
<p>Economaidd</p>
<p>Mae gan Gonwy boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio a phoblogaeth iau sy'n lleihau gan gael effaith niweidiol ar yr economi. Mae angen denu cenhedlaeth iau er mwyn creu economi sad ac iach yng Nghonwy.</p>
<p>Mae'r sector twristiaeth yn golygu cynnydd nodedig mewn diweithdra dros fisoedd y Gaeaf yng Nghonwy. Mae angen annog y sector twristiaeth traddodiadol, yn enwedig yn y cyrchfannau arfordirol, ond mae angen ecsbloetio ymhellach botensial twristiaeth, yn enwedig mewn perthynas ag atyniadau dŵr a rhai sy'n seiliedig ar gynefinoedd er mwyn annog twristiaeth</p>

<p>drwy gydol y flwyddyn. Trwy gysylltiadau â Pharc Cenedlaethol Eryri, annog amrywiaeth y cyrchfannau twristiaid i gwrdd â'r galw newidiol.</p>
<p>Mae gan Gonwy economi cyflog isel ac mae gwaith yn y diwydiannau gwasanaeth a thwristiaeth. Mae angen rhoi pwyslais ar gyfleoedd gwaith gwerth uwch ar gyfer bawb, gwella cysylltiadau rhyngranbarthol economaidd a chludiant a defnyddio hybiau Llandudno, Conwy a Chyffordd Llandudno ar gyfer buddsoddiad economaidd pellach a gwneud y mwyaf o botensial Harbwr y Foryd.</p>
<p>Mae'r canolfannau manwerthu yn dioddef o bwysau oddi wrth ddefnyddiau sydd a dim i'w wneud â manwerthu. Mae angen cynnal a gwella Llandudno fel y ganolfan fanwerthu ar gyfer y rhanbarth, cefnogi adfywio Bae Colwyn yn ogystal â chanolfannau manwerthu eraill gan ddefnyddio eiddo gwag.</p>
<p>Amgylcheddol</p>
<p>Mae yna gynnydd wedi bod yn y ganran o wastraff sy'n cael ei ailgylchu. Er bod cyfraddau ailgylchu yn dda yn ôl safonau'r Sir, bydd angen ymdrech sylweddol i barhau efo'r gwelliant a gostwng lefelau gwastraff cyffredinol, tirlenwi a chynyddu aildefnyddio/ ailgylchu gwastraff.</p>
<p>Mae angen dod o hyd i rwng 14 a 22 hectar o dir ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.</p>
<p>Mae yna 24 Ardal Gadwraeth yn ardal y CDLI, efo 1436 adeilad rhestredig, 24 ohonynt yn rai Gradd 1, 70 yn rai Gradd II* a 1342 yn rai Gradd II sydd yn ddiameddiffyn o ran pwysau datblygu. Mae angen i ddatblygiadau gadw mewn cof yr amgylchedd adeiledig hanesyddol, a sicrhau bod dyluniad ac ansawdd adeiladau yn helpu cynnal a lle bo'n briodol, gwella ar yr ansawdd hwn yng Nghonwy.</p>
<p>Gallai mewnlenni o fewn trefi a phentrefi mwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy dynnu oddi wrth eu cymeriad unigryw os na orfodir canllawiau dylunio clir. Mae dyluniadau o ansawdd gwael yn y gorffennol, ar draul nodedigrwydd yr amgylchedd adeiledig, wedi tanseilio ymdrechion i ddenu cenhedlaeth iau ac mae wedi effeithio ar atyniad a chymeriad Conwy. Mae angen mynnu ar ddyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel.</p>
<p>Ar y cyfan mae yna ddŵr o ansawdd da o fewn ac o gwmpas Ardal y Cynllun. Fodd bynnag, mae angen cynnal hyn a lle bo'n bosibl, ei wella. Felly, rhaid sicrhau bod yna ddigon o le trin carthffosiaeth ar gyfer bob datblygiad newydd,</p>

ym mhob lleoliad drwy'r Sir, gan y gall methiant STW achosi gollwng nifer fawr o lygryddion i afonydd, ac achosi problemau llygru afonydd yn is i lawr yr afon.
Mae pwysau aruthrol ar rywogaethau a chynefinoedd bywyd gwylt (bioamrywiaeth) o ddatblygiadau. Lle bo'n briodol, dylai bob datblygiad newydd helpu i wella'r adnodd bioamrywiaeth yn Ardal y Cynllun, trwy dirweddu rhywogaethau brodorol, lleoliad priodol, a rheoli mannau agored.
Gwarchod dynodiadau amgylchedd naturiol a rennir efo awdurdodau cyfagos, sef Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Sir Ddinbych i'w henwi.
Ychydig iawn o dir amaethyddol o ansawdd da sydd yna o fewn y Sir, felly mae'n bwysig bod yr adnodd yma yn cael ei diogelu rhag datblygiadau newydd wedi eu lleoli'n amhrïodol.
Mae Conwy yn ddiameddiffyn o ran effeithiau Newid Hinsawdd. Mae angen defnyddio adnoddau naturiol yn fwy effeithiol ac ecsbloetio cynhyrchu ynni adnewyddadwy trwy gapasiti cynhyrchu trydan, sydd heb gael ei ymchwilio'n llawn yn y gorffennol ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
Mae yna risg gynyddol o lifogydd yn effeithio ar gymunedau a'r amgylchedd, yn enwedig o ganlyniad i newid hinsawdd. Mae ardaloedd arfordirol y Sir yn dioddef o lifogydd. Pensarn (Abergele), Towyn a Bae Cinmel (i'r dwyrain o'r A55 a'r gogledd o'r A547) a Llandudno yw'r prif leoliadau mewn perygl o lifogydd yn Ardal y Cynllun. Mae Llanrwst hefyd yn ddiameddiffyn o ran y perygl o lifogydd afonol o Afon Conwy. Mae angen lleoli datblygiadau newydd draw oddi wrth ardaloedd sydd mewn perygl a lliniaru hyn trwy ddylunio.

- 4.2 O hyn allan, bydd y materion a godir uchod yn cael eu defnyddio i lunio amcanion newydd y CDLI. Fe ddylai'r amcanion hyn fod yn gryno, ond yn ddigon manwl fel bo modd darparu nodau cyffredinol y CDLI sydd wedi'u cynnwys yng ngweledigaeth y CDLI.

5. Amcanion y CDLI

- 5.1 Gwireddir gweledigaeth gyffredinol y Cynllun trwy gyfrwng yr amcanion canlynol:

AG1. *Caniatáu lefelau twf poblogaeth cynaliadwy.*

- AG2 *Hyrwyddo adfywio cynhwysfawr o Fae Colwyn, Abergele, Tywyn a Bae Cinmel i ehangu gweithgarwch economaidd, mynd i'r afael ac eithrio cymdeithasol a lleihau amddifadiad trwy'r Fenter Ardal Adfywio Strategol*
- AG3. *Darparu tir a datblygu cyflenwad amrywiol o dai i gyfrannu at anghenion, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol ac i fodloni'r angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ar raddfa sy'n gyson â gallu ardaloedd a chymunedau gwahanol i dyfu.*
- AG4. *Canfod a diogelu tir i ateb anghenion cymunedau ac i sicrhau lefelau cymudo allan o'r sir is, rhagor o swyddi a ffyniant economaidd gwell a lefelau cymudo allan llai gan ganolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch a datblygu sgiliau o fewn ac o gwmpas canolbwyntiau strategol Conwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn a lleoliad hygyrch a chynaliadwy Abergele.*
- AG5. *Annog cryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig lle mae hyn yn gydnaws â'r economi, y gymuned a buddiannau amgylcheddol lleol.*
- AG6. *Datblygu cyrchfannau canol tref bywiog ar gyfer siopa, diwylliant, adloniant a hamdden trwy wella bywiogrwydd, hyfywdra ac apêl Llandudno fel canolfan fanwerthu isranbarthol strategol, ac adfywio canol tref Bae Colwyn a chanolfannau siopau eraill.*
- AG7. *Canolbwyntio datblygiad ar hyd rhwydweithiau isadeiledd presennol a bwriedig, ac yn benodol mewn mannau sy'n gyfleus i gerddwyr, beicwyr a chludeiant cyhoeddus.*
- AG8. *Cynorthwyo twristiaeth trwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig, ag ecsbloetio ymhellach y potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog y diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.*
- AG9. *Annog symud effeithlon a chydabod y rôl strategol y bydd yr A55, a choridorau rheilffyrdd yn ei chwarae wrth fodloni anghenion datblygu Ardal y Cynllun, a rhoi sylw penodol i leoliadau datblygu sy'n gyfleus i gerddwyr, cerdded a beicwyr yng Nghonwy i gynorthwyo gostwng gollyngiadau CO2 cludiant.*

- AG10. *Sicrhau darparu dylunio da, cynaliadwy, cynhwysol sy'n cynnwys cyfle i ddileu troseddu trwy ddylunio, i ddatblygu cymunedau cryf, diogel ac sy'n nodedig yn lleol ac annog y boblogaeth iau i aros yn yr ardal a dychwelyd iddi.*
- AG11. *Gostwng y defnydd o ynni trwy leoli a dylunio adeiladau yn ofalus, a hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy lle mae ganddynt y rhagolygon o fod yn ddeniadol yn economaidd ac yn dderbyniol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.*
- AG12. *Diogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad arfordir a chefn gwlad heb ei datblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd/ cadwraeth a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol wrth sicrhau bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig.*
- AG13. *Diogelu a gwella hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol gan gynnwys mannau agored, iechyd, addysg a hamdden.*
- AG14. *Hyrwyddo'r defnydd darbodus o adnoddau trwy leihau gwastraff a chynorthwyo wrth ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff sy'n gyson ac anghenion yr ardal a'r hierarchaeth gwastraff.*
- AG15. *Cyfrannu at anghenion mwynol rhanbarthol a lleol yn gynaliadwy.*
- AG16. *Sicrhau bod datblygiad mewn cymunedau sy'n medru'r Gymraeg yn gydnaws a hyfywdra tymor hir yr iaith Gymraeg.*
- 5.2 Croesgyfeiriwyd amcanion y CDLI i ddechrau â wyth canlyniad 'Un Conwy' a Strategaeth Gymunedol Conwy a ddiweddarwyd. Gwnaed hyn i asesu i ba raddau mae'r amcanion yn cydymffurfio â themâu'r Strategaeth Gymunedol sy'n gweithredu fel fframwaith cynllunio trosfwaol y CDLI. Gellir gweld y rhain yn Atodiad 1.
- 5.3 Croesgyfeiriwyd amcanion y CDLI â phum thema Cynllun Gofodol Cymru (gweler Atodiad 2) yn ogystal â'r pedair thema gynaliadwy ym Mholisi Cynllunio

Cymru (gweler Atodiad 3). Bydd pedair thema Polisi Cynllunio Cymru'n cael eu defnyddio fel penawdau i benodau'r CDLI a bydd yr ymagwedd gyffredinol wedi'i nodi yn strategaeth y CDLI.

- 5.4 Mae'r adroddiad hwn bellach yn edrych ar y gwahanol gynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd yn fwyaf perthnasol i gynllunio yn yr Ardal Cynllun a bydd yn tynnu ar ac yn amlygu'r weledigaeth, yr amcanion a'r goblygiadau defnydd tir lle bo'n briodol.

6. Cynlluniau a strategaethau cenedlaethol

6.1 Cynllun Gofodol Cymru – Diweddariad 2008

- 6.1.1 Mae Cymru, fel llawer o genhedloedd eraill, wedi sylweddoli beth yw'r heriau newydd a ddaeth yn yr 21^{ain} Ganrif. Mae heriau megis bydoli, datblygiadau technolegol, newidiadau yn yr hinsawdd, newid demograffaid a phwysau economaidd yn golygu fod angen i Gymru ymdrin â'r materion hyn er mwyn caniatáu i'r cymunedau ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Mae datganoli hefyd wedi creu cyfle i Gymru ymateb i faterion Cymreig ac mae Cynllun Gofodol Cymru - Diweddariad 2008, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ymgais i ymdrin â'r materion allweddol hyn yn genedlaethol.
- 6.1.2 Mae gweledigaeth gyffredinol Cynllun Gofodol Cymru yn nodi 'Byddwn yn cynnal ein cymunedau drwy fynd i'r afael â'r sialensiau sy'n codi yn sgil newid yn y boblogaeth a newid economaidd. Byddwn yn tyfu mewn ffyrdd sydd yn cynyddu gallu cystadleuol Cymru ac ar yr un pryd yn cynorthwyo ardaloedd llai breintiedig i ddal i fyny â lefelau ffyniant cyffredinol a lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol. Byddwn yn gwella ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a byddwn yn cynnal ein hunaniaeth unigryw.'
- 6.1.3 Mae pum thema i'r Cynllun Gofodol. Y cyntaf o'r rhain ydi adeiladu cymunedau cynaliadwy a'r weledigaeth ydi "Mae ein dyfodol yn dibynnu ar fywiogrwydd ein cymunedau fel lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Mae angen i ni leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau gan gadw eu cymeriad a'u natur unigryw". Yr heriau allweddol ydi mynd i'r afael ag amddifadedd - ac yn benodol, crynodiadau o dlodi a diweithdra - a sicrhau gwelliannau yn iechyd y cyhoedd a gwaredu tlodi ymhlith plant. Bydd partneriaethau lleol yn cael eu sefydlu i helpu i

ddatblygu mentrau sy'n mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, cyflogadwyedd, diffygion o ran sgiliau ac anweithgarwch economaidd yn ogystal â'r amgylchedd, iechyd a lles a diogelwch cymunedol.

- 6.1.4 Yr ail thema ydi hyrwyddo economi gynaliadwy. Y weledigaeth ar gyfer y thema yma ydi “Mae arnom angen economi arloesol sy'n ychwanegu gwerth uchel yng Nghymru sy'n defnyddio ac yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ein pobl; economi sy'n creu cyfoeth ac yn hyrwyddo lledaenu'r ffyniant hwnnw ledled Cymru; economi sy'n ychwanegu at ansawdd bywyd yn ogystal â safon yr amgylchedd byw a gweithio”. Yn gyffredinol, mae'r economi'n perfformio'n dda mewn ardaloedd sy'n ffinio â Lloegr, ond ddim gystal mewn ardaloedd gorllewinol. Mae ardaloedd gwledig yn wynebu problemau gan gynnwys tâl isle, gwaith tymhorol a diffyg cyfleoedd amrywiol. Yr heriau ydi sicrhau bod cyfleoedd gwaith, isadeiledd, sgiliau ac iechyd cyhoeddus yn cael eu darparu gyda'i gilydd, i fyd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran sgiliau, trawsffurfio'r ddarpariaeth ddysg ac integreiddio'r ddarpariaeth isadeiledd.
- 6.1.5 Y drydedd thema ydi gwerthfawrogi ein hamgylchedd, a'r weledigaeth ydi “Mae i ansawdd ein hamgylchedd naturiol werth cynhenid fel system cynnal bywyd, ond mae hefyd yn hyrwyddo lles ar gyfer byw a gweithio ac yn cyfrannu at ein hamcanion economaidd. Bydd amddiffyn a diogelu ein hasedau naturiol a hanesyddol, a gwella ystwythder i fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd, yn ein galluogi i ddenu pobl i'n cymunedau a chynnig lles ac ansawdd bywyd i'w hannog i aros a chynnal y sylfeini ar gyfer y dyfodol”. Credir bod gwarchod, adfywio a gwella amgylchedd tir, morol a hanesyddol Cymru yn hanfodol ar gyfer ei lles ei hun, a hefyd o ran iechyd a lles a chyfleoedd economaidd. Bydd ymdrechion i ymateb i newid hinsawdd, gostwng olion troed ecolegol, cyflwyno'r cysyniad o ranbarthau carbon isel a rheoli arfordirol yn cael eu gweithredu gan bob Grŵp Ardal.
- 6.1.6 Y bedwaredd thema ydi hygyrchedd cynaliadwy, a'r weledigaeth ydi “Byddwn yn datblygu mynediad mewn ffyrdd sy'n diogelu'r amgylchedd, yn annog gweithgarwch economaidd, yn ehangu cyfleoedd cyflogaeth, yn sicrhau ansawdd gwasanaethau ac yn integreiddio'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y gellir eu cael drwy deithio”. Yr heriau ar gyfer y

thema yma ydi gwella'r cysylltiadau rhwng aneddiadau allweddol, integreiddio atebion trafniadaeth cynaliadwy i wella mynediad, lliniaru effeithiau newid hinsawdd a gwella ansawdd rhwydweithiau TGCh.

- 6.1.7 Y pumed thema ydi parchu nodweddion unigryw, a'r weledigaeth ydi "Mae hunaniaeth gydlynol sy'n cynnal ac yn dathlu'r hyn sy'n unigryw am Gymru, mewn ffordd agored sy'n edrych allan, yn ganolog i hyrwyddo Cymru i'r Byd, yn ogystal ag i'n cystadleuwydd economaidd a'n lles cymdeithasol ac amgylcheddol yn y dyfodol". Yr heriau ydi creu hunaniaeth unigryw ar gyfer aneddiadau, ar gyfer datblygiadau newydd i fod yn unigryw, yn lân, yn ddiogel ac yn gynaliadwy i ddarparu profiadau diwylliannol o ansawdd uchel.
- 6.1.8 Mae'r Cynllun Gofodol wedi rhannu Cymru yn sawl ardal cynllun. Mae Conwy yn gorwedd yn nhri o'r rhain: Canol, Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin.
- 6.1.9 **Gogledd Ddwyrain Cymru**
- 6.1.10 O ran strategaeth ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru, y weledigaeth ydi 'ardal sy'n harneisio'r gyrwyr economaidd ar naill ochr y ffin i'r llall, gan leihau anghydraddoldeb a gwella safon ei hasedau naturiol a ffisegol.'
- 6.1.11 Mae'r rhan hwn o'r Cynllun Gofodol yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru a'r DU. Mae gan y rhanbarth gysylltiad agos â Gogledd Orllewin Lloegr, a Swydd Caer yn benodol, ac mae iddi dair ardal unigryw ond cysylltiedig; y ffin ddiwydiannol ddinesig, y llain arfordirol a'r gefnwlad wledig. Mae'r Cynllun yn ystyried bod Conwy â dylanwad llai trawsffiniol gan deithio i'r gwaith, ond bod ei marchnad dai wedi ei dylanwadu gan yr ardal ffiniol. Credir bod ymestyn y sylfaen economaidd a chodi proffil asedau amgylcheddol yng Nghonwy yn ffocws pwysig i ddarparu cyfleoedd gwaith o ansawdd uchel a chreu naws unigryw o le.
- 6.1.12 Mae'r Cynllun Gofodol yn nodi pwysigrwydd y cysylltiadau rhwng yr ardaloedd creiddiol yng Nghonwy megis Llandudno, Conwy, Cyffordd Llandudno a'r ardaloedd y tu allan i'r Sir megis Glannau Dyfrdwy, Caer a Wrecsam. Ystyrir yr A55, yr A548 a'r rhwydwaith rheilffyrdd yn allweddol yn y dasg o gysylltu

cyfleoedd rhwng y rhanbarthau a chreu mwy o dwf mewn cyflogaeth i'r gorllewin.

6.1.13 Dyma grynodedb o'r argymhellion ar gyfer yr ardal:

- Cryfhau hybiau allweddol fel ffocws ar gyfer buddsoddiad mewn gwaith, tai, manwerthu, hamdden a gwasanaethau. Datblygu cymunedau cryf a chynaliadwy tu allan i'r hybiau i ddarparu swyddi a gwasanaethau y gellir cael atynt yn lleol.
- Datblygu mynediad cynaliadwy, gwella mynediad ar ffyrdd allweddol a choridorau rheilffordd i gynnal twf economaidd a chyfleoedd datblygu.
- Gwella ansawdd ac amrywiaeth yr economi, y ffocws ar weithgynhyrchu a gwasanaethau o safon uchel, gan gynnwys sector twristiaeth trwy'r flwyddyn.
- Datblygu sgiliau ac addysg y gweithlu presennol a'r darpar weithlu er mwyn sicrhau cyfleoedd gwaith da a sicrhau y diwallir anghenion cyflogwyr.
- Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy er mwyn ymdrin â ac ymateb i newidiadau hinsawdd.

6.1.14 **Gogledd Orllewin Cymru**

6.1.15 Y weledigaeth ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru yw 'amgylchedd naturiol a ffisegol o ansawdd uchel sy'n cynnal economi sy'n seiliedig ar ddiwylliant a gwybodaeth, a fydd yn helpu'r ardal i gadw a gwella ei chymeriad unigryw, yn cadw a denu pobl ifanc yn ôl, ac yn cynnal y Gymraeg.'

6.1.16 Credir bod yr ardal yn unigryw yng nghyd-destun Cymru a'r DU. Yr heriau sy'n wynebu'r ardal ar hyn o bryd ydi colli gwaith yng ngorsafoedd pŵer niwclear Trawsfynydd a'r Wylfa, ailstrwythuro economaidd o fewn amaethyddiaeth, hyd oes anfeidrol y diwydiant sylfaenol traddodiadol ac effaith globaleiddio ar y diwydiannau gweithgynhyrchu. Mae gan allfudiad pobl ifanc lleol a'r boblogaeth sy'n heneiddio yn yr ardal oblygiadau economaidd hefyd, yn ogystal ag ar gyfer darpariaeth gwasanaeth iechyd a chymdeithasol yn y dyfodol. Mae pocedi o amddifadedd yn yr ardaloedd gwledig a threfol hefyd yn broblem. Mae'r Cynllun yn cydnabod y cyfle i ddatblygu mwy o ryngweithio rhwng y trefi ar hyd Afon Menai, gan wneud y mwyaf o'r cysylltiadau a ddarperir gan yr A55 a'r porth i Iwerddon. Mae cyfloed yn bodoli i ymestyn yr economi o ran creu mwy o swyddi

sy'n seiliedig ar wybodaeth a'r diwydiannau creadigol, gan ddefnyddio presenoldeb y brifysgol ym Mangor yn benodol. Mae twf economaidd a thair posibl yn ardal dalgylch Bangor yn debygol o effeithio ar lefelau cymudo yn Ardal Cynllun Conwy, yn enwedig yn yr Is-ardal Orllewinol Arfordirol.

6.1.17 Dyma grynodedeb o'r cynigion ar gyfer yr ardal:

- Datblygiad gofodol i gynnwys hwb cryf o'r Fenai, datblygu rhwydwaith o anheddau cysylltiedig yn ymestyn i hwb Llangefni a Llandudno, datblygu hwb eilaidd ac ymestyn twf a budd mewn cymunedau gwledig.
- Datblygu sectorau allweddol gan gynnwys amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a diwydiannau cysylltiedig, cefnogi pontio o weithgarwch gwerth isel i werth uchel ac ymestyn sylfaen yr economi.
- Datblygu economi sy'n edrych tuag allan, yn seiliedig ar wybodaeth, ac yn cydnabod y rhan sydd gan Brifysgol Bangor i'w chwarae.
- Gwneud y mwyaf o Gaergybi fel porth rhyngwladol a'r A55 a'r llwybrau Rhwydweithiau Ewropeaidd E22 fel allwedd. Sicrhau cysylltiadau cludiant priodol rhwng yr hybiau ac ardaloedd gwledig i ddarparu mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a chyfloed hamdden.
- Cyfalafu ar amgylchedd eithriadol yr ardal gan gynnwys treftadaeth arfordirol, ecolegol a hanesyddol a hunaniaeth ddiwylliannol gref i hyrwyddo a datblygu cymunedau iachach ac adeiladu twristiaeth gynaliadwy o werth uwch.

6.1.18 Mae'r twf economaidd a fwriedir ym Mangor a'r cyffiniau'n amlwg, ac yn cael ei ategu ymhellach wrth asesu Cynllun Fframwaith Gwynedd, lle bydd twf economaidd a thwf tai yn dalgylch Bangor yn effeithio ar y niferoedd a fydd yn cymudo drwy Ardal Cynllun Conwy, yn arbennig yn yr Is-ardal Orllewinol Arfordirol.

6.1.19 **Canolbarth Cymru**

6.1.20 Y weledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru yw 'amodau gwaith a byw o ansawdd uchel mewn aneddiadau llai wedi'u lleoli mewn amgylchedd gwych, gan ddarparu modelau deinamig o ddatblygiad cynaliadwy yng nghefn gwlad, a symud yr holl sectorau i weithgarwch gwerth ychwanegol uwch.'

6.1.21 Mae Ardal y Canolbarth â chymeriad gwledig yn bennaf, gyda phoblogaeth wasgarog o ddwysedd isel. Mae gan yr ardal boblogaeth gynyddol o bobl hŷn, o ganlyniad i fewnfudiad pobl hŷn a chanol oed ac allfudiad y boblogaeth iau. Mae'r cynllun hefyd yn ceisio annog sectorau cyflogaeth strategol, gwella cyfleodd ar gyfer busnesau ar raddfa fach, amrywio amaethyddiaeth a gwella addysg a sgiliau. Mae diffyg tai fforddiadwy hefyd wedi cael ei amlygu fel problem.

6.1.22 Mae'r blaenoriaethau ar gyfer yr ardal yn cynnwys:

- Adeiladu ar ganolfannau allweddol pwysig, gwella cysylltiadau a thaenu twf a budd ymysg cymunedau gwledig a gwella pa mor ddeniadol yw'r ardal fel ardal gynaliadwy i fyw ac i weithio ynddi.
- Galluogi twf a datblygiad priodol ac integredig a gwella cynaliadwyedd.
- Cefnogi'r sectorau economaidd gwledig presennol gan gynnwys amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a chynnyrch eraill, er mwyn datblygu cyfleoedd cynhyrchu o werth uwch, gan ddarparu sylfaen gynaliadwy ar gyfer yr economi i atgyfnerthu hyder yn nyfodol cefn gwlad.
- Ymestyn y sylfaen economaidd, gan adeiladu ar isadeiledd addysg uwch, cyflwyno cyfleoedd economaidd cynaliadwy newydd, gan gynnwys gwybodaeth o'r sectorau economaidd ar draws ardaloedd gwledig, gwneud y mwyaf o gyfleoedd twf ar gyfer swyddi â sgiliau uwch, â gwell tâl, gan godi lefelau mentrau a faethir gartref a denu newydd-ddyfodiaid â mentrau creadigol.
- Cynnal cyfanrwydd gwledig a naturiol y rhanbarth, adeiladu twristiaeth gynaliadwy o werth uwch a gwella ei rôl o ran ymateb i newid hinsawdd.
- Cynyddu hygyrchedd yn fewnol ac allanol, gan gynnwys cysylltiadau bang eang a thelegyfathrebu, gan adeiladu cydweithrediad effeithiol traws-ffiniol gyda chymunedau rhanbarthau Saesneg a Gwyddelig, a chynyddu mynediad at wasanaethau, gwella twf economaidd ac ymestyn cyfleoedd economaidd.

6.1.23 O safbwynt cyffredinol, mae Cynllun Gofodol Cymru'n pennu targed sy'n pwysleisio'r angen i wella cysylltiadau ar hyd Cymru gyfan, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gyfleoedd mewn cyflogaeth. Mae angen camau cydweithredol er mwyn cyflawni hyn. Mae angen i'r cyrchfannau arfordirol addasu i gyfateb ag

arferion newydd ym maes twristiaeth er mwy'n parhau'n ddichonadwy o safbwynt economaidd, tra bo canolfannau economaidd Bangor, Llandudno, Conwy a Chyffordd Llandudno'n cael eu hystyried yn yrrwr allweddol ar gyfer cyfleoedd ym maes cyflogaeth a chcludiant ledled Conwy. Ceir cyfle i'r ardaloedd gwledig gryfhau cysylltiadau mewnol, gwasanaethau lleol a gwella'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy i'w gwneud yn fwy cynaliadwy, wrth hyrwyddo economi sy'n fwy amrywiol. Mae Conwy'n gorwedd o fewn 3 o'r is-ardaloedd CGC fel yr amlygwyd uchod. Mae gwaith strategol y gweithgorau ar yr is-ardaloedd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar CDLI Conwy.

6.2 **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 4, Chwefror 2011**

6.2.1 Lluniwyd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 4 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2002 ac fe'i diweddarwyd yn gyfnodol gan gyfres o MIPPS (Datganiadau Polisi Cynllunio Dros Dro Gweinidogol). Mae'r rhain, a newidiadau dilynol bellach wedi cael eu cysoni i PCC Rhifyn 4. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir cynaliadwy ac yn darparu'r fframwaith bolisi i alluogi awdurdodau lleol i gynhyrchu cynlluniau datblygu. Mae'n cynnwys canllaw ar amrywiaeth o destunau datblygu y deuir o hyd iddynt mewn cynllun datblygu ac yn aml caiff ei ddefnyddio ynghyd â Nodiadau Cyngor Technegol atodol ar sail testunau a chynlluniau datblygu cyfredol, i wneud penderfyniadau rheoli datblygu ar geisiadau cynllunio.

6.2.2 Prif amcanion PCC yw:

- Hyrwyddo patrymau anheddiad sy'n effeithiol o ran adnoddau ac sy'n defnyddio cyn lleied o dir a bo modd a lleddfu ymlediad trefol, yn enwedig drwy roi blaenoriaeth i aildefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau, gan osgoi datblygu ar dir glas lle bo modd.
- Lleoli datblygiadau i leihau'r angen am drafnidiaeth, yn enwedig ceir preifat.
- Helpu i ddiogelu'r hinsawdd drwy annog defnydd tir sy'n arwain at greu llai o nwyon tŷ gwydr, yn enwedig datblygiadau ynni effeithlon, a hyrwyddo defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy.
- Lleihau risg datblygu ar dir llygredig neu ansad neu dir sy'n debygol o gael llifogydd. Mae hyn yn cynnwys rheol a cheisio lleddfu newid yr hinsawdd.

- Bod a rhan addas i ddarparu isadeiledd (gan gynnwys cyflenwadau dŵr, carthffosiaeth a chyfleusterau trin dŵr gwastraff cysylltiedig, cyfleusterau rheoli gwastraff, cyflenwadau ynni a rhwydweithiau dosbarthu) i fod yn sail i gymunedau cynaliadwy - ac isadeiledd telegyfathrebu, ond ar yr un pryd yn sicrhau asesiad cywir o'u heffaith ar gynaliadwyedd.
- Helpu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd er mwyn gwella ansawdd bywyd a diogelu ecosystemau lleol a byd-eang. Dylai cynllunio'n benodol sicrhau nad yw'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd naturiol, a hynny'n barhaol. Mae angen hyrwyddo, diogelu a gwella ardaloedd a ddynodwyd yn statudol, diogelu cefn gwlad a'r arfordir nad yw wedi cael ei ddatblygu; cadwraeth bioamrywiaeth, cynefinoedd a thirweddau; diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg, yn ogystal â gwella amgylchedd trefol.
- Help i sicrhau bod yr amgylchfyd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol yn cael eu diogelu a chydabod a hybu amrywiaeth leol.
- Lleihau'r defnydd o adnoddau anadnewyddadwy, a lle bo rhaid eu defnyddio, dylid gwneud hynny mor effeithiol a bo modd. Dylid annog defnyddio adnoddau adnewyddadwy a defnyddiau a grëwyd yn gynaliadwy o ffynonellau lleol.
- Hyrwyddo pob cyfle i leihau gwastraff a phob math o lygredd, gan annog rheoli'r amgylchedd yn dda, a'r arfer amgylcheddol gorau.
- Sicrhau bod gan bob cymuned leol, gwledig a threfol ddigon o gartrefi o safon dda, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ac anghenion arbennig, lle bo'n briodol, ac mewn cymdogaethau diogel.
- Hyrwyddo mynediad i gyflogaeth, siopau, addysg, iechyd, cymunedau, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a manau agored glas, gan fanteisio ar bob cyfle posibl i ddatblygu cymunedau a lles cymdeithasol.
- Hyrwyddo gwelliannau i gyfleusterau a gwasanaethau cludiant sy'n cynnal neu wella hawl pobl i'w cael, swyddi diogel, amcanion economaidd ac amgylcheddol, a gwella diogelwch ac amwynderau. Yn gyffredinol, dylid annog datblygiadau sy'n debygol o greu system cludiant integredig.
- Meithrin cynhwysiant cymdeithasol drwy sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gael amgylchfyd sy'n haws i bawb ei ddefnyddio drwy ddatblygu tir ac adeiladau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod modd cyrraedd at ddatblygiadau heblaw defnyddio car preifat.
- Hyrwyddo swyddi o safon dda, hirdymor a hyblyg, sy'n diogelu'r amgylchedd.

- Cefnogi syniadau newydd ac arloesed gan osgoi rhoi baich dianghenraid ar fusnesau (yn enwedig busnesau bychain a chanolig), er mwyn gwella llwyddiant economaidd ardaloedd gwledig a threfol, a helpu busnesau i fod mor gystadleuol a bo modd.
- Parchu ac annog amrywiaeth yn yr economi lleol.
- Hyrwyddo economi gwyrddach a mentrau cymdeithasol.

6.2.3 Mae felly'n bwysig bod yn CDLI yn sicrhau bod pob polisi cynllun datblygu a thir sy'n cael ei neilltuo yn cydymffurfio â chyfarwyddyd Polisi Cynllunio Cymru.

6.3 **Polisi Cynllunio Mwynau Cymru**

6.3.1 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn amlygu'r canllaw polisi defnydd tir cenedlaethol mewn perthynas â chloddio mwynau a datblygiadau cysylltiedig eraill, efo'r amcan o alluogi penderfyniadau cadarn a chyson ar geisiadau datblygu mwynau. Cloddio mwynau cynaliadwy yw'r amcan pwysicaf. Mae yna bedair prif amcan i Gynllun Datblygiad Cynaliadwy Cynulliad Cymru sy'n berthnasol i gynllunio mwynau, amcanion sydd hefyd yn ffurfio sail y penawdau penodau yn y Strategaeth CDLI a Ffafir. Maent fel a ganlyn:

- Cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb;
- Diogelu'r amgylchedd yn effeithiol;
- Defnydd darbodus o adnoddau naturiol; a,
- Cynnal lefelau uchel a sefydlog o dwf economaidd.

6.3.2 Yn unol â'r amcan o gloddio mwynau cynaliadwy, mae'r Polisi Cynllunio Mwynau yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gydbwysu'r angen i sicrhau defnydd darbodus o adnoddau meidraidd, ac ar yr un pryd yn gwarchod yr amgylchedd a chymunedau lleol. Felly, wrth ffurfio polisiau cynllun datblygu, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gymryd i ystyriaeth y pum prif egwyddor a amlinellwyd isod, pob un ohonynt wedi eu hegluro ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru. Y prif egwyddorion ydi:

- Darparu adnoddau mwynol i gwrdd ag anghenion cymdeithas ac i ddiogelu adnoddau rhag sterileiddiad;
- Gwarchod ardaloedd o bwysigrwydd i dreftadaeth naturiol ac adeiledig;
- Cyfyngu ar effaith amgylcheddol cloddio mwynau;
- Cyflawni adferiad o safon uchel ac ôl-ddefnydd manteisiol; ac,

- Annog defnydd effeithlon a phriodol o adnoddau ac aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau addas.

6.3.3 Ar y cyfan mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn canolbwyntio ar yr angen am ddatblygu mwynau cynaliadwy, ac yn rhoi canllaw ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu sy'n adlewyrchu hyn mewn modd cyson drwy gydol y broses llunio polisïau a gwneud penderfyniadau ar draws Cymru.

6.4 **Nodyn Cyngor Technegol 5 - Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009**

6.4.1 Dylai'r system gynllunio gwlad a thref yng Nghymru:

- Weithio i gyflawni amcanion cadwraeth natur trwy bartneriaeth rhwng awdurdodau cynllunio lleol, CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, sefydliadau gwirfoddol, datblygwyr, tiffeddianwyr a budd-ddeiliaid allweddol eraill
- Integreiddio cadwraeth natur ym mhob penderfyniad cynllunio gan edrych tuag at ddarparu amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol dros amser
- Sicrhau bod goblygiadau rhyngwladol a chenedlaethol y DU ar gyfer gwarchod safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd yn cael eu diwallu ym mhob penderfyniad cynllunio
- Edrych am ddatblygiad i ddarparu budd net ar gyfer cadwraeth natur heb ddim colled sylweddol o ran cynefinoedd na rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol
- Sicrhau nad yw datblygiad yn difrodi, cyfyngu mynediad nac astudiaeth o safleoedd a nodweddion daearegol nac yn rhwystro esblygiad prosesau a systemau naturiol yn enwedig ar afonydd ac arfordiroedd.
- Llunio a chreu cysylltiadau rhwng y system a chynllunio gweithredu bioamrywiaeth trwy bolisïau mewn paratodau CDLI ac CCA gan ychwanegu gwerth at Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol trwy amlinellu'r ffyrdd gall y system gynllunio ddarparu ei amcanion mewn ffyrdd ymarferol.
- Cynllunio i gartrefu/ gostwng effeithiau newid hinsawdd trwy annog datblygu sy'n gostwng gollyngiadau/ defnydd o ynni a helpu cynefinoedd/ rhywogaethau i ymateb i newid hinsawdd.

6.4.2 Dylai polisiâu/ cynigion y CDLI fod yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau bioamrywiaeth/ daearegol yr ardal a chadw llygad arnynt. Mewn adolygiadau CDLI, dylid asesu'r potensial i gadw/ gwella'r adnoddau hynny. Dylai polisiâu datblygu ac CCA hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynnwys nodweddion bywyd gwyllt a daearegol o fewn dyluniad y datblygiad a'r isadeiledd werdd.

6.4.3 Wrth ystyried polisiâu a chynigion mewn CDLI a cheisiadau cynllunio a allai effeithio ar gadwraeth natur, dylai awdurdodau cynllunio lleol:

- Talu sylw at egwyddorion datblygu cynaliadwy, terfynau amgylcheddol a'r egwyddor rhagofalus gan ddefnyddio gwybodaeth arbenigol i gynorthwyo gwneud penderfyniadau a bod yn atebol am yr ystod lawn o gostau/ budd-daliadau yn y tymor hir
- Cyfrannu at ddiogelu/ gwella ansawdd bywyd a gwarchod ecosystemau lleol/ bydol, osgoi effeithiau niweidiol anghildroadwy i'r amgylchedd
- Hyrwyddo cadwraeth/ gwelliant ardaloedd dynodedig/ yr arfordir sydd heb eu datblygu
- Sicrhau pwysiad priodol ar gyfer safleoedd sydd â phwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol
- Diogelu bywyd gwyllt/ nodweddion naturiol yn yr amgylchedd, gyda phwysiad priodol i gynefinoedd/ rhywogaethau â blaenoriaeth yn y Cynlluniau gweithredu Bioamrywiaeth
- Sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu cyfarwyddo gan wybodaeth ddigonol am effeithiau posibl datblygiad ar gadwraeth natur
- Sicrhau y cedwir yr ystod a phoblogaeth rhywogaethau a ddiogelir
- Mabwysiadu agwedd tuag at osgoi niwed i gadwraeth natur, lleihau niwed na ellir ei osgoi trwy fesurau lliniaru, atredu niwed gweddilliol trwy fesurau cyfadfer ac edrych am gyfleoedd i wella cadwraeth natur. Lle efallai byddai yna effeithiau niweidiol sylweddol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol fod yn fodlon bod safleoedd amgen rhesymol eraill a fyddai'n golygu llai/ dim niwed o gwbl, wedi cael eu hystyried

6.5 **Nodyn Cyngor Technegol 6 Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010**

6.5.1 Gan fod cyfran fawr o'r Fwrdeistref Sirol yn wledig, mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn berthnasol iawn ac yn ystyriaeth bwysig. Mae'n cefnogi

datblygu cymunedau gwledig cynaliadwy, gan helpu gwneud yn siŵr bod datblygiadau priodol yn digwydd yn y lle iawn ar yr amser iawn gan wneud digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith ar gyfer pobl leol i gynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r sialensiau maent yn wynebu oherwydd newid hinsawdd, er enghraifft trwy fynd i'r afael â'r angen am gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

6.5.2 Er mwyn helpu datblygu a chefnogi economi wledig gynaliadwy, mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn ymdrin â'r meysydd economaidd canlynol;

- Aildefnyddio/ addasu adeiladu gwledig
- Adeiladau amaethyddol, yn enwedig defnyddiau a ganiateir o dan hawliau datblygu amaethyddol a ganiateir ac os oes cyfiawnhad amaethyddol gwirioneddol ar gyfer y datblygiad
- Trawsnewid adeiladau gwledig yn llety preswyl a gwyliau
- Arallgyfeirio ar y fferm
- Siopau fferm a gweithdai

6.5.3 Er mwyn helpu datblygu a chefnogi tai gwledig cynaliadwy mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn ymwneud â'r meysydd canlynol;

- Tai Fforddiadwy (mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yma yn Nodyn Cyngor Technegol 2, ond dylid defnyddio'r Nodyn hwn mewn perthynas ag ardaloedd gwledig)
- Anheddau mentrau gwledig (gelwir hefyd yn anheddau gweithwyr hanfodol) a'u hasesiadau (gan gynnwys profion swyddogaethol, ariannol ac amser)
- Anheddau newydd ar fentrau gwledig sefydledig
- Ail anheddau ar ffermydd sefydledig
- Anheddau newydd ar fentrau newydd
- Arfarniadau anheddau eraill
- Arfarniadau gofynion cynllunio eraill
- Amodau preswyliaeth a goblygiadau cynllunio
- Monitro a datblygu 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'
- Aseidiadau effaith a chynlluniau ecolegol, bioamrywiaeth, tirwedd, teithio a charbon

6.5.4 Er mwyn helpu datblygu a chefnogi gwasanaethau cynaliadwy mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn ymwneud â'r meysydd canlynol;

- Dylai awdurdodau cynllunio gael gwybodaeth ar argaeledd gwasanaethau ar draws yr ardal i helpu amlygu'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu gyda'r bwriad o ddiwallu angen cyffredinol
- Lleoliadau lle dylid cymryd agwedd mwy rhagweithiol i gwrdd â'r gofynion gwasanaeth cymunedol hanfodol.
- Dylai'r CDLI hefyd geisio ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael mewn canolfannau gwasanaeth lleol i gwrdd ag anghenion y dalgylch.
- Tu allan i ganolfannau gwasanaeth a amlygwyd, dylai awdurdodau cynllunio geisio cefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau lleol, yn enwedig lle buasant o fudd i breswylwyr gwledig sy'n bell o gyfleusterau sy'n bodoli.
- Efallai bydd defnydd amlbwrpas yn ffordd briodol ymlaen, yn enwedig mewn ardaloedd mwy diarffordd.

6.5.5 Er mwyn helpu datblygu a chefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Datblygiadau'n ymwneud â thir amaethyddol
- Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer daliadau amaethyddol
- Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer coedwigaeth
- Adeiladu tai gwydr
- Strwythurau dros dro
- Cronfeydd dŵr ar ffermydd

6.6 **Nodyn Cyngor Technegol 8 – Ynni Adnewyddadwy (2005)**

6.6.1 Cynhaliwyd trosolwg a dadansoddiad o'r 21 o Nodiadau Cyngor Technegol er mwyn tynnu ohonynt unrhyw oblygiadau o ran defnydd o dir sydd yn effeithio ar Gonwy'n benodol. O'r rhain dim ond yn NCT8 - Ynni Adnewyddadwy ac NCT15 - Datblygu a'r Risg o Lifogydd, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â thir ac sy'n berthnasol i Ardal y Cynllun. Ceir crynodeb o amcanion y nodiadau cynghori technegol eraill ym mharagraff 6.6.

6.6.2 Mae'r lefelau o ffynonellau ynni anadnewyddadwy sydd ar gael at ddefnydd bydeang yn lleihau a'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn cynyddu, ac felly mae

NCT8 yn ymwneud yn bennaf â goblygiadau defnydd tir ar hybu defnydd o ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

- 6.6.3 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targed i gynhyrchu 4TWh o drydan y flwyddyn trwy gyfrwng ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn gwireddu'r nod hwn cytunwyd fod angen 800MW yn ychwanegol o gapasiti parod gan wasanaethau ynni gwynt ar dir a 200MW gan wasanaethau yn y môr.
- 6.6.4 Bydd modd cynhyrchu trydan allan o ynni'r gwynt ar y tir trwy adnabod Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA). Mae 7 o'r rhain i gyd ac o safbwynt Conwy mae un yn bongamu ar y ffin rhwng Sir Ddinbych a Chonwy yng Nghoedwig Clocaenog, sydd yn anelu at gynhyrchu oddeutu 140MW. Er bod yr SSA yma wedi'i lleoli yn y ddwy Sir, mae'r mwyafrif helaeth o'i dynodiad yn gorwedd yn Sir Ddinbych.
- 6.6.5 Yn gyffredinol, mae NCT8 yn ymwneud â'r angen i ddibynnu llai ar ffynonellau ynni anadnewyddol a phwyso i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddol. Yng nghyd-destun Conwy, mae SSA wedi cael ei ddynodi yn ardal Coedwig Clocaenog i gynhyrchu ynni'r gwynt.

6.7 **Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio 2009**

6.7.1 **Cynlluniau Datblygu Lleol**

Ni ddylid gwthio steiliau/ chwaeth penodol pensaernïol ond dylid defnyddio dylunio da yng nghyd-destun lleol/ nodedig. Gallai cynlluniau dargedu polisïau dylunio ar gyfer ardaloedd newid/ diogelu mawr, safleoedd strategol neu ddatblygiadau penodol. Dylid amlygu materion sy'n berthnasol i gyd-destun dylunio a datganiadau mynediad a/neu CCA yn y cynllun. Gall y cynllun amlygu'r angen am agwedd mwy trwyadl gan ymgeiswyr at y gofynion dylunio a mynediad nag sydd ei angen mewn polisi cenedlaethol, cyn belled bod cyfiawnhad am hynny.

6.7.2 **Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)**

Gellir paratoi canllaw dylunio yn nodi gweledigaeth a chyd-destun ar gyfer datganiad dylunio a mynediad, proses ddylunio a disgwyliadau ansawdd dylunio. Fel arall, mae'r mathau o CCA sy'n ymwneud â dylunio fel a ganlyn:

6.7.3 **Penodol i ardal**

Fe'i defnyddir i arwain datblygu mewn ardaloedd allweddol e.e. canol trefi, ardaloedd tirwedd arbennig neu gymdogaeth arbennig neu annedd trefol. Mae mathau o CCA penodol i ardal yn cynnwys:

6.7.4 **Fframweithiau neu strategaethau dylunio trefol**

Dylai ddangos sut mae strydoedd, sgwariau a mannau agored yn cysylltu, sut mae patrymau symud cludiant yn cael eu rheoli a diffinio uchder, mas a swmp adeiladau mewn perthynas â'r gofod o'i amgylch. Mae canllawiau cymdogaeth neu ddosbarth, crynodebau dylunio pentrefi a chynlluniau gweithredu trefi/ pentrefi yn y categori hwn.

6.7.5 **Codau dylunio**

Gallai hyn gynnwys lluniau neu ddiagramau manwl, yn amlygu'r egwyddorion dylunio a chynllunio a fydd yn berthnasol i le arbennig.

6.7.6 **Penodol i safle**

Gellir dangos canllawiau trwy ddiagramau cysyniad, canllawiau amlen ddatblygu a sgetsys tri dimensiwn o ffurfiau a gofod adeiladau. Dylid osgoi dylunio rhagnodol ac unrhyw awgrym o steil benodol. Gallai'r rhain gynnwys:

6.7.7 **Briffiau datblygu neu gynllunio**

Amlygu'r weledigaeth ar gyfer datblygiad, yn cael cyfarwyddyd o gan werthusiad safle a chyd-destun, nodi ei amcan(ion) a dangos sut gellid defnyddio'r polisiau dylunio/ cynhwysol y cynllun datblygu. Dylid darparu gwerthusiad ardal/ safle sylfaenol gan gynnwys cyfyngiadau a chyfleoedd, cyflyrau pridd, isadeiledd ac amcanion dylunio ansawdd uchel perthnasol eraill.

6.7.8 **Yn seiliedig ar destun**

Lle mae angen canllaw mewn perthynas â materion neu ddefnyddiau penodol, mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

6.7.9 **Canllawiau dylunio**

Dylid cymryd gofal arbennig mewn perthynas â chanllawiau ar ddefnyddiau penodol (e.e. tai) er mwyn sicrhau amrywiaeth ac integreiddiad â defnyddiau tir eraill. Dylid defnyddio canllaw i arwain yr amrywiaeth o wahanol ddefnyddiau.

6.7.10 **Canllawiau ar ardaloedd sy'n cael eu hadfywio**

Dylai ymwneud â rhwydwaith cludiant/ symudiadau dwysedd uwch, gan ganolbwyntio ar adeiladau masnachol/ cymunedol ar hyd llwybrau cludiant cyhoeddus a chyfnewidfeydd. Dylai fel arfer annog datblygiad sy'n adlewyrchu patrwm y strydoedd lleol a'r blociau a sicrhau bod ardal drefnol gyfan neu rannau o honni yn cael eu datblygu mewn modd sy'n parchu nodedigrwydd lleol.

6.7.11 **Cyngor ar newid hinsawdd**

Yn darparu mwy o fanylion sy'n ymwneud â microhinsawdd, dylunio ar gyfer cynhesu solar a chyfeiriadedd i olau'r haul, cysgod rhag gwyntoedd cyffredin, rheoli dŵr yn gynaliadwy, defnydd o dirffurf/ plannu ac optimeiddio cyfleoedd ar gyfer cynnal/ gwella bioamrywiaeth.

6.7.12 **Arwyddion a hysbysebion**

Yn hynod ddefnyddiol i egluro disgwyliadau'r awdurdod cynllunio lleol mewn gwahanol amgylchiadau ar gyfer safonau dylunio o ansawdd uchel.

6.8 **Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a'r Perygl o Lifogydd 2004**

6.8.1 Gydag effaith gynyddol y newid i'r hinsawdd a'r ffaith bod mwyafrif helaeth o drigolion Conwy'n byw ar hyd yr arfordir, mae NCT15 yn arbennig o berthnasol wrth ddatblygu yn Ardal y Cynllun yn y dyfodol.

6.8.2 Gall llifogydd afonol ac arfordirol beryglu bywydau, achosi trawma personol a difrod sylweddol i eiddo gan amharu'n ddifrifol ar isadeiledd, busnes a masnach, a chostio'n ddrud iawn yn ariannol. Yn gyffredinol dylid gwyro gwaith datblygu o

barth C, yn arbennig pan yr ystyrir bod y datblygiad dan sylw'n arbennig o ddiameddiffyn, er enghraifft tai ac adeiladau cyhoeddus.

6.8.3 Ni ddylid caniatáu gwaith datblygu ym mharth C ond pan fydd y datblygiad wedi pasio'r prawf cyfiawnhau gofynnol a amlinellir yn adran 6 yn NCT15. Gan hyn ni fydd datblygiad yn cael ei ganiatáu mewn parthau o'r fath ond yn yr achosion a ganlyn:

- Bod angen lleoli'r datblygiad ym mharth C i gynorthwyo, neu yn rhan o gynllun adfywio'r awdurdod lleol neu strategaeth gan yr awdurdod lleol sy'n angenrheidiol i gynnal anheddiad presennol; neu,
- Bod angen lleoli'r datblygiad ym mharth C i gyfrannu tuag at amcanion cyflogaeth allweddol a gefnogir gan yr awdurdod lleol, a phartneriaid eraill allweddol, i gynnal anheddiad neu ranbarth presennol;
- Bod y datblygiad yn gydnaws â nodau Polisi Cynllunio Cymru (PCC) ac yn bodloni'r diffiniad o dir a ddatblygwyd eisoes (PCC ffig 4.1); a,
- Bod canlyniadau posibl llifogydd ar y math hwn o ddatblygiad wedi cael eu hystyried, a'u bod yn dderbyniol o ystyried y meini prawf yn adrannau 5 a 7 ac yn atodiad 1.

6.8.4 Yn achos gorlifdir sydd heb ei amddiffyn (C2), ni chaniateir unrhyw ddatblygiad sydd mewn perygl uchel, fel tai, o gwbl.

6.8.5 Yn gyffredinol felly dylid gwyro gwaith datblygu o ardaloedd sydd â risg o lifogydd, yn arbennig datblygiadau sy'n arbennig o ddiameddiffyn ym mharth C. Yng Nghonwy mae llawer o ardaloedd â risg o lifogydd arfordirol ac afonol felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried hyn yng nghyd-destun dyraniadau cynllun yn y dyfodol a pholisïau datblygu cyffredinol.

6.9 **Nodyn Cyngor Technegol 22 - Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy 2010**

6.9.1 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau newydd am ddatblygiad preswyl a dibreswyl (uwchlaw'r trothwy) i gyflawni safon adeilad cynaliadwy isafswm, ac o fewn y safon honno lefel gollyngiadau carbon isafswm;

	Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar gyfer (Cynllunio) Adeiladau Cynaliadwy (Crynodeb)
Isafswm safon ar gyfer adeiladau cynaliadwy	Disgwyl i adeiladau gyrraedd y lefel isafswm o gynaliadwyedd drwy'r safon adeiladau cynaliadwy ragnodedig. Ar gyfer cynigion preswyl, y lefel isafswm yw'r Cod Cartrefi Cynaliadwy. Ar gyfer cynigion amhreswyl, defnyddir Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu ("BREEAM") neu gynllun sicrhau ansawdd cyfatebol.
Isafswm safon allyriadau carbon	Drwy'r safon isafswm ar gyfer adeiladau cynaliadwy (uchod). Disgwyl i nifer isafswm o gredydau gael eu cyflawni o dan y categori Ynni/CO2 sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag allyriadau carbon.

6.9.2 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Cynllunio Adeiladau Cynaliadwy yn defnyddio dwy safon asesu adnabyddus a sefydledig ar gyfer adeiladau cynaliadwy. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ar gyfer cynigion preswyl, mae'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy ("y Cod") wedi cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth y Cynulliad fel yr erfyn a ffafrir i asesu cynaliadwyedd cartrefi newydd yng Nghymru.
- Ar gyfer cynigion amhreswyl, dylid defnyddio Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu ("BREEAM") neu gynllun sicrhau ansawdd cyfatebol.

6.9.3 Dylai pob safle gael ei ystyried ar gyfer ei botensial unigol i gwrdd â'r safon isafswm disgwyliedig a chynnig ateb dylunio a fydd yn helpu darparu'r safonau hyn neu uwch.

6.9.4 Mae'n ddymuniad gan Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol i'r holl adeiladau newydd gyflawni safon di-garbon;

Dylunio Goddefol		
Gwresogi Solar Goddefol	Oeri Goddefol	Golau Naturiol
Gogwydd adeilad a chynllun mewnol	Sicrhau cyn lleied o amlygiad uniongyrchol i'r haul ac amsugnad gwres â phosibl (yn ystod misoedd yr haf)	Gwneud y gorau o olau naturiol
Maint a lleoliad ffenestri	Awyru naturiol i alluogi aer oer i fynd i mewn i'r adeilad ac aer cynnes i adael	Gwydr arbennig a rheolaethau awtomataidd
Más thermol priodol i gymedroli eithafion tymheredd	Digon o gysgod i ddiogelu yn erbyn gorgynhesu	

6.9.5 Bydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol fod yn glir ynglŷn â'r berthynas rhwng polisïau cynllunio lleol, sy'n rheoli'r lleoliad, gosodiad, dyluniad ac effaith datblygiad, a rheoliadau adeiladu.

6.9.6 Ni ddylai awdurdodau cynllunio ddyblygu polisïau cynllunio cenedlaethol sy'n amlygu'r disgwyliadau isafswm ar safonau adeiladau cynaliadwy, ond dylent ddefnyddio'r polisi i'w hamgylchiadau lleol ac archwilio cyfleoedd i hyrwyddo amcanion tanseiliol y polisi o ran symud ymlaen tuag at adeiladau mwy cynaliadwy a di-garbon yng Nghymru.

6.9.7 Ffactorau wrth asesu'r potensial am safonau adeiladau cynaliadwy ar safleoedd strategol:

- Y dirwedd bresennol a nodweddion topograffeg
- Argaeledd rhwydwaith gwresogi rhanbarthol lleol
- Llwyth ynni/ gwres ar y safle neu gerllaw iddo sy'n gwella hyfywedd system ynni leol
- Cwmni Gwasanaethau Ynni presennol neu arfaethedig
- Amodau ffafriol ar y safle ar gyfer technoleg ynni carbon isel a di-garbon (h.y. cyflymder gwynt)
- Datblygiadau dwyseddau uwch a defnydd cymysg
- Y math o bridd ar safle
- Safleoedd mewn perygl o lifogydd
- Darparu cyfleusterau ailgylchu ym mhob rhan o'r safle
- System casglu gwastraff yr awdurdod lleol

- Gwerth ecolegol presennol y safle
- Hygyrchedd y safle i rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus
- Agosrwydd at amwynderau lleol hygyrch
- Ffactorau eraill a fyddai'n ei gwneud yn bosibl cyflawni safonau adeiladau cynaliadwy ar safle strategol.

6.9.8 Dylai gofynion lleol ar gyfer safonau adeiladau cynaliadwy ar safleoedd strategol:

- gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol, er mwyn sicrhau y cânt eu harchwilio gan arolygydd annibynnol. Mae hyn er mwyn sicrhau y cynhelir ymgynghoriadau a phroffion priodol mewn perthynas â safonau a gofynion er mwyn sicrhau bod eu huchelgais yn adlewyrchu potensial lleol a'u bod yn gyraeddadwy;
- ymwneud â safle strategol fel y nodir gan yr awdurdod cynllunio lleol yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- cael eu nodi yn nhermau cyflawni safonau adeiladau cynaliadwy a ddisgrifiwyd yn genedlaethol (Y Cod Cartrefi Cynaliadwy yw hwn ar gyfer tai);
- cael eu nodi yn nhermau lefel gyffredinol yn unig yn erbyn safonau adeiladau cynaliadwy, ac ni ddylent geisio nodi categorïau neu gredydau unigol y dylid eu cyflawni (h.y. ynni/CO₂);
- sicrhau bod y gofyniad yn gyson â newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu nawr ac yn y dyfodol, ac ystyried yr amserlenni hyn wrth bennu safonau adeiladau cynaliadwy uwch;
- bod yn gyson ag amcanion allweddol gwaith dylunio da;
- osgoi pennu polisiau ar gyfer ardaloedd cyfan sy'n cynnwys gofynion ar gyfer safonau adeiladau cynaliadwy, oni bai y gellir rhoi cyfiawnhad digonol.

6.10 **Crynodeb o Nodiadau Cyngor Technegol eraill**

Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys canllawiau y disgwylir i awdurdodau lleol gadw atynt. Mae crynodeb isod o amcanion y Nodiadau Cyngor Technegol sy'n weddill:

6.10.1 **TAN1: Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2006)**

- Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy.

- Darparu datganiad y cytunwyd arno ynghylch argaeledd tir preswyl at ddibenion cynllunio a rheoli datblygiadau.
- Nodi'r angen i weithredu mewn sefyllfaoedd lle gwelir bod y cyflenwad yn annigonol.

6.10.2 **TAN2: Cynllunio a Thai Ffordiadwy (2006)**

- Cynnwys targed ar gyfer tai fforddiadwy yn y cynllun datblygu sy'n seiliedig ar yr angen tai a nodir yn yr asesiad o'r farchnad dai leol.
- Dangos sut y bwriedir cyrraedd y targed drwy ddefnyddio polisiau a nodwyd.
- Monitro faint o dai fforddiadwy a ddarperir o'u cymharu â'r targed, a lle bo angen, cymryd camau i sicrhau bod y targed hwnnw'n cael ei gyrraedd.

6.10.3 **TAN3: Parthau Cynllunio Syml (1996)**

- Cynghori ACLI ar ddefnyddio Parthau Cynllunio Syml (SPZ) ac i asesu os yw'n ddymunol eu gweithredu. Mewn amgylchiadau lle credir eu bod yn ddymunol, dylid cadw at ganllawiau ar eu defnyddio fel sydd wedi ei gynnwys yn y TAN.

6.10.4 **TAN4: Manwerthu a Chanol Trefi (1996)**

- Darparu cyngor ar fywiogrwydd a hyfywdra'r diwydiant manwerthu o fewn ardal yr ACLI, a fydd yn cynorthwyo efo paratoi cynlluniau datblygu a'r potensial ar gyfer darpariaeth bellach.
- Cynghori ar yr angen am asesiadau effaith ar gyfer datblygiadau manwerthu.
- Darparu canllawiau ar newid defnydd a dosbarthiadau defnydd fel y manylir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987.

6.10.5 **TAN7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)**

- Darparu canllaw manwl ar ddefnyddio hysbysebion mewn perthynas â dyluniad, amwynder a diogelwch y cyhoedd yn ogystal â'u defnydd ar ardaloedd dynodedig, fel ardaloedd cadwraeth, ac Ardaloedd Rheolaeth Arbennig ar Hysbysebion.

6.10.6 **TAN 9: Gorfodi Rheolau Cynllunio (1997)**

Darparu canllaw ar orfodi rheolau cynllunio ac yn benodol:

- Datblygiad derbyniol a gyflawnwyd, heb awdurdod;

- Datblygiad heb ei awdurdodi sy'n dderbyniol gydag amodau;
- Datblygiad heb ei awdurdodi sy'n dderbyniol ar safleoedd eraill;
- Datblygiad heb ei awdurdodi sy'n annerbyniol ac nid yw adleoli'n ymarferol;
- Datblygiad heb ei awdurdodi sydd angen sylw ar unwaith;
- Datblygiad heb ei awdurdodi gan ddeiliaid cartrefi preifat;
- Rheolaeth dros waith mwynau;
- Rheolaeth dros waredu gwastraff.

6.10.7 **TAN10: Gorchmynion Diogelu Coed (1997)**

- Darparu canllaw ar ddiogelu coed a choedtiroedd trwy ddefnyddio Gorchmynion Diogelu Coed (TPO), gyda sgôp y TPO a defnyddio amodau er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o goed fel bo'n addas mewn caniatadau cynllunio.

6.10.8 **TAN11: Sŵn (1997)**

- Darparu cyngor ar sut y gellir defnyddio'r system gynllunio i leihau effaith andwyol sŵn heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygu.
- Dylai'r cynllun datblygu ystyried datblygiadau sy'n debygol o greu sŵn neu fod yn agored i ffynonellau sŵn cyfredol.
- Mabwysiadu agwedd gorfforaethol a sicrhau cydweithrediad rhwng yr adrannau cynllunio ac iechyd yr amgylchedd o ran ystyried datblygiadau sy'n cynhyrchu sŵn.
- Dylai polisïau sŵn sy'n berthnasol ar gyfer ardal gyfan y cynllun gael eu gosod yr un ffordd â pholisïau eraill. Dylid amlygu polisïau sŵn ardal benodol ac arddangos y ffiniau perthnasol.

6.10.9 **TAN13: Twristiaeth (1997 a Drafft Diwygiedig 2006)**

- Darparu canllaw ar y mater o dwristiaeth a'r ffaith ei fod yn destun newid, a'r cyfraniad a wna i economi Cymru, gan ddarparu cyflogaeth a dod a manteision i economïau lleol a chwmnïau mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- Gallai cynlluniau datblygu ddarparu canllaw ar gyfleoedd ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr a chyfleusterau priodol trwy ardaloedd dynodedig.

6.10.10 **TAN14: Cynllunio'r Arfordir (1998)**

- Darparu canllaw ar faterion cynllunio o fewn y parth arfordirol, gan gynnwys effeithiau ceisiadau datblygu, cadwraeth natur a thirwedd a hamdden.
- Dylai ACLI gynnal, ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd, asesiad o'r cyflyrau arfordirol ffisegol a biolegol gan ganolbwyntio ar risg, cyllidebau gwaddodol a materion sensitifrwydd.

6.10.11 **TAN16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)**

- Darparu cyngor am batrymau newidiol cymryd rhan a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer chwaraeon a hamdden ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, sefydliadau eraill ac unigolion.
- Dylai ACLI fabwysiadu safonau ar gyfer darpariaeth hamddenol a gwarchod safleoedd sydd â gwerth o ran hamdden neu amwynder lle mae diffyg mannau agored hygyrch mewn ardal benodol.
- Dylai ACLI gynnal asesiadau angen lleol ac archwiliad o'r ddarpariaeth gyfredol o fannau agored, a ddylai wedyn gyfarwyddo'r polisiâu CDLI. Dylai'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, y mae angen i bob awdurdod lunio dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, gynnwys asesiad o angen ac archwiliad o'r cyflenwad sydd ar gael.

6.10.12 **TAN17: Cynllunio a Rheoli Datblygu (Drafft 2007)**

- Darparu canllawiau ar gyflwyno ceisiadau cynllunio a threfnau o ran penderfynu arnynt.
- Rolau'r sefydliadau a'r unigolion o ran darparu'r gwasanaeth cynllunio.
- Defnyddio'r asesiadau effaith iechyd, asesiadau effaith amgylcheddol, datganiadau mynediad a datganiadau dylunio yn y broses benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Cyngor ar y broses apeliadau.

6.10.13 **TAN18: Cludiant (2007)**

- Dylid rhoi canllaw manwl i ddatblygiadau, gan ostwng yr angen i deithio a hyrwyddo mynediad da trwy gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.
- Dylid hyrwyddo cludiant llai llygredig er mwyn cyfrannu at welliannau amgylcheddol.
- Amcanion datblygu polisi cludiant integredig.

- Hyrwyddo hygyrchedd trwy well cludiant cyhoeddus ac ystyried safleoedd ar gyfer cyfnewidfeydd a chynlluniau parcio a theithio.
- Ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ym mhob datblygiad. Dylid integreiddio polisïau cludiant efo polisïau ar gyfer gwarchod a gwella manau gwyrdd, strategaethau ar gyfer diogelwch ffyrdd a pholisïau ar gyfer diogelu llwybrau a theithiau mewn ardaloedd trefol a gwledig ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion.
- Dylid defnyddio'r safonau parcio ceir uchafswm ar lefel leol a rhanbarthol er mewn rheoli lefel galw addas. Ni fydd troi safonau isafswm i safonau uchafswm bob amser yn briodol. Felly, dylid ystyried tystiolaeth yn seiliedig ar effeithiau tebygol gwahanol lefelau parcio ar gyfer bob defnydd o dir.

6.10.14 **TAN19: Telathrebu (2002)**

Dylai polisïau cynllun datblygu ystyried:

- Agwedd bolisi gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad tuag at gynllunio ar gyfer datblygiadau telathrebu, fel yr amlygwyd ym Mhennod 12 PPW.
- Gofynion Deddf Telathrebu 1984.
- Yr angen i leihau effaith y datblygiad, ac yn enwedig yr angen i warchod yr amgylcheddau gorau a mwyaf sensitif.
- Y cyfyngiadau a ddaw yn sgil natur y rhwydwaith telathrebu a'r dechnoleg.
- Canlyniadau ymgynghori cynnar rhwng awdurdodau cynllunio a gweithredwyr telathrebu er mwyn galluogi cadw gofynion rhwydweithiau telathrebu a llwybro a chymalu a datblygu rhwydwaith mewn cof.

6.10.15 **TAN20: Yr Iaith Gymraeg (2000) ac Adolygiad Drafft: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2011)**

Mae'r TAN yn egluro sut y dylid rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae'r TAN drafft, sy'n dilyn ymrwymiad 'Cymru'n Un' i adolygu ac ailgyflwyno TAN 2000 yn nodi:

- Un o'r materion allweddol mae angen i'r CDLI fynd i'r afael ag o yw sut y gellir defnyddio'r system gynllunio defnydd tir i gefnogi defnydd yr iaith Gymraeg a chynnaladwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith,

- Mae'r TAN Drafft yn cynnig y dylai Aseidiadau Effaith Iaith Gymraeg fod yn rhan o werthusiad cynladwyedd y CDLI ond na ddylai polisïau cynllunio geisio rheoli daliadaeth tai ar sail ieithyddol.

6.10.16 **TAN21: Gwastraff (2001)**

Dylai'r system gynllunio:

- Ddarparu fframwaith gynllunio sy'n gallu darparu'n ddigonol ar gyfer cyfleusterau rheoli adnodd gwastraff er mwyn cwrdd ag anghenion cymdeithas ar gyfer aildddefnyddio, adfer a chael gwared ar wastraff.
- Helpu cwrdd ag anghenion busnesau ac annog cystadleugarwch.
- Annog rheoli gwastraff yn sensitif, gwella ansawdd cyffredinol yr amgylchedd ac osgoi risgiau i iechyd dynol.
- Ystyried yr angen i warchod ardaloedd â thirwedd ddynodedig a gwerth cadwraeth natur rhag datblygiadau anaddas.
- Ystyried yr angen i warchod amwynder y gymuned a'r defnydd o'r tir a'r defnyddwyr yr effeithir arnynt gan gyfleusterau rheoli gwastraff cyfredol neu fwriedig.
- Lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol sy'n deillio o drin, prosesu, cludo a chael gwared ar wastraff.
- Ystyried pa gyfleusterau newydd sydd efallai eu hangen, yng ngoleuni rhagolygon gwastraff.
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cynnwys cyfleusterau aildddefnyddio/ ailgylchu mewn datblygiadau yn cael eu hystyried o ddifrif.

6.10.17 **MTAN (Wales) 1: Agregau (2004)**

- Yr amcan drosfwaol ydi gwneud yn siŵr bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy fel y gellir dod o hyd i'r cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, a hynny wrth wneud yn siŵr bod yr effeithiau amgylcheddol ac amwynder yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed amlwg i bethau o bwysigrwydd cydnabyddedig.

Dylid darparu agregau mewn modd cynaliadwy i gwrdd ag anghenion cymdeithas ar gyfer deunyddiau adeiladu yn unol â'r amcanion canlynol:

- Cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi eu hailgylchu a gwastraff mwynau lle bo hynny'n ymarferol.
- Sicrhau bod caniatâd cynllunio ar gyfer cloddio sylfaenol yn y dyfodol yn hanfodol ac wedi eu cynllunio yn iawn yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol.
- Dros y 5 mlynedd nesaf cael gwared ar y tebygrwydd o unrhyw gloddio agregau sylfaenol yn y dyfodol mewn safleoedd anarferedig yn hanesyddol a safleoedd sydd wedi bod yn segur ers amser maith.
- Gwarchod ardaloedd o bwysigrwydd.
- Gostwng yr effaith o gynhyrchu agregau.
- Ystyried adferiad a gofal dilynol.
- Effeithlonrwydd defnydd/ ailgylchu.

6.11 **Strategaeth Cludiant Cymru**

6.11.1 Mae Deddf Cludiant (Cymru) newydd 2006 a Deddf Rheilffyrdd 2005 wedi rhoi mwy o bwerau i Lywodraeth y Cynulliad i gynllunio a gwella ein system gludiant. Ymysg y newidiadau pwysicaf mae'r gofyniad i i gynhyrchu Strategaeth Cludiant Cymru, pwerau newydd i hyrwyddo cynllunio cludiant rhanbarthol, a chyfarwyddo rheoli gwasanaethau rheilffordd lleol a rhanbarthol yng Nghymru.

6.11.2 Mae tair thema i Strategaeth Cludiant Cymru: y cyntaf ydi cyflawni system gludiant mwy effeithiol ac effeithlon; yr ail ydi cael mwy o ddefnydd o ffurfiau mwy cynaliadwy ac iach o deithio; a'r trydydd ydi lleihau'r angen i deithio. O fewn y themâu hyn, mae'r Strategaeth yn ceisio gwneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall cludiant ei wneud i gyfres o ganlyniadau bwriedig. Mae'r canlyniadau bwriedig wedi cael eu grwpio o dan y tair elfen o gynaliadwyedd (Cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) ac maent wedi eu grwpio gyda set o negeseuon allweddol sydd wedi eu ffurfio i fynd â'r canlyniadau yn eu blaen.

6.11.3 Mae'r canlyniadau cymdeithasol fel a ganlyn:

- Gwella mynediad at ofal iechyd;
- Gwella mynediad at addysg a dysgu gydol oes;
- Gwella mynediad at siopa a chyfleusterau hamdden;
- Annog ffyrdd o fyw iach;
- Gwella gwir ddiogelwch teithio a'r hyn a ddeallir i fod yn ddiogel; a,

- Gwella mynediad at gyfleoedd gwaith.

6.11.4 Mae'r canlyniadau economaidd fel a ganlyn:

- Gwella cysylltiadau o fewn Cymru ac yn rhyngwladol;
- Gwella symudiad effeithlon, dibynnol a chynaliadwy o bobl;
- Gwella symudiad effeithlon, dibynnol a chynaliadwy o lwythi;
- Gwella mynediad at atyniadau ymwelwyr allweddol; a,
- Cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau mwy cynaliadwy yn asedau ac isadeiledd cludiant ein sir.

6.11.5 Mae'r canlyniadau amgylcheddol fel a ganlyn:

- Gostwng cyfraniad o gludiant ar ollyngiadau nwyon tŷ gwydr;
- Addasu i effeithiau newid hinsawdd;
- Gostwng cyfraniad cludiant at lygredd aer a gollyngiadau niweidiol eraill;
- Gwella effaith positif cludiant ar yr amgylchedd lleol;
- Gwella effaith cludiant ar ein treftadaeth; a,
- Gwella effaith cludiant ar fioamrywiaeth.

6.11.6 Mae'r cynllun hefyd yn amlygu pum maes blaenoriaeth allweddol yn seiliedig ar y ddogfen Cymru'n Un, sef:

- Gostwng gollyngiadau nwy tŷ gwydr ac effeithiau amgylcheddol eraill o gludiant;
- Integreiddio cludiant lleol;
- Gwella mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol;
- Gwella cysylltiadau rhyngwladol; a
- Gwella diogelwch.

6.11.7 Datblygwyd y canlyniadau hyn yn unol â rhaglen polisi ehangach y Cynulliad o integreiddio cludiant gad chynllunio gofodol, datblygu economaidd, addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd a thwristiaeth. Yn deillio o'r meysydd blaenoriaeth mae yna gyfres o gamau allweddol. Yn gryno, dyluniwyd Strategaeth Cludiant Cymru i fynd â rhaglen cludiant y Cynulliad yn ei blaen ac i ddatblygu system gludiant gynaliadwy ac integredig ar draws Cymru.

6.12 **Strategaeth Cerdded a Beicio Cymru**

- 6.12.1 Cyhoeddwyd y strategaeth hon yn 2003 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i nod yw hyrwyddo cerdded a beicio fel dulliau o deithio'n lleol sy'n gydnaws â'r amgylchedd. Mae hyn yn cyffwrdd yn amlwg â meysydd cynllunio eraill megis newid yn yr hinsawdd a chlodiant gan fod mwy o bwysau nag erioed i leihau dibyniaeth ar geir gan wella'r amgylchedd ac iechyd.
- 6.12.2 Yn ôl gweledigaeth y Cynulliad 'drwy sicrhau bod pobl yn cerdded ac yn beicio mwy, rydym yn gwella iechyd poblogaeth Cymru ac yn newid profiad plant o'u hamgylchedd, gan roi lle diogel iddynt chwarae, crwydro a chwrdd â'i gilydd. Ein plant yw dyfodol Cymru. Rhaid i ni newid eu hagwedd tuag at y modd y byddant yn symud o amgylch y lle, yn rhan annatod o'n hymdrechion i sicrhau cymdeithas sy'n fwy cynaliadwy.'
- 6.12.3 Mae'r strategaeth yn amcanu'n glir i gynyddu'r nifer sydd yn cerdded ac yn beicio trwy'r ddarpariaeth effeithlon o gyfleusterau pwrpasol.
- 6.12.4 Nodir hefyd y pwysigrwydd o fabwysiadu safonau parcio ar gyfer beiciau yn ogystal â moduron mewn cynlluniau datblygu. Rhoddir pwyslais ar ddarparu manau parcio ar eiddo masnachol ar gyfer beiciau staff ac ymwelwyr.
- 6.12.5 Dylai'r cysyniad o weithredu cynlluniau teithio fod yn rhan o bob datblygiad sylweddol. Dylid darparu cyfleusterau cawod ac ystafelloedd newid yn ogystal â man parcio beiciau lle bo'n addas.
- 6.12.6 Dylid gwarchod manau gwyrdd a thraciau hen reilffyrdd er mwyn creu cyfleoedd i gerddwyr, beicwyr a, lle bo'n addas, marchogion.
- 6.12.7 Yn gryno, nod y strategaeth yw atal y dirywiad yn nifer y cerddwyr a'r beicwyr a chynyddu eu pwysigrwydd mewn teithio yng Nghymru. Gellir annog hyn drwy ddarparu cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, a hefyd drwy ddarparu cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o gynigion ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr..

6.13 Cynllun Datblygu Gwledig dros Gymru 2007-2013

6.13.1 Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i ofynion a amlinellwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Cynllun yn bwriadu darparu fframwaith a fydd yn cryfhau diwydiannau ffermio a choedwigaeth yng Nghymru, cynnal a gwarchod yr amgylchedd a threftadaeth wledig a gwella cydstadleugarwch economaidd mewn ardaloedd gwledig.

6.13.2 Mae'r comisiwn Ewropeaidd wedi datblygu pedwar prif amcan sy'n sail i'r cynllun hwn:

- Cynyddu cystadleugarwch y sector amaethyddol.
- Gwella'r amgylchedd a chefn gwlad.
- Gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig a hyrwyddo amrywiaeth mewn gweithgareddau economaidd.
- Gwella'r defnydd o'r agwedd Leader sy'n darparu gyriant cymunedol trwy ddefnyddio partneriaethau lleol.

6.13.3 O ran cynllunio defnydd tir yng Nghonwy; nid yw'r cynllun wedi ei anelu tuag at y fframwaith gynllunio ar gyfer ardaloedd penodol o Gymru, ond yn hytrach yn anelu tuag at agwedd ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r cynllun yn cynnwys dadansoddiad SWOT yn rhestru cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau sy'n wynebu cefn gwlad Cymru ar hyn o bryd. Mae'r canlynol yn rhestru'r cyfleoedd a all o bosibl fod o fantais i gefn gwlad Cymru o ran cynllunio defnydd tir:

- Datblygu twristiaeth o werth cynaliadwy a marchnadoedd niche.
- Datblygu'r sector twristiaeth amgylcheddol.
- Datblygu rhwydwaith cludiant cynaliadwy a chynyddu defnydd o gludiant cymunedol.
- Mwyafu'r potensial twf y diwydiannau diwylliannol ac ieithyddol.
- Amrywio'r economi i mewn i'r gwasanaeth a diwydiannau sector eraill.
- Annog a chefnogi datblygu busnesau.
- Egsbloetio y cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni cynaliadwy ac ailgylchu.
- Datblygu sylfaen dwristiaeth trwy seibiannau byr a gwyliau gweithgareddau.

6.13.4 Gwelir y cyfleoedd hyn fel ffyrdd y gellir gwella'r economi wledig, sydd yn ei dro yn cael effaith ar wella sefydlogrwydd ac ansawdd bywyd yng nghefn gwlad Cymru.

6.14 **Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru 2002**

6.14.1 Mae'r strategaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn amlygu'r cyfarwyddyd ar gyfer datblygu rheolaeth wastraff cynaliadwy yng Nghymru er mwyn gostwng yr orddibyniaeth gyfredol ar dirlenwi. Daw'r ddogfen hon yn lle'r Cyd-Strategaeth Wastraff Cymru a Lloegr 2000 ac mae iddi gysylltiad cryf efo cynllun datblygu cynaliadwy trosfwaol Llywodraeth y Cynulliad a gyflwynwyd yn y ddogfen 'Dysgu Byw'n Wahanol'. Mae'n tynnu ar arbenigedd nifer o fudd-ddeiliaid cysylltiedig mewn cynhyrchu a rheoli gwastraff gan gynnwys cyrff diwydiannol y sector gwirfoddol, cyrff arbenigol, ac academyddion.

6.14.2 Mae'r strategaeth yn amlinellu nifer o dargedau sylfaenol ac eilaidd er mwyn helpu gostwng y 4 miliwn tonnell o wastraff a roddir yn y domen dirlenwi bob blwyddyn a gwella ar y 7% o wastraff bwrdeistrefol a ailgylchir. Mae'r targedau sylfaenol fel a ganlyn:

- Cyrff cyhoeddus i gyflawni gostyngiad mewn gwastraff a gynhyrchir sy'n cyfateb i o leiaf 10% o ganfyddiadau 1998 erbyn 2010.
- Awdurdodau lleol i gyflawni o leiaf 40% o ailgylchu/ compostio efo isafswm o 15% o gompostio (efo dim ond compost yn deillio o ffynonellau'r deunyddiau gwahanedig yn cyfrif) a 15% o ailgylchu erbyn 2009/10 a thu hwnt.
- Dylai bob safle amwynder dinesig fod a chyfleusterau i dderbyn a storio, cyn cael gwared yn iawn ar haen asbestos. Dylai bob safle hefyd gael cyfleusterau ar gyfer derbyn a storio cyn ailgylchu, olew, paent, sylweddau a bylbiau fflwrolau erbyn 2003/04.

6.14.3 Mae'r targedau eilaidd fel a ganlyn:

- Erbyn 2009/10 ni ddylai gwastraff sy'n deillio fesul aelwydydd fod tu hwnt na'r hyn nag oedd ar gyfer Cymru yn 1997/98.
- Dylai gwastraff sy'n deillio fesul unigolion fod yn llai na 300kg y flwyddyn erbyn 2020.
- Y busnesau i gyflawni gostyngiad mewn gwastraff a gynhyrchwyd sy'n cyfateb i o leiaf 10% o ffigyrau 1997/98 erbyn 2010.

- Erbyn 2010, i ostwng o wastraff diwydiannol a masnachol a anfonir i'r domen dirlenwi i lai nag 80% o'r hyn a gafodd ei dirlenwi yn 1998.
- Erbyn 2010, i ostwng faint o wastraff diwydiannol a masnachol biogdiraddadwy a anfonir i'r domen dirlenwi i lai nag 80% o'r hynny a dirlenwyd ym 1998.
- Erbyn 2010, i ostwng faint o wastraff peryglus a gynhyrchir gan o leiaf 20% o'r hynny a gynhyrchir yn 2000.

6.14.4 Mae'r ddogfen yn nodi fod y £68.5 miliwn i fod ar gael am y cyfnod 2001 - 2005 i gynorthwyo awdurdodau lleol efo cwrdd â thargedau a amlygwyd yn y strategaeth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth efo nifer o fudd-ddeiliad gan gynnwys Rhwydwaith Ailgylchu Sector Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er mwyn darganfod ffyrdd ymarferol i ragori ar y targed ailgylchu o 40% erbyn 2010.

6.14.5 Un o'r amcanion allweddol y strategaeth ydi codi ymwybyddiaeth o faterion gwastraff ymysg busnesau a phreswylwyr. Bydd Strategaeth Busnes ac Amgylchedd yn cael ei datblygu i gydlynu cefnogaeth amgylcheddol gyffredinol ar gyfer busnesau. Fodd bynnag, caiff busnesau eu hannog i gyfrannu at y strategaeth wastraff trwy fabwysiadau agwedd gyffredin i'r strategaeth wastraff. Caiff gwneuthurwyr eu hannog i:

- fynd i'r afael ac i eco-ddylunio i wneud cynnyrch bara'n hirach ac yn haws i'w hailgylchu;
- ystyried y potensial ar gyfer ail-ddefnyddio cymryd yn ôl a chynlluniau ailwampio yn enwedig ar gyfer pacio a phrydlesu;
- defnyddio deunyddiau eilaidd yn hytrach na rhai newydd;
- darparu gwybodaeth, sy'n gyson a'r Cod Hawliau Gwyrdd, er mwyn galluogi dewis i'r cwsmer;
- cymryd camau cynnar dros Gyfarwyddiadau'r Comisiwn Ewropeaidd sydd ar fin dod e.e. cerbydau diwedd oes, gwastraff trydanol ac offer electronig a biowastraff); a,
- buddsoddi mewn cynnyrch gwyrdd sy'n debygol o gynrychioli'r sector twf yn y dyfodol.

- 6.14.6 Caiff bob busnes ei annog i:
- amlygu deilliannau gwastraff; a,
 - chyrraedd y targedau lleihau gwastraff a gostwng tirlenwi (gan gynnwys gwastraff peryglus).
- 6.14.7 Caiff man werthwyr eu hannog i:
- gefnogi cynlluniau cymryd yn ôl;
 - cefnogi cynnyrch efo cynnwys ailgylchu uchel, o bosibl yn gwobrwyo defnyddwyr y cynnyrch hynny efo pwyntiau cynllun ffyddlondeb uwch;
 - cefnogi ecolabelu; a,
 - sicrhau bod gwastraff pacio a gwastraff eraill yn cael eu lleihau a'u hadfer gymaint ag sy'n bosibl.
- 6.14.8 Gall y cyhoedd gyfrannu at amcanion y strategaeth wastraff mewn nifer o ffyrdd:
- Prynu cynnyrch efo cyn lleied â phosibl i bacio:
 - mewn cynwysyddion;
 - y gellir eu hailddefnyddio;
 - cynnwys wedi ei ailgylchu uwch;
 - y gellir eu hailgylchu neu eu compostio'n hawdd; a,
 - sy'n cynhyrchu llai o wastraff a llai o wastraff niweidiol pan ceir gwared ohono.
 - Cynhyrchwyr gwastraff:
 - ailddefnyddio eitemau fel bagiau'r archfarchnadoedd;
 - rhoi dillad i siopau elusenol;
 - compostio cartref; a,
 - cymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu o ymyl palmant.
 - Preswylwyr:
 - derbyn y bydd angen mwy o gyfleusterau rheoli gwastraff lleol i gael manteision cymdeithasol ac economaidd posibl ac i gael gwared ar wastraff arwynebol yn y ffordd fwyaf cyfeillgar i'r amgylchedd; a,
 - helpu i gadw'r gymdogaeth yn glir rhag ysbwriel a thipio anghyfreithlon.
- 6.14.9 I gloi, mae'r strategaeth wastraff genedlaethol yn bryderus am y lefelau uchel o wastraff a gynhyrchir ac sy'n cael ei anfon i'r domen dirlenwi, a hynny tra bod lefelau ailgylchu yn aros yn gymharol isel. Mae nifer o dargedau sylfaenol ac

eilaidd wedi cael eu datblygu i sicrhau bod yr eitemau hyn yn cael eu trin trwy hyrwyddo newid ac ymwybyddiaeth yn y gwahanol sectorau o'r gymuned. Mae 'Yn gall gyda Gwastraff' yn dal yn berthnasol, oni bai fod polisïau, targedau a chamau gweithredu wedi'u diweddarau yn benodol.

6.15 **Tuag at Ddyfodol Diwastraff 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' 2010**

6.15.1 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yw'r ddogfen strategaeth wastraff newydd gyffredinol ar gyfer Cymru ac mae'n amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu ar y llwyddiant a gafwyd drwy 'Yn gall gyda Gwastraff'. Mae'n amlinellu fframwaith tymor hir ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050 a hefyd yn manylu ar ein polisïau, targedau ac egwyddorion lefel uchel. Mae'r rhain yn cynnwys;

- Diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd lle mae'n rhaid ymgymryd â rheoli gwastraff heb beryglu iechyd pobl a heb niweidio'r amgylchedd.
- Yr hierarchaeth wastraff sy'n seiliedig ar yr egwyddor o 'ostwng, aildefnyddio, ailgylchu'. Mae hyn yn golygu gostwng faint o wastraff a gynhyrchir yn gyffredinol, aildefnyddio'r hyn a ellir ac ailgylchu'r gwastraff sy'n weddill fel gellir ei ddefnyddio unwaith eto. Ar ôl hyn yr opsiynau llai ffafriol ydi adfer ynni ac yn olaf cael gwared ar wastraff a pheidio'i aildefnyddio o gwbl.
- Yr egwyddor agosrwydd o fewn y gofyniad i bob aelod-wladwriaeth sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau cael gwared ar wastraff a gosodiadau ar gyfer adfer gwastraff bwrdeistrefol cymysg a gasglwyd o aelwydydd preifat. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwastraff o'r fath oddi wrth gynhyrchwyr eraill, gan ystyried y technegau gorau sydd ar gael.

6.15.2 I gyflawni lefelau 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' erbyn 2050 bydd angen i ni ostwng faint o wastraff a gynhyrchwn ar draws bob sector gan oddeutu 1.5% bob blwyddyn rhwng rŵan tan 2050.

6.15.3 Erbyn 2025, byddwn wedi gwneud gostyngiad sylweddol mewn gwastraff (27%), a byddwn yn rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o'n hadnoddau gwerthfawr.

6.15.4 Fel isafswm, bydd effaith gwastraff yng Nghymru yn cael ei ostwng o fewn y terfynau amgylcheddol sydd wedi eu diffinio fel lefelau gwastraff 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', yn fras bydd 65% yn llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu i'w gymharu â faint a gynhyrchir ar hyn o bryd

6.15.5 I ostwng gollyngiadau nwyon tŷ gwydr Cymru a gwneud y mwyaf o'n hadnoddau gwerthfawr mae angen i ni gyfeirio gwastraff o'r domen dirlenwi. Y ffordd orau o drin y rhan fwyaf o wastraff a gyfeirir o'r domen dirlenwi ydi eu hailgylchu. Yn fwy na dim, bydd cyfeirio gwastraff bwyd i gyfleuster treulio anaerobig, a gwastraff papur, cerdyn a metelau o safleoedd tirlenwi i'w hailgylchu yn dod â'r manteision mwyaf. Ceir gwared ar dirlenwi pob gwastraff yn raddol gymaint â phosibl yn y cyfnod hyd at 2025.

6.15.6 Targedau a blaenoriaethau ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a lleihau tirlenwi;

Gwastraff masnachol a diwydiannol	2015/16	2019/20	2024/25
Gwastraff masnachol wedi'i ailgylchu	57%	67%	70%
Gwastraff diwydiannol wedi'i ailgylchu	63%	67%	70%

Gwastraff Adeiladu a Dymchwel	2015/16	2019/20
Bydd paratoi ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer deunyddiau eraill, gan gynnwys gweithrediadau ôl-lenwi gan ddefnyddio gwastraff yn lle deunyddiau eraill, gwastraff adeiladu a dymchwel heb fod yn beryglus ac eithrio deunyddiau sy'n digwydd yn naturiol a ddiffiniwyd yng nghategori 17 05 04 yn y rhestr gwastraff yn cael ei gynyddu i isafswm o 70% gan bwysau.	-	Wedi'i gynyddu i isafswm o 90% gan bwysau.

Gwastraff bwrdeistrefol a gesglir gan awdurdodau lleol	09/10	12/13	15/16	19/20	24/25
Isafswm lefelau paratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu/ compostio neu (AD) ar gyfer gwastraff bwrdeistrefol	40%	52%	58%	64%	70%
Isafswm cyfran paratoi ar gyfer ailddefnyddio/ ailgylchu/ compostio sy'n rhaid dod o wahanu ffynonellau.	80%	80%	80%	80%	80%

Lefel uchafswm tirlenwi gwastraff bwrdeistrefol	-	-	-	10%	5%
Lefel uchafswm ynni o wastraff bwrdeistrefol ar gyfer awdurdodau lleol unigol.	-	-	42%	36%	30%
Lefelau isafswm paratoi ar gyfer aildefnyddio (ac eithrio WEEE).	-	0.4%	0.6%	0.8%	1.0%

6.16 **Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru (Adroddiad Terfynol Drafft 2007)**

- 6.16.1 Amlygir Strategaeth Twristiaeth Arfordirol fel un o'r camau cenedlaethol allweddol o fewn Cynllun Gofodol Cymru. Pwrpas Strategaeth Twristiaeth Arfordirol a gynhyrchir gan WAG, ydi amlygu'n glir y ffordd ymlaen ar gyfer datblygu twristiaeth arfordirol gan adeiladu ar ei botensial economaidd a hynny wrth gydnabod y cyfraniad oddi wrth ei amgylchedd o ansawdd. Bydd y strategaeth yn darparu canllaw gwybodus ar gyfer dyraniad yn y dyfodol o nawdd i gefnogi twristiaeth arfordirol yn rhanbarthau Cymru trwy'r Cynllun Gofodol.
- 6.16.2 Mae twristiaeth arfordirol werth o gwmpas £850 miliwn - chwarter o'r gwariant twristiaeth yng Nghymru. Mae'r mwyafrif llethol o dwristiaeth arfordirol ar gyfer pwrpasau hamdden a gwyliau, er bod llefydd fel Llandudno hefyd yn denu twristiaeth busnes a chynadledda.
- 6.16.3 Mae'n amlwg fod tueddiadau gwyliau wedi newid dros y 15 mlynedd diwethaf neu fwy gyda gostyngiad yn y nifer o deithiau a nosweithiau a dreulir gan ymwelwyr o'r DU yn gyffredinol ar arfordir Cymru. Mae cyfran glan y môr marchnad wyliau'r DU yng Nghymru wedi syrthio o 61% yn 1991 i 41% yn 2006. Syrthiodd y nifer o wyliau hir a gymerwyd ar lan y môr yng Nghymru o dros 2.7 miliwn yn 1991 i 1.76 miliwn yn 2006. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn egwyliau byr wedi gwneud yn iawn am y gostyngiad hwn, gyda chynnydd o'r man isaf o lai na 1 miliwn yn 1993 i'r ffigwr uchaf o dros 2.2 miliwn yn 2006 (tua 2 filiwn o nosweithiau).
- 6.16.4 Mae twristiaeth arfordirol llwyddiannus yng Nghymru yn wynebu nifer o faterion heriol er mwyn caniatáu'r sector i ymateb i newidiadau mewn galw. Mae'r rhain yn cynnwys tymor cyflogaeth, nifer uchel o breswylwyr hŷn, isadeiledd twristiaeth gwael, angen ar gyfer gwella yn ansawdd llety hunan wasanaeth a gynigir, hygyrchedd rhai cyrchfannau (yn enwedig y rheini yng Ngorllewin Cymru) erydiad arfordirol a materion newid hinsawdd.

6.16.5 Felly, mae'r weledigaeth ar gyfer Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru wedi rhoi datblygu efo'r materion hyn mewn cof ac mae fel a ganlyn:

'Diwydiant twristiaeth arfordirol integredig trwy'r flwyddyn, yn seiliedig ar amgylchedd naturiol eithriadol a chynnyrch twristiaeth o ansawdd sy'n cwrdd â, ac yn rhagori ar ddisgwyliadau ymwelwyr, a hynny wrth ddod â manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau arfordirol.'

6.16.6 Mae nifer o amcanion strategol a deilliannau allweddol hefyd wedi eu nodi i gynorthwyo i symud ymlaen tuag at ddarparu'r weledigaeth. Mae'r canlyniadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Atal a gwyrddroi'r gostyngiad mewn teithiau twristaidd arfordirol a nosweithiau aros.
- Bod twristiaeth yn cefnogi mwy o swyddi llawn amser ar yr arfordir.
- Ymestyn y tymor twristiaeth arfordirol.
- Cynyddu apêl twristiaeth arfordirol Cymru at y grŵp dan 25 oed a grwpiau economaidd a chymdeithasol AB.
- Bod Cymru'n brif gyrchfan chwaraeon dŵr y DU i deuluoedd ac ymwelwyr aml weithgaredd.
- Bod yr arfordir yn cynnig sail llety twristaidd mwy amrywiol sy'n diwallu anghenion ymwelwyr.
- Bod cymunedau lleol yn cyfrannu at ddatblygu twristiaeth yn eu hardaloedd.
- Cynyddu'r nifer o ymwelwyr sy'n teithio i ac ar hyd arfordir Cymru drwy ddulliau cynaliadwy.
- Cynyddu'r nifer o drigolion Cymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau arfordirol awyr agored.
- Bod gan ddyfroedd arfordir Cymru'r safonau uchaf o ran ansawdd dŵr yn y DU.

6.16.7 Mae'r strategaeth wedyn yn rhannu nifer o themâu er mwyn cwrdd ag amcanion a'r nodau a amlygwyd.

6.16.8 **Mae trefi arfordirol a chyrchfannau** fel Bae Colwyn a Llandudno wedi cael eu hamlygu fel llefydd ble mae'r economi leol wedi dominyddu gan dwristiaeth. Er bod Llandudno wedi ei hamlygu fel cyrchfan arweiniol, mae yna lawer o rai eraill sy'n dioddef o ymddangosiad fel petai wedi mynd â'i ben iddo o ganlyniad i ddiffyg buddsoddiad. Mae'r argymhellion allweddol fel a ganlyn:

- Dylai trefi a chyrchfannau geisio cryfhau pa mor ddeniadol yr ydynt ar gyfer twristiaeth, trwy ddatblygu cyfleoedd priodol i ddarparu tir a chyfleusterau hamdden yn ymwneud â dŵr a gweithgareddau gwyllo natur sy'n cwrdd â'r galw newidiol y farchnad.
- Dylid cynnal rhaglenni adfywio cyrchfannau sy'n ceisio arallgyfeirio a chryfhau economi'r cyrchfannau tra'n ychwanegu gwerth at weithgarwch twristaidd. Bydd rhaglenni o'r fath yn cynnwys partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- Cymunedau lleol yn cyfrannu tuag at nodi anghenion ac atebion lleol ar gyfer adfywio cyrchfannau glan môr.
- Dylid annog cyrchfannau i baratoi a chynnal astudiaethau nodweddu fel sail i gynlluniau gwella amgylcheddol ar gyfer ardaloedd allweddol i gynyddu pa mor ddeniadol yr ydynt ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr.
- Rheoli traethau'r cyrchfannau, lle mae ansawdd dŵr yn cyrraedd y safonau perthnasol, er mwyn eu galluogi i gyrraedd safonau baner las presennol, a lle bod hynny'n bosibl, safonau'r dyfodol.
- Dylid annog newidiadau yn y stoc llety o fewn ac o gwmpas cyrchfannau i gwrdd â'r galw newidiol yn y farchnad dwristiaeth, gan gynnwys gwelliannau i'r stoc gyfredol, darpariaeth newydd a thrawsnewid eiddo gwag i ddefnyddiau eraill.
- Dylid amlygu cynlluniau cludiant lleol arloesol i ostwng tagfeydd tymhorol a'r defnydd o'r car o fewn cyrchfannau a threfi arfordirol eraill.
- Annog y sector llety i rwydweithio gyda darparwyr gweithgareddau arfordirol.
- Sefydlu mecanweithiau i gyfnewid arfer gorau rhwng trefi a chyrchfannau arfordirol.
- Dylai'r sector twristiaeth treftadaeth geisio gwella atyniadau presennol a gwneud cysylltiadau rhyngddynt, gan greu atyniadau newydd dim ond pan fod prawf o'r angen busnes.

6.16.9 **Mae'r arfordir Gwledig** yn cynnwys trefi a phentrefi gwledig ar yr arfordir sy'n cael eu cydnabod am ansawdd yr amgylchedd arfordirol, gan gynnwys eu bioamrywiaeth, y cyfleoedd ar gyfer hamdden ar y tir ac ar y dŵr, ac am eu tawelwch. Defnyddir Conwy fel enghraifft o leoliadau o'r fath gydag atyniadau nodedig gan gynnwys ei statws fel Safle Treftadaeth y Byd, y gwahanol weithgareddau a ddarperir ar flaen y dŵr, ac argaeledd amrywiaeth eang o lety gwyliau. Mae'r argymhellion allweddol fel a ganlyn:

- Dylid hyrwyddo a datblygu mentrau cludiant cyhoeddus arloesol i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymwelwyr i ymweld â'r arfordir heb ddefnyddio eu ceir.
- Annog datblygu llety twristiaeth newydd a phriodol i gefnogi'r cynigion ar hyd yr arfordir gwledig.

6.16.10 O ran gweithgareddau arfordirol, y mae yna amrywiaeth sylweddol yng nghyfaint cyfranogiad tueddiadau galw, a gwariant ar gyfer gweithgareddau o gwmpas yr arfordir yng Nghymru. Mae'r galw mwyaf am gerdded, (69% yn cymryd rhan tra'u bod ar wyliau). Lefelau cyfranogiad 'canolig' sydd mewn antur (8%), hwylio (5%), pysgota mor (6%) a gwyllo bywyd gwylt (5%). Rhai o'r gweithgareddau eraill yw golff (3%) a beicio (4%).

Mae'r argymhellion allweddol fel a ganlyn:

- Gwella cyflenwad ac ansawdd cyfleusterau ar gyfer hamdden tir a dŵr lle bod hynny'n briodol ac yn amodol ar allu amgylcheddol yr ardal.
- Gwneud y mwyaf o fanteision economaidd Llwybr Arfordir Cymru trwy gysylltu'r llwybr ac atyniadau lleol a chymunedau lleol (cysylltiadau a dolenni).
- Datblygu a hyrwyddo twristiaeth bywyd gwylt ar hyd arfordir Cymru ymhellach, yn amodol ar fod yna ddim effaith niweidiol ar fywyd gwylt neu gadwraeth natur.
- Ymestyn capasiti Marinas lle bo datblygiad o'r fath yn bodloni ystod gytunedig o feini prawf a amlinellir yn y strategaeth.
- Darparu rhwydwaith o angorfeydd ymweld o gwmpas yr arfordir a hyrwyddo'r cyfleoedd i hwylio lle bod datblygiad o'r fath yn briodol ac yn amodol ar gapasiti amgylcheddol y safle/ardal.

6.16.11 **Mae diwylliant arfordirol a rheoli'r arfordir** hefyd yn faterion allweddol o ran hyrwyddo twristiaeth arfordirol yng Nghymru. Mae'r argymhellion allweddol fel a ganlyn:

- Dylid hyrwyddo cynnyrch bwyd lleol, gan gynnwys y pysgod â physgod cregyn i ymwelwyr fel rhan o'r profiad twristaidd arfordirol a datblygu cynlluniau yn unol â Chynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd Llywodraeth Cymru.
- Gwneud y mwyaf o fanteision digwyddiadau arfordirol drwy ddatblygu a chyflwyno rhaglen ddigwyddiadau wedi'i chydlynu.
- Gwella integreiddiad a chyd-drefniant gweithgareddau rhwng y sefydliadau allweddol sy'n cyfrannu at hyrwyddo treftadaeth arfordirol.
- Cyflawni safonau uchaf mewn perthynas â chyfleusterau, gwybodaeth, llety, a mynediad i bobl anabl.
- Ymgorffori ystyriaethau twristiaeth i mewn i gamau rheoli risg llifogydd lle bod diogelu'r arfordir yn briodol.
- Sicrhau dealltwriaeth lawnach o effeithiau posibl newid hinsawdd ar dwristiaeth arfordirol a mabwysiadu'r mesurau fydd eu hangen.

6.16.12 Datblygwyd yr argymhellion allweddol hyn gyda gwaith y Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol Cymru mewn cof. Mae Conwy yn gorwedd o fewn tair o'r ardaloedd a amlygwyd, sef y Gogledd Orllewin, y Gogledd Ddwyrain a Chanolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd arfordirol parth Canolbarth Cymru yn gorwedd y tu allan i Gonwy ac felly yn amherthnasol. Yn ardal y Gogledd Orllewin, amlygwyd angen i amrywio economïau lleol ynghyd â gwelliannau i gynlluniau cludiant lleol i ostwng tagfeydd tymhorol. Yn Llandudno yn enwedig, mae yna botensial i wella cyfleusterau twristiaeth cynadledda a hefyd cydnabyddir Harbwr y Foryd fel cyfle ar gyfer angorfeydd pellach.

6.17 **Rhaglen Gwella Mynediad i Arfordir Cymru**

6.17.1 Mae Rhaglen Gwella Mynediad i Arfordir Cymru yn cael ei gynnal rhwng 2007 a 2013 ac mae'n ceisio gwella a hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd ar droed, ar geffylau ac ar feiciau i'r arfordir. Mae tri phrif bwrpas:

- Annog a galluogi'r cyhoedd i fwynhau arfordir Cymru.
- Annog a galluogi rhagor o bobl i fwynhau hamdden gorfforol ger yr arfordir.
- Gwneud mynediad i'r arfordir yn brif gynnyrch twristiaeth.

6.17.2 Mae'r rhaglen wedi'i rhannu yn ddwy ardal: Llwybr Arfordir Cymru ac Ardal Arfordir Cymru. Gobeithir y bydd Llwybr Arfordir Cymru ar agor yn 2012. Yng Nghonwy mae'n debygol y bydd wedi'i seilio ar Lwybr Gogledd Cymru lle bydd hynny'n bosibl. Mae Ardal Arfordir Cymru wedi'i ddiffinio fel y tir sy'n ymestyn dau gilometr i mewn i'r tir o'r arfordir. Mae'r Rhaglen yn ceisio cysylltu'r ardal hon â'r arfordir, aneddiadau, gwasanaethau, mannau o ddiddordeb, a Llwybr Arfordir Cymru a chreu teithiau cerdded neu reidio cylchol.

6.18 **Strategaeth yr Amgylchedd Cymru**

6.18.1 Yn 2006 lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth amgylcheddol Cymru. Mae hon yn strategaeth hir dymor a fydd yn mynd â Chymru drwodd i 2026. Pwrpas yr adroddiad ydi darparu "fframwaith o fewn y gellir cyflawni amgylchedd sydd yn lân, iach, yn amrywiol yn fiolegol, ac yn cael ei gwerthfawrogi gan bobl Cymru". Erbyn 2026, mae'r amcan yn bwriadu gweld "Amgylchedd Gymreig sy'n ffynnu ac yn cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol ac iechyd yr holl bobl yng Nghymru". Rhoddwyd pwyslais ar yr angen i reoli pwysau amgylcheddol yn well â delio â sialensiau newydd sydd wedi codi, fel newid hinsawdd.

6.18.2 Mae yna lawer o sialensiau a wynebir gan yr amgylchedd heddiw:

- newid hinsawdd;
- defnydd adnoddau anghynladwy;
- ecosystemau diraddedig;
- colli bioamrywiaeth;
- colli ansawdd a nodedigrwydd tirwedd a threftadaeth;
- amgylcheddau lleol o ansawdd gwael; a,
- peryglon amgylcheddol.

6.18.3 Mae'r Strategaeth hefyd yn amlinellu sawl blaenoriaeth er mwyn taclo'r sialensiau hyn:

- lleihau gollyngiadau nwy'r tŷ gwydr yng Nghymru ac addasu i newid hinsawdd;
- cadw a gwella bioamrywiaeth;
- monitor a rheoleiddio peryglon amgylcheddol;

- taclo arferion anghynladwy, e.e. cynhyrchu gwastraff a chael gwared arno; a,
- cadw a gwella tir a môr, yr amgylchedd adeiledig, adnoddau naturiol a threftadaeth a sicrhau eu bod yn cael eu datblygu a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy.

6.18.4 Er mwyn gallu taclo'r sialensiau uchod yn llwyddiannus, mae angen agwedd integredig. Mae hyn ar lefel ranbarthol ac ar lefel leol. Nodir fod gan Gynlluniau Datblygu Lleol "rôl allweddol... mewn gwneud y Strategaeth Amgylcheddol yn wirionedd ar lefel leol". Gellir cyflawni hyn drwy roi datblygu cynaliadwy ar waith ac integreiddio effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, ac economaidd ar bob lefel gwneud y penderfyniadau. Er mwyn sicrhau integreiddiad, bydd yna Werthusiad Cynladwyedd o Gynlluniau Datblygu Lleol.

6.18.5 Mae'r Strategaeth hefyd yn amlygu pedwar mater adnodd allweddol:

- defnyddio deunyddiau a gwastraff;
- dŵr;
- priddoedd; a,
- mwynau ac agregau.

6.18.6 Mae'r Strategaeth yn amlinellu bod gan y Cynllun Datblygu lleol rôl allweddol mewn sicrhau'r canlynol:

- dyrannu safleoedd ar gyfer delio gyda dŵr;
- bod graddio priddoedd yn cael ei ystyried pan fo dyraniadau tir yn cael eu cynnal, fel bod tir o ansawdd uwch yn cael ei gadw; a,
- bod cloddio mwynau ac agregau yn gynaliadwy.

6.18.7 Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol hefyd rôl i'w chwarae mewn gwneud yn sicr bod yr holl gymunedau efo lefel uwch o ansawdd amgylcheddol. Mewn perthynas penodol a'r amgylchedd adeiledig, mae angen defnyddio tir yn effeithiol, gan gynnwys dwysedd priodol datblygiadau, parchu nodedigrwydd lleol, a chymeriad hanesyddol, a darparu mynediad at fannau gwyrdd, mannau hamdden a chadw bioamrywiaeth.

- 6.18.8 Mae cynllunio defnydd o dir hefyd yn gyfrifol am wneud y mwyaf o fanteision economaidd cymdeithasol ac amgylcheddol datblygiadau a lleihau faint o ynni a wastraffir drwy lygru golau er enghraifft. Dylid hefyd ceisio lleihau'r peryglon oherwydd llygredd a pheryglon amgylcheddol eraill.
- 6.18.9 Mae'r system gynllunio yn un o sawl rhan allweddol mewn sicrhau bod yr amcanion a nodwyd yn y strategaeth yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn bennaf trwy gynllunio defnydd tir a sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn delio'n effeithiol efo'r materion a nodwyd uchod.
- 6.19 **Strategaeth Pobl Hŷn Cymru 2008-2013**
- 6.19.1 Dyma ail gam strategaeth deg mlynedd a fydd yn 'canolbwyntio ar bwysigrwydd ystyried pobl hŷn ym mhob maes polisi'. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar prif thema:
- Gwerthuso pobl hŷn – cynnal a datblygu cysylltiad.
 - Cymdeithas newidiol - statws economaidd a chyfraniad pobl hŷn.
 - Lles ac annibyniaeth.
 - Gwneud iddo ddigwydd - gweithredu.
- 6.19.2 Mae amcanion strategol o fewn y pedwar thema. Mae'r rheiny sydd fwyaf perthnasol i'r CDLI yn cynllunio synnwyr o gymuned fel bod pobl hŷn yn gallu canfod eu ffordd o gwmpas eu hamgylchedd lleol, cynyddu gweithgarwch economaidd yn y grŵp oedran dros 50 ac i gynyddu'r opsiynau tai ar gyfer y rheini dros 50.

7. Cynlluniau a strategaethau rhanbarthol

7.1 Canllaw Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru 2002

- 7.1.1 Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru yw'r ymgais gyntaf i sefydlu dogfen gynllunio sydd yn gyffredin i holl ranbarthau gogledd Cymru. Fe'i mabwysiadwyd ym mis Hydref 2002, ac mae'r canllaw'n llwyfan lle gall holl awdurdodau gogledd Cymru rannu gweledigaeth ynglŷn â'u holl faterion cynllunio cydberthnasol.
- 7.1.2 Yng ngweledigaeth gyffredinol Canllaw Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru dywedir mai'r 'nod sylfaenol yw datblygu asedau'r rhanbarth a gwasgaru twf

economaidd a'i fanteision i bob cwr o'r Rhanbarth o fewn cyd-destun datblygiad cynaliadwy'.

- 7.1.3 O ran yr amgylchedd mae'r strategaeth yn ymwneud â gwyro datblygu i ffwrdd o ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif. Lle bydd datblygiad yn digwydd yn yr ardaloedd hynny, dylai polisiau fod ar gael i orfodi gwarchodaeth o'r amgylchedd trwy gyfrwng cynlluniau tirweddu sensitif.
- 7.1.4 Dylid annog defnydd o dir a ddefnyddiwyd eisoes a dylid gwyro datblygiad i ffwrdd o'r ardaloedd mwyaf sensitif.
- 7.1.5 Mae'r amcanion economaidd yn seiliedig ar wella'r cysylltiadau ar draws y rhanbarth ac adeiladu ar y cysylltiadau ffyrdd sydd yn bodoli eisoes rhwng Iwerddon a Chymru ac ymlaen i Loegr. Dylid clustnodi Safleoedd Cyflogaeth Rhanbarthol fel safleoedd posibl ar gyfer buddsoddiad sylweddol yn yr ardal o'r tu allan. Ystyrir fod arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig yn ffactor bwysig i gael y budd mwyaf posibl yn yr economi lleol.
- 7.1.6 Nodwyd y sector twristiaeth fel sector allweddol yn Ardal y Cynllun ond hefyd fel un sydd ar ôl. Mae gofynion twristiaeth yn newid a thynnir sylw atynt ac at yr angen am i'r sector twristiaeth fedru addasu ar gyfer y tueddiadau newydd tuag at hoffter o weithgareddau unigol a dylai'r polisi cynllunio adlewyrchu hyn.
- 7.1.7 Adnabuwyd canolfannau economaidd allweddol ar draws y rhanbarth mewn modd cyffelyb i Gynllun Gofodol Cymru. Cydnabyddir pwysigrwydd mannau sefydledig megis Llandudno i leihau'r angen am deithio. Ystyrir canolfannau eraill yn allweddol ar gyfer datblygiadau manwerthu a datblygiadau masnachol eraill er mwyn hybu cynhyrchedd lleol a datblygiad cynaliadwy.
- 7.1.8 Mae angen i bolisiau tai sicrhau bod y stoc tai presennol yn cael ei defnyddio hyd at ei llawn botensial ac felly hefyd safleoedd diffaith a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Mae angen i'r dyraniadau tai yn y CDLI adlewyrchu amcanion eraill gan gynnwys yr angen am leoli twf pellach mewn ardaloedd lle mae cysylltiadau cludiant a chyfleusterau cymunedol. Gall tai ychwanegol mewn

ardaloedd gwledig helpu'r cymunedau gwledig i ffynnu ond rhaid gofalu na newidir cymeriad yr ardaloedd gwledig.

- 7.1.9 Mae angen cydlynu polisiâu ar ddefnydd o dir a chlodiant er mwyn lleihau'r defnydd a wneir o geir a hyrwyddo cludiant cynaliadwy. Mae'r canllaw, fodd bynnag, yn cydnabod pwysigrwydd y car mewn ardaloedd gwledig a dylai hynny gael ei adlewyrchu mewn polisi.
- 7.1.10 Mae angen dynodi tir ar gyfer cludiant, i roi cyfle i ddulliau amgen o deithio sydd eu hangen arnom i wella cynladwyedd. Mae angen darparu hefyd ar gyfer isadeiledd, gan fanteisio ar y coridor trafndiaeth cydnabyddedig ar draws gogledd Cymru yn ogystal â chydabod pwysigrwydd porthladdoedd Caergybi a Mostyn. Dylai cynlluniau datblygu hefyd gydnabod pwysigrwydd cyfathrebu digidol i atgyfnerthu atyniadau economaidd yr ardal ac i leihau'r angen i deithio.
- 7.1.11 Mae angen lleihau'r defnydd o ffynonellau ynni anadnewyddol, a chynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddol yr un pryd. Mae angen lleihau ein defnydd o ynni. Gellir cyflawni hynny drwy hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. Dylai'r cynllun datblygu gynnwys polisiâu sy'n hwyluso darpariaeth briodol o gynlluniau ynni adnewyddol. Rhaid lleihau gwastraff hefyd gan fod y safleoedd mewnlenni bron yn llawn. Dylid rhoi pwyslais ar leihau'r gwastraff a gynhyrchir a chynyddu'r defnydd o gyfleusterau ailgylchu gwastraff, fel bod llai o wastraff yn mynd i'r safleoedd mewnlenni.
- 7.1.12 Mae Atodiad 1 Canllaw Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru yn trin rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Gogledd Cymru lle comisiynwyd ymgynghorwyr yn 2000 gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru i ddarparu rhagolygon poblogaeth. Mae'r ffigyrau poblogaeth ar gyfer Conwy yn dangos cynnydd disgwylidig o 110,595 yn 1996 i 116,589 yn 2006 i 121,749 yn 2016. Mae'r ystadegau atodol ar gyfer ffigyrau aelwydydd a ragwelir yn dangos cynnydd disgwylidig o 47,652 yn 1996 i 51,487 yn 2006 i 55,567 yn 2016. O ran y rhagolygon poblogaeth, y cynnydd mewn canrannau o 1996 i 2006 ydi 5.42% a 4.43% o 2006 i 2016 tra bo'r cynnydd mewn canrannau ar gyfer yr aelwydydd o 1996 i 2006 yn 8.05% a 7.92% o 2006 i 2016. Rhagwelir cyfraddau twf uchel ar gyfer niferoedd poblogaeth ac aelwydydd, er bod y gyfradd twf yn

lleihau am y deg mlynedd hyd at 2016. Mae'r gyfradd twf uwch ar gyfer niferoedd aelwydydd yn debygol o gael effaith ar bwysau tai, er y dylid nodi y comisiynwyd yr wybodaeth yma yn 2000 ac y dylid cadw mewn cof gywirdeb yr wybodaeth yma. Bydd y Cyngor yn llunio Papur Cefndir yn ymwneud â Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd a fydd yn dod efo'r CDLI yn dilyn cyfarwyddyd rhagamcanion poblogaeth 2008 a gwaith Grŵp Ymchwil Gogledd Cymru.

7.1.13 Yn gryno, mae'r canllaw'n amlygu'r prif faterion a ganlyn:

- gwella cysylltiadau rhwng rhanbarthau drwy ddarparu a gwella rhodfeydd cludiant a thelathrebu allweddol;
- diogelu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;
- annog buddsoddiad economaidd a chyflogaeth ranbarthol drwy ddynodi safleoedd addas;
- cryfhau rôl cymunedau trefol a gwledig drwy adnewyddu cymunedau hŷn, darparu tai ym mhob cymuned ac arallgyfeirio'r economi yn nhrefi marchnad, pentrefi allweddol a chyrchfannau gwyliau'r arfordir; a,
- hybu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddol gan leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd mewnlenni.

7.2 **Strategaeth Datblygu Gogledd Cymru**

7.2.1 Yn y strategaeth hon a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004 ystyrir pa themâu sydd yn cyfrannu tuag at ranbarth lle ystyrir fod twf sefydledig a chynaliadwy yn allwedd i ddyfodol llwyddiannus. Mae llawer o'r egwyddorion yn gyffelyb eu natur i'r rhai sydd yn gynwysedig yn y Strategaeth Adfywio (gweler paragraff 8.3). Gweledigaeth y strategaeth ar gyfer Gogledd Cymru yw:

- rhanbarth arloesol sy'n flaengar ym maes technoleg;
- rhanbarth â chymunedau cynhwysol sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd yn yr ardaloedd trefol yn ogystal â'r ardaloedd gwledig;
- rhanbarth â gweithlu hyblyg gyda'r sgiliau priodol;
- rhanbarth lle bydd busnesau ac unigolion yn cyfalafu o'r amgylchedd unigryw gan ddarparu cystadleuaeth â mantais;
- rhanbarth lle mae hanes, iaith, diwylliant a hunaniaeth gref yn atgyfnerthu ansawdd bywyd unigryw; a,

- rhanbarth lle bydd yr holl randdeiliaid ac asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ar raglen gyffredin i ddarparu blaenoriaethau a rennir gan bawb.

7.2.2 Rhoddir y pwyslais pennaf ar dwf busnesau newydd a'r syniad o entrepreneuriaeth, a dylid adlewyrchu hynny trwy lunio polisiau sydd yn cefnogi busnesau bach yn y rhanbarth.

7.2.3 Ailadroddir pwysigrwydd isadeiledd da trwy gyfrwng gwelliannau i'r cysylltiadau cludiant, a gwneud y gorau o botensial y cysylltiadau ar draws y rhanbarth o lwerddon i Loegr ac Ewrop. Mae'r syniadau hyn ar gael yn y Persbectif Datblygiad Gofodol Ewropeaidd ac yng Nghynllun Gofodol Cymru, lle mae cyfle i Gymru ddefnyddio ei gallu cystadleuol yn fwy effeithlon.

7.2.4 Mae'r ddogfen 'Prosbectws ar gyfer Ffyniant' - Fframwaith Datblygu Economaidd ac Adfywio Conwy 2000 - 2010 - wedi ei hasesu mewn perthynas â'r Strategaeth Adfywio a Strategaeth Datblygu Gogledd Cymru, ac roedd y materion a'r amcanion yn gyffelyb eu natur.

7.3 **Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru 2010 - 2015**

7.3.1 Mae'r strategaeth yn cynnwys adolygiad o'r strategaeth flaenorol, 'Cynllunio Twristiaeth Yfory Heddiw', a gynhyrwyd yn 2003. Paratowyd y strategaeth ar ran Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru er mwyn cyfrannu at ddiwydiant twristaidd hyfyw yn y rhanbarth. Yn y strategaeth sefydlir tair prif flaenoriaeth strategol ar gyfer y sector twristiaeth yng ngogledd Cymru. Dyma'r tair:

- cryfhau'r ymdeimlad o'n bodolaeth unigryw;
- codi safon cyfleusterau twristiaeth Gogledd Cymru; a,
- lleihau'r ymdeimlad o ddibyniaeth ar un tymor gwyliau.

7.3.2 Gweledigaeth y strategaeth yw creu diwydiant twristiaeth ddichonadwy a ffyniannus sy'n denu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn ac sy'n:

- cynnig profiad sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliaidau ymwelwyr o ran ansawdd;
- dathlu rhagoriaeth amgylchedd rhagorol Gogledd Cymru;
- ymfalchïo yn niwylliant a threftadaeth unigryw Gogledd Cymru a'i phobl;
- un o'r prif gyfranwyr i'r economi a'r gymuned leol; a,

- gwerthfawrogi ac yn buddsoddi yn y bobl sy'n darparu'r strategaeth.

7.3.3 Cydnabyddir bod Llandudno, Bae Colwyn a chyrchfannau cyfagos yn gyrchfannau glan môr allweddol lle mae rhaid cryfhau'r datblygiad ar gyfer twristiaeth gan ddarparu ystod o wahanol fathau o lety gwyliau tymor byr a hir dymor.

7.3.4 Mae angen datblygu adnoddau ychwanegol ar gyfer hwylio a chwaraeon dŵr eraill tawel, ynghyd â darpariaeth ychwanegol ar gyfer digwyddiadau unigol gan ddarparu ar gyfer y galw cynyddol am arosiadau byr a'r angen am leihau'r ymdeimlad o ddibynnu ar un tymor gwyliau.

7.3.5 Mae Abergele, Towyn a Bae Cinmel a chyrchfannau cyfagos yr ochr draw i'r ffin, yn cynnwys y Rhyl, hefyd yn gyrchfannau allweddol. Mae angen ailddatblygu'r adnoddau ar lan y môr er mwyn denu nifer ddigonol o ymwelwyr.

7.3.6 Pwysleisir eto'r angen am ystod amrywiol o adnoddau gyda sylw arbennig i chwaraeon dŵr, a hefyd yr angen am hybu gwelliannau i safleoedd carafannau statig a pharciau gwyliau.

7.3.7 Yn ardal Gororau Gogledd Cymru dylid adeiladu ar werth y trefi marchnad a'r busnesau bach fel mannau a all fod yn gyfrwng i ddenu twristiaeth a chynnwys y defnydd o dwristiaeth sydd yn seiliedig ar fusnes.

7.3.8 Yn gryno, yng nghyd-destun Ardal y Cynllun, rhoddir pwyslais ar;

- gryfhau rôl y cyrchfannau arfordirol;
- hybu'r ddarpariaeth o gyfleusterau amrywiol, yn arbennig y galw am wyliau byrrach drwy gydol y flwyddyn; a,
- bod gan drefi marchnad gwledig gyfle i amrywio gan fanteisio ar dwristiaeth busnes.

7.4 Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru 2004 - 2013

7.4.1 Cytunwyd ar Gynllun Gwastraff Rhanbarthol cyntaf Gogledd Cymru gan y Grŵp Aelodau Rhanbarthol (gydag aelodaeth o'r saith Awdurdod Unedol a Pharc Cenedlaethol Eryri) ac fe'i gweithredwyd gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol yn y

rhanbarth ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004. Mae Cyngor Nodyn Technegol 21 yn gofyn am i'r cynllun gael ei adolygu bob tair blynedd, ac felly [cadarnhawyd yr adolygiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2009.

7.4.2 Gweledigaeth yr adolygiad cyntaf oedd darparu fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac adfer adnoddau yng Ngogledd Cymru efo'r amcanion canlynol:

- Amcan A: lleihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac iechyd dynol.
- Amcan B: lleihau effeithiau negyddol cymdeithasol ac economaidd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd.
- Amcan C: cwrdd ag anghenion cymunedau a busnesau.
- Amcan D: cadw at y gofynion deddfwriaethol, targedau, egwyddorion a pholisïau a bennir gan y fframwaith bolisi Ewropeaidd a Chenedlaethol.

7.4.3 Mae dwy brif elfen i'r cynllun: strategaeth dechnoleg a strategaeth ofodol. Datblygwyd y strategaeth dechnoleg trwy edrych ar ystod eang o opsiynau o dechnolegau rheoli gwastraff gwahanol. Roedd yr opsiynau hyn wedyn yn destun gwahanol asesiadau, gan gynnwys Asesiadau Amgylcheddol Strategol, Gwerthusiadau Cynaliadwyedd, Asesiadau Effaith Iechyd ac Asesiadau Cylch Bywyd. Yna amlygwyd saith opsiwn a ffafriwyd, sy'n llunio'r strategaeth dechnoleg.

7.4.4 Mae'r strategaeth ofodol wedi rhagamcan bod yr arwynebedd tir sydd ei angen ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd/ cyfleusterau rheoli adnoddau (ac eithrio tirlenwi) yng Nghonwy o gwmpas 14.8 i 21.75 hectar. Credir bod safleoedd cyflogaeth dosbarth B2 cyfredol yn addas, gan fod llawer o'u hadeiladau rheoli gwastraff modern/ rheoli adnoddau a'u goblygiadau gweithredol yn debyg i lawer o brosesau diwydiannol modern eraill.

7.4.5 Mae'r strategaeth ofodol hefyd yn amlygu mapiau Ardaloedd Chwilio, sydd ar gyfer darganfod safleoedd newydd ar gyfer cyfleusterau mewn adeiladau ac awyr agored. Cwblhawyd hyn trwy ddefnyddio proses Gwerthusiad Cynaliadwyedd i gynhyrchu mapiau. Amlygir safleoedd chilio cyntaf trwodd i'r bedwaredd yn ogystal â safleoedd eithriedig. Mae hyn yn cynnwys data strategol ar lefel eang.

7.4.6 Cymeradwywyd y cynllun gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar yr amod y dylid ei ystyried wrth baratoi'r CDLI, ond ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i benderfynu ar leoliad cyfleusterau rheoli gwastraff yn y dyfodol, neu fel arf i arwain penderfyniadau rheoli datblygu.

7.4.7 Bydd Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn cael ei ddisodli gan Gynllun y Sector Gwastraff ar gyfer Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Mawrth 2011 ac yn trafod rheoli holl wastraff Cymru, gan fanylu ar ganlyniadau, polisïau a champau darparu ar gyfer y sector hwn.

7.5 **Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru (Agregau) 2008**

7.5.1 Bydd y DTRh yn ceisio:

- Mwyafu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi eu hailgylchu a gwastraff mwynau.
- Diogelu mwynau sy'n seiliedig ar y tir y gellid bod eu hangen yn y tymor hir.
- Cydnabod lle gellir cyflawni datblygu cynaliadwy, gan ymestyn y chwareli agregau presennol yn debygol o fod yn addas.
- Lle bo angen am feysydd newydd o gyflenwadau agregau, dylai'r rhain ddod yn lleoliadau o gyfyngiadau amgylcheddol isel a chadw goblygiadau cludiant mewn cof.
- Cynnal cyflenwadau agregau morol yn gyson â gofynion ymarfer amgylcheddol da.

Prif bwrpas y datganiad yw gosod strategaeth ar gyfer darparu agregau yn rhanbarth Gogledd Cymru hyd at 2021.

Mae materion eraill a allai fod yn bwysig o ran a oes angen i CDLI wneud dyraniadau adnoddau yn cynnwys:

- Gallu technegol un math o ddeunydd i gael ei ddefnyddio yn lle un arall.
- Cost gymharol defnyddio un math o ddeunydd am y llall.
- Yr effeithiau amgylcheddol cymharol wrth newid patrymau cyflenwi

- A oes modd cynnal capasiti cynhyrchu digonol er mwyn cyrraedd y cyflenwad

7.5.2 **Adnoddau, Cronfeydd a Chapasiti Amgylcheddol**

Mae angen diogelu adnoddau er mwyn eu hamddiffyn rhag datblygiadau niweidiol, yn arbennig yn achos tywod/ graean, calchfaen a brigiad creigiau igneaidd dethol. Mae hefyd angen ar gyfer triniaeth arbennig o adnoddau calchfaen sy'n addas ar gyfer pwrpasau diwydiannol/ heb fod yn agregau.

7.5.3 **Galw yn y Dyfodol**

Mae'r galw yn debygol o gynyddu'n gymharol araf (oddeutu 1-2%) ac mae'n annhebygol o fod yn uwch na'r lefel a ragwelir gan TANM1 sef 27Mt. Mae'n debygol yr effeithia ffactorau yng ngogledd orllewin Lloegr e.e. lefelau ailgylchu yno, agregau morol ynghyd â'r galw sylfaenol, ar y galw am agregau crai. Mae'r gyfradd y mae gwastraff llechi yn cael ei ddefnyddio yn lle deunydd crai yn y rhanbarth yn ystyriaeth sylweddol.

7.5.4 **Cludiant**

Mae'r rhanbarth yn anfon mwy o ddeunydd i ffwrdd ar y môr nag unrhyw ranbarth arall; defnyddir y môr ar gyfer cludo gwastraff llechi a defnyddir y rheilffordd i gludo agregau. Ar sail yr egwyddorion sylfaenol a maint a natur y marchnadoedd a wasanaethir ar hyn o bryd, ymddengys yn debygol y byddai cynnydd yn y defnydd o'r rheilffordd a'r môr yn arwain at fedru symud mwy o agregau o'r rhanbarth (ac felly cynhyrchu mwy yno).

7.5.5 **Dosraniad**

Rhagwelir byddai'r angen agregau sylfaenol cronus rhwng 111-123 Mt dros y cyfnod 2007-2021. Mae hyn yn cymharu gyda chronfa wrth gefn a ganiateir o 260 Mt a gofnodwyd yn 2005 o fewn safleoedd gweithredol/ anweithredol (heb fod yn rhai segur). Fodd bynnag, nid yw cronfeydd wrth gefn a'r galw bob amser yn cyfateb.

Mae dosraniad yn cynnwys yr angen i wneud darpariaethau i gyflenwi creigiau am 15 mlynedd a thywod/ graean am 12 Mlynedd (gan gynnwys cyfnod adolygu 5 mlynedd ar gyfer yr RTS). Yn y rhan fwyaf o MPAs, mae'r lefelau o gronfeydd

creigiau a ganiateir yn ddigonol yn ddamcaniaethol i gynnal y lefelau cynhyrchiant cyfredol am 20 mlynedd.

7.6 **Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru (Medi 2009)**

7.6.1 Mae'r cynllun hwn yn strategaeth ar gyfer gwelliannau i'r system gludiant yng Ngogledd Cymru dros 25 mlynedd nesaf. Cafodd ei gynhyrchu gan Taith, sy'n bartneriaeth o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Fe'i sefydlwyd yng nghyd-destun nid yn unig bolisiau cenedlaethol one hefyd ddyheadau economaidd a chymdeithasol a chynlluniau datblygu chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru.

7.6.2 Y weledigaeth ar gyfer y cynllun ydi "y bydd Taith yn darparu rhwydweithiau cludiant diogel, cynaliadwy ac effeithiol i gefnogi gweithgareddau economaidd a chymdeithasol cymunedau a busnesau amrywiol Gogledd Cymru gan gadw ei rôl Ewropeaidd strategol mewn cof". Mae'r cynllun yn amlygu naw blaenoriaeth ranbarthol, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Cludiant Cymru:

- **Bodloni anghenion cludiant amrywiol Gogledd Cymru yn effeithlon** Darparu rhwydwaith cludiant ar gyfer Gogledd Cymru sy'n cydnabod amrywiaeth daearyddol a chymdeithasol y Rhanbarth, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i alluogi i bobl a nwyddau symud yn effeithlon.
- **Proffil a pherfformiad cludiant teithwyr** Codi proffil a pherfformiad gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn rhanbarth Taith o fewn system integredig gan gynnwys trenau, gwasanaethau bws a choets rhyng-trefol cyflym o ansawdd uchel, gwell rhwydweithiau bws lleol a chymysgedd priodol o wasanaethau sy'n cynnwys cerbydau llai ar gyfer ardaloedd gwledig.
- **Lleihau tagfeydd a hyd siwrneiau** Datrys materion sy'n gysylltiedig â thagfeydd a chyrchu priffyrdd.
- **Cefnogi datblygiad** Cefnogi datblygiad trefi a chanolfannau allweddol eraill i wella eu dichonoldeb economaidd ac i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a gwelliant amgylcheddol.
- **Rhwydweithiau cludiant diogel, effeithlon a chynaliadwy** Cynnal rhwydweithiau cludiant diogel, effeithlon a mwy cynaliadwy.

- **Gwella gwasanaethau trên Gogledd Cymru** Ceisio gwella holl wasanaethau a chyfleusterau teithwyr rheilffyrdd Gogledd Cymru.
- **Cludo nwyddau mewn ffordd ecogyfeillgar ac effeithlon** Gweithredu gwelliannau i ffyrdd, rheilffyrdd a therfynellau yn unol ag asiantaethau a chwmnïau cenedlaethol a rhanbarthol.
- **Cynllunio a rheoli traffig doeth** Sefydlu rhwydwaith integredig monitro, rheoli a gwybodaeth am draffig Gogledd Cymru a cheisio hyrwyddo ymddygiad teithio mwy cynaliadwy trwy gynllunio teithiau a gwell addysg mewn dewisiadau cludiant effeithlon a thechnegau gyrru.
- **Cludiant cynaliadwy** Cynyddu lefelau presennol seiclo a cherdded trigolion ac ymwelwyr

7.6.3 Amlygwyd nifer o ymyriadau yn y drafft ymgynghorol i gyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion uchod. Amlygwyd tri opsiwn strategol hefyd: yr opsiwn a ffafirir, yr opsiwn amgen gorau a'r opsiwn gwneud cyn lleied. Mae'r opsiynau strategol yn cynnwys strategaethau a rhaglenni rhanbarthol o gynlluniau a fydd yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio pecyn gwaith WeITAG a ddatblygwyd ar gyfer WAG, ac yn erbyn Asesiad Amgylcheddol Strategol.

7.7 **Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru – Strategaeth Cludiant Cyhoeddus**

7.7.1 Mae Strategaeth Gludiant Gyhoeddus Taith bellach wedi cael ei huno â Chynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae cludiant cyhoeddus yn ymdrin ag ystod eang o foddau, gan achosi i wahanol broblemau ac atebion godi. Fel arfer mae angen i bartneriaethau o wahanol gyfranogion cyhoeddus a phreifat weithredu atebion, ac mae rhai partneriaethau'n fwy gweithgar nac eraill. Mae daearyddiaeth Gogledd Cymru hefyd yn ychwanegu at amrywiaeth y materion gan fod angen ymdrin ag ardaloedd gwledig a threfol;

7.7.2 Amlygir y prif faterion isod:

- Hygyrchedd/ Cysylltiadau – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Mynediad – nid yw pob cludiant ac isadeiledd yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Anabledd a Gwahaniaethu.
- Dim safleoedd parcio a theithio penodol yn y rhanbarth.
- Ychydig o wybodaeth am opsiynau cludiant cyhoeddus sydd gan y cyhoedd.

- Darpariaeth anghyson o wasanaeth.
- Diogelwch personol – dirnad nad yw'n ddiogel.

7.7.3 Amlinellir yr Egwyddorion Arweiniol tu ôl i'r prif faterion isod;

- Mynediad – Dylai mynediad fod yn deg ar gyfer pob aelod o'r gymuned waeth beth fo'r dull teithio, yn seiliedig ar anghenion bob grŵp cleient.
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995) – Angen cydymffurfio ag ysbryd y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- Cysylltiadau - Dylid cynnig yr ystod fwyaf o gyfleoedd teithio i'r holl ddinasyddion.
- Integreiddio – Mae atebion cludiant effeithlon yn mynnu integreiddio gwasanaethau'n esmwyth gyda rhwydweithiau sefydlog a chyfleusterau deniadol mewn mannau cyfnewid.
- Ansawdd Gwasanaeth – Dylid gallu rhagweld amseroedd teithiau teithwyr a'u bod yn ddibynnol, tra dylai gwasanaeth cyffredinol y daith fod yn dda.
- Gwybodaeth - Dylai gwybodaeth gywir ar ddulliau teithio fod ar gael yn hawdd helpu gwneud penderfyniadau am deithio.
- Taliadau hawdd ac amlwg – Dylai cost teithiau fod yn hawdd i'w deall, yn deg ac yn hawdd i'w talu.
- Cynladwyedd - Dylai atebion cludiant fod yn gynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol ddiogel.
- Teithio diogel – Dylai atebion cludiant fod yn saff a diogel (gan ffitio i mewn efo egwyddorion y grwpiau teithiau diogelach)

7.7.4 Cyflwynir atebion confensiynol ac arloesol yng Nghynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru, gan gynnwys y canlynol;

- Cludiant mewn ymateb i alw – Cynnal y gwasanaeth cyfredol ac ymestyn.
- Gwasanaethau Bws/Coets sy'n cyfateb â thrên ar gyfer y rheiny heb fynediad at drên.
- Tocynnau - smart ac amlfodd gan adeiladu ar ddarpariaeth docynnau gyfredol.
- Darparu gwybodaeth.
- Gwneud cyfnewid yn fwy deniadol.
- TCC i wella diogelwch personol.

- Gwella mynediad ymarferol i gludiant cyhoeddus.
- Contractau o ansawdd a phartneriaethau rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr cludiant.

7.8 Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru – Strategaeth Cludo Nwyddau

7.8.1 Mae gan Gogledd Cymru ran allweddol mewn darparu Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru (WFS) ond mae ganddi hefyd ei materion cludo nwyddau penodol ei hun. Tra bo gweithredwyr cludo nwyddau yn gweithio mewn amgylchedd heb ei rheoli mae symud nwyddau yn enwedig ar Ffyrdd Gogledd Cymru yn creu llawer o faterion ac opsiynau ar gyfer Taith. Mae llwybrau allweddol Ewropeaidd hefyd yn rhedeg trwy'r rhanbarth sy'n dod yn fwy a mwy pwysig i weithredwyr cludo nwyddau ac yr eir i'r afael â nhw yn y strategaeth cydrannau cysylltiadau rhyngwladol.

7.8.2 Amlinellir y materion allweddol isod;

- Strwythur y diwydiant – Gan gynnwys rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif.
- Cynllunio Rhag Argyfwng – Mae angen trefnu strwythurau.
- Materion gwledig – gan gynnwys hybiau, cerbydau anaddas a llwybro.
- Diffyg cyfleusterau gyrwyr ar hyd llwybrau allweddol.
- Dim Partneriaethau Ansawdd Cludo Nwyddau.
- Traffig isel o ran cludo nwyddau ar drenau (dim ond 10% o draffig cludo nwyddau arferol i'w gymharu â de Cymru)
- Problemau lled rheilffyrdd ar draws prif linell Gogledd Cymru.
- Mynediad at borthladd allweddol Caergybi yn anaddas.
- Cost isel allforio arfordirol.
- Nid yw cludo nwyddau trwy'r awyr ar gael yn gyhoeddus yng Ngogledd Cymru (Mae Airbus gyda'u maes awyr eu hunain)

7.8.3 Yr Egwyddorion Arweiniol:

- Partneriaethau Cyfranogion - Cynnwys yr holl gyfranogion mewn datblygu a gweithredu cynigion cludo nwyddau penodol yn Rhanbarth Gogledd Cymru.

- Uchafu Effeithlonrwydd y Rhwydwaith Cludo Nwyddau – gan ystyried cyfanswm capasiti y system a'r polisi defnydd tir, bydd ateb integredig ac aml-fodd yn darparu rhwydwaith cludo nwyddau mwy effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru.
- Codi proffil dulliau eraill - Hyrwyddo a chreu darpariaeth o atebion sydd o bosibl ddim yn hollol seiliedig ar y ffyrdd.
- Monitro a dealltwriaeth - mae gwella monitro yn cynnwys tueddiadau'r holl gludiannau nwyddau i mewn ac ar draws Gogledd Cymru.
- Uchafu Manteision Economaidd Cludo Nwyddau – Cydnabod y potensial ar gyfer manteision cymunedol pellach o fewn rhwydwaith sy'n darparu ar gyfer galw strategol a lleol.
- Lleihau effaith amgylcheddol cludo nwyddau - Codi ymwybyddiaeth o'r difrod a achosir i'r amgylchedd o ganlyniad i symudiadau cludo nwyddau aneffeithiol gan ddefnyddio technoleg newydd a dulliau amgen.
- Gwydnwch – Sicrhau cyflenwad digonol o nwyddau i'r holl gymunedau yng Ngogledd Cymru.

7.8.4 Mae cynllun datblygu wedi cael ei ddatblygu yn seiliedig ar “Gamau tuag at Ddarparu” Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru, ond yn seiliedig ar gyd-destun Gogledd Cymru sy'n ymwneud â Materion Strategol, Cludo Nwyddau ar y Ffordd, Cludo Nwyddau ar y Rheilffordd, Porthladdoedd ac Allforio, Cludo Nwyddau yn yr Awyr ac yn y Dyfodol. Mae camau ychwanegol wedi cael eu datblygu hefyd gan Taith sy'n ymdrin â Chynllunio Rhag Argyfwng, Materion Gwledig ac Ystyriaethau Cynllunio. Mae canolfannau cyfuno, parcio lorïau a llwybrau lorïau i gyd yn brosiectau posibl i'w hystyried. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddarparu trwy weithio mewn partneriaeth a ffurfio Fforwm Cludo Nwyddau Taith.

7.8.5 Yn gryno, bydd angen i'r CDLI ystyried Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru, gan ystyried yn fanwl y strategaeth gludo nwyddau ynddo, gan gefnogi symud o ran Cludo Nwyddau a diogelu cyfleusterau yng Nghonwy ar gyfer y diben hwn.

7.9 **Fersiwn Drafft o Gynllun Rheilffordd Rhanbarthol Taith**

7.9.1 Mae'r cynllun hwn, a gafodd ei lunio gan 6 sir gogledd Cymru yn estyniad o'r gwaith sydd yn y Cynllun Cludiant Cyhoeddus ac mae'n nodi gwelliannau posibl i wasanaethau rheilffordd dros y 5 mlynedd nesaf.

7.9.2 Mae'r cynllun yn nodi'r lefel o wasanaeth rheilffordd sydd ei angen yng ngogledd Cymru. Dangosir bod angen gwella gwasanaethau i Lundain, Caerdydd, Manceinion, Crewe, Birmingham, Caer, Lerpwl, Rheilffordd y Gororau a Dyffryn Conwy. Bydd cynyddu niferoedd y trenau ac estyn teithio am ddim yn fodd i wella'r gwasanaeth sy'n nod pwysig yn y CDLI i geisio annog datblygiad mewn ardaloedd gyda gwasanaethau cyhoeddus da. Mae'r cynllun hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd o gludo mwy o nwyddau ar y rheilffordd yng ngogledd Cymru, gan gynnwys gwella Rheilffordd Dyffryn Conwy.

7.9.3 Mae integreiddio gyda gwasanaethau bysiau, hefyd wedi ei nodi, gyda thocyn aml ddull teithio, sawl gweithredwr rhanbarthol yn cynnig cludiant ar draws y rhanbarth i gyd. Dylid nodi'r cyfnewidfeydd rheilffordd/bws pwysig, i ddarparu cyfleusterau newid o'r naill ddull o gludiant i'r llall ac amserlenni. Bydd hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion cynaladwyedd.

7.9.4 Mae'r cynllun drafft yn benodol yn nodi'r angen i gael darpariaeth cludiant sydd wedi ei gydlynu'n well ac sy'n fwy integredig. Bydd hyn o gymorth i wella mynediad i'r rhanbarth, a gwella datblygiad economaidd cynaliadwy'r ardal.

7.10 **Cynlluniwyd ar gyfer Gogledd Cymru – Gweledigaeth ar gyfer y Gymuned Iechyd a Chynllun ar gyfer Gwasanaethau'r Prif Ysbytai, Dogfen Ymgynghorol, Ebrill 2006**

7.10.1 Canlyniad cam cyntaf adolygiad mawr o wasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru ydi'r ddogfen ymgynghori hon, ac mae wedi ei llunio gan y chwe Bwrdd Iechyd Lleol yng Ngogledd Cymru a'r tair Ymddiriedolaeth GIG cyfatebol. Mae Cynlluniwyd am Oes yn strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd hyd at 2015 ac fe'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mai 2005.

- 7.10.2 Ym mis Mai 2005, daeth cais oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i bob un o'r tri rhanbarth GIG yng Nghymru adolygu sut y maent yn darparu gofal llym ar hyn o bryd, a sut y gellir gwella'r gwasanaethau hynny i gwrdd â'r anghenion newidiol. Mae'r ddogfen yn cynrychioli gwaith ystod eang o grwpiau clinigol a budd-ddeiliaid eraill a gyfarfu rhwng Gorffennaf 2005 a mis Mawrth 2006.
- 7.10.3 Amlinellir strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gofal iechyd hyd at 2015 yn 'Cynlluniwyd am Oes'. Mae'r diffiniadau gofal y cyfeirir atynt trwy gydol y ddogfen hon yn seiliedig ar 'Cynlluniwyd am Oes' ac maent fel a ganlyn:
- Gwasanaethau lleol - yn cynnwys mân anafiadau, cleifion allanol, meddyginiaeth reolaidd, adferiad, gofal iechyd teulu, gofal dydd, a llawdriniaethau rheolaidd arhosiad byr.
 - Gwasanaethau Llym – yn cynnwys gwasanaethau mawr a gynlluniwyd ac achosion brys a llawer ohonynt a fydd angen cefnogaeth cyfleusterau gofal critigol.
 - Gwasanaethau Trydyddol – mae'r rhain yn wasanaethau hynod arbenigol gan gynnwys, er enghraifft, niwro feddygaeth a llawfeddygaeth y galon, llawer ohonynt sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu i drigolion Gogledd Cymru yng Ngogledd Orllewin Lloegr.
- 7.10.4 Bydd gwasanaethau llym sydd angen gwely ysbyty yng Ngogledd Cymru ond yn cael eu darparu o'r tri safle ysbyty yng Ngogledd Cymru sef Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam gyda chefnogaeth Ysbyty Iarlles Caer, Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt. Cyflawnir y broses gyfuno hon drwy drosglwyddo nifer fechan o wasanaethau llym a ddarperir ar hyn o bryd yn y tri safle lloeren (yn Llandudno, Abergele a HM Stanley) i un neu fwy o'r tri phrif safle.
- 7.10.5 Bydd yr adeiladau ar y tri phrif safle yn cael buddsoddiad i gael gwared ar y problemau cynnal a chadw, ac i'w gwneud yn ffit i ddarparu gwasanaeth 21 Canrif. Bydd angen i hyn gadw mewn cof y materion cludiant a pharcio, sydd bob amser o bryder i'r cyhoedd. Bydd y buddsoddiad hwn yn dechrau cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad hwn a dylid ei gwblhau dros yr 8 - 10 mlynedd nesaf.

- 7.10.6 Y bwriad ydi y bydd y gwasanaethau meddygol llym a gofal y galon a ddarperir ar hyn o bryd yn safle ysbyty Llandudno yn trosglwyddo i Ysbyty Gwynedd a/neu Ysbyty Glan Clwyd. Bydd y gwasanaethau llawdriniaeth o'r fron i gleifion mewnol a ddarperir yn Llandudno hefyd yn trosglwyddo i brif safle, ac ni fydd yr ysbyty bellach yn derbyn unrhyw achosion brys meddygol heb eu dewis. Bydd y cyfle i ddatblygu'r safle fel canolfan rhagoriaeth ar gyfer gwasanaethau adferiad pellach yn cael ei archwilio.
- 7.10.7 Bwriedir bod y gwasanaethau orthopedig yn Abergele yn trosglwyddo i Ysbyty Glan Clwyd. Bwriedir hefyd bod offamoleg a'r gwasanaeth adferiad strôc hefyd yn trosglwyddo o HM Stanley.
- 7.10.8 Er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n ddiogel ac o'r ansawdd uchaf, bydd angen mwy o waith ar wasanaethau is-arbenigol. Rhagwelir y bydd rhai gwasanaethau yn cael eu cyfuno ar un neu ddau safle yng Ngogledd Cymru o ganlyniad. Mae hyn eisoes wedi dechrau gyda gwasanaeth llawfeddygaeth genau wynebol cyn cael eu cyfunol yn ysbyty Glan Clwyd.
- 7.10.9 Efallai y byddai'n ddichonadwy i rai gwasanaethau trydyddol gael eu darparu yng Ngogledd Cymru. Bydd y gwasanaethau hyn felly yn cael eu cadw dan adolygiad.
- 7.10.10 Daeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer y ddogfen hon i ben ar 26 Mehefin 2006. Yn dilyn hyn, penderfynwyd bod yr holl gynigion yn mynd ymlaen heblaw am y newidiadau ar gyfer Ysbyty Llandudno a fydd yn destun adolygiad annibynnol. Ers hynny cyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd ym mis Mawrth 2008 y bydd gwasanaethau gofal y fron yn parhau yn Ysbyty Llandudno. Cyhoeddodd yr adolygiad hwn hefyd y byddai Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei hailadeiladu.
- 7.11 **Cynllun Rheoli Morlin Bae Lerpwl 1999**
- 7.11.1 Yn 1993, archwiliwyd morlin Lloegr a Chymru a arweiniodd at raniad addas o'r arfordir i'r hyn a elwir bellach yn 'is-gelloedd'. Un o'r rhain ydi Is-gell 11a sy'n ymestyn o Ben y Gogarth i Formby Point. Roedd yn ofyniad a osodwyd gan y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a Swyddfa Gymreig (bellach Llywodraeth Cynulliad Cymru), i gynhyrchu cynlluniau rheoli morlin. Un o'r

rhesymau pam oedd cyfarwyddo'r broses cynllunio statudol a chynllunio parth arfordirol cysylltiedig. Amlygwyd pedwar prif fater: prosesau arfordirol, amgylchedd naturiol, yr amgylchedd ddynol ac adeiledig, ac amddiffyn arfordirol. Mae'r astudiaeth yn amlinellu 23 amcan, ac mae'r canlynol yn fwyaf perthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol:

- I barhau a gwella monitro prosesau arfordirol presennol i ddarparu mwy o ddata, lle gellir diffinio graddfa a maint y camau polisi.
- Darparu safonau priodol o amddiffynfeydd arfordirol mewn perthynas â'r risg o erydu arfordirol a/neu llifogydd yn y cefnwlod isel.
- I leihau effaith y mae amddiffynfeydd arfordirol a wnaethpwyd gan ddynion ar ddatblygiadau morlin arfordirol.
- I gynnal, a lle bo'n bosibl, gwella ansawdd tirwedd yr ardal, a lle bo'n briodol, rheoli pwysau ymwelwyr fel bod yr amgylchedd yn cael ei diogelu a bod mwynhad pobl a'u dealltwriaeth ohono yn cael ei gwella.
- Diogelu cymeriad y prif fannau gwyliau a gwella neu gynyddu amwynder a gwerth hamdden yr arfordir.
- Gwneud y gorau posibl i wella'r economi wledig (amrywiaeth fferm, cynnal a gwella'r cefn gwlad) lle bo'n bosibl.
- Sicrhau bod strwythurau amddiffyn arfordir a'r gwaith yn parhau i ddarparu mynediad digonol ar gyfer gweithgareddau pysgodfeydd.

7.11.2 Mae'r cynllun wedi rhannu'r darn hwn o'r arfordir i gyfres o Unedau Proses Arfordirol; mae tri o'r unedau hyn yn berthnasol i'r CDLI. Y cyntaf ydi'r Bae'r Gogarth, Llandudno, ac fe'i diffinnir gan y Gogarth a Thrwyn y Fuwch. Mae hwn wedi ei rannu i dair Uned Rheoli: Pen y Gogarth; Pen y Gogarth i Ben Trwyn y Fuwch; a Pen Trwyn y Fuwch. Y Polisi Amddiffyn Arfordir ar gyfer y Gogarth a Thrwyn y Fuwch ydi 'gwneud dim' tra ar gyfer yr ardal yn y canol, mae'n bolisi o 'ddal y lein' fel bod yna lefel briodol o ddiogelwch llifogydd ac erydiad yn cael ei ddarparu. Y materion perthnasol ar gyfer yr ardal hon ydi'r diffyg ystyriaeth o ddiddordebau hamdden, a mynediad o fewn yr amddiffynfeydd arfordirol. Mae cynnal a chadw ffordd Doll ar y Gogarth hefyd yn berthnasol.

7.11.3 Mae'r ail Uned Proses Arfordirol o Drwyn y Fuwch i Ben Penmaen, ac unwaith efo mae wedi ei rannu i dair uned rheoli: Pen Trwyn y Fuwch i Bwynt Rhos; Pwynt Rhos i Goleg Penrhos; a Choleg Penrhos i Ben Tan Penmaen. Y polisi

amddiffyn ar gyfer y tri ydi 'dal y lein' a soniwyd am fynediad ac ystyried diddordebau hamdden fel materion. Sonnir am ddichonolrwydd tymor hir y llinell rheilffordd fel mater allweddol.

7.11.4 Mae'r drydedd Uned Proses Arfordirol yn ymestyn o Ben Tan Penmaen i Afon Clwyd, ac fe'i rhennir i bum uned rheoli. Y polisi amddiffyn a'r cyfan o'r ardal yma ydi 'dal y lein'. Efo encilfeydd o Arglawdd Llanddulas i Domen Llanddulas ac encilfa bosibl ar gyfer Tomen Llanddulas Tip i'r Hen Wrych, y ddau yn y tymor hir. Mae'r materion perthnasol a amlinellwyd yn cynnwys yr effeithiau ar y Llwybr Beicio a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, y dyfodol tymor hir y rheilffordd, a dyfodol tymor hir rhai meysydd carafannau, ac addasiadau i dai yn y meysydd risg llifogydd, e.e. Tywyn / Bae Cinmel.

7.11.5 I grynhoi, bydd angen i'r CDLI gadw mewn cof yr angen ar gyfer system amddiffyn arfordirol addas. Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol gefnogi nodau ac amcanion y cynllun rheoli, ynghyd a'r rheiny yn Asesiad Risg Llifogydd Llanwol Conwy (gweler paragraff 8.7) a Chynllun Strategaeth Amddiffyn Arfordirol Bae Colwyn 2006 (gweler paragraff 8.8) er mwyn sicrhau bod yna gynlluniau amddiffyn addas sydd ddim yn cael effeithiol niweidiol ar yr amgylchedd naturiol neu adeiledig.

7.12 **Astudiaeth a Chynllun Gweithredu Arfordir a Mewndir Siroedd Conwy a Dinbych**

7.12.1 Penodwyd Hyder Consulting i baratoi cynllun gweithredu i roi cynigion ar waith i wneud y defnydd gorau o botensial arfordirol i uchafu budd economaidd a chymunedol. Mae hon yn enghraifft arall o gydweithio rhwng Siroedd Conwy a Dinbych. Mae'r ardal astudiaeth yn cynnwys y ddwy sir ac ardal arfordirol Talacre yn Sir y Fflint. Yna cafodd yr ardal hon ei rhannu'n ddeg parth , pump ar hyd yr arfordir, yn seiliedig ar barthau Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru a pum parth mewnol.

7.12.2 Gweledigaeth y ddogfen ydi ar gyfer 'Cynllun Gweithredu deinamig ar gyfer arfordir a dyfroedd mewnol Siroedd Conwy a Dinbych, sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r defnyddiwr, wedi'i integreiddio ac yn dod â manteision economaidd a chymdeithasol cynaliadwy i gymunedau lleol ac ymwelwyr, a

hynny wrth gydnabod ansawdd amgylcheddol yr ardal'. Mae'r astudiaeth hefyd yn amlygu saith amcan:

- Amlygu'r ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant a buddsoddiad yn nyfroedd arfordirol a mewnl Siroedd Conwy a Dinbych.
- Gwella proffesiynoldeb, ysgogiad, cynhaliaeth, arloesed a diffygion o ran recriwtio i gwrdd ag anghenion tymor hir.
- Datblygu, cyflwyno a dehongli asedau diwylliannol, treftadaeth ac amgylcheddol yr ardal er budd trigolion lleol.
- Rheoli adnoddau twristiaeth a hamdden i ymestyn disgwyliadau ymwelwyr ac i reoli mannau sensitif o fewn eu capasiti amgylcheddol.
- Datblygu sgiliau a chyfleoedd hyfforddi sy'n hwyluso datblygiad a thwf busnesau.
- Sefydlu ac annog partneriaeth a rhwydweithio gyda'r sector cyhoeddus a phreifat a defnyddwyr.
- Datblygu dangosyddion perfformiad addas a gwerthoedd meincnod.

7.12.3 Anelodd yr astudiaeth at gyflawni'r rhain trwy restr fer o brosiectau, a luniodd y cynllun gweithredu. Mae'r canlynol yn berthnasol i Gonwy.

- Datblygu llwybr beicio ar hyd arfordir Conwy a hyrwyddo llwybrau eraill o fewn y parth arfordirol.
- Hyrwyddo mynediad arfordirol ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr trwy ddarparu gwybodaeth/ gweithgareddau/ cyfleusterau.
- Gwella ac ymestyn cyfleoedd mynediad ar gyfer pob defnyddiwr o'r ardaloedd arfordirol o fewn Conwy trwy weithredu gwelliannau mynediad corfforol i lwybrau a ffyrdd sy'n bodoli eisoes.
- Gwelliannau ffisegol i lwybrau troed a ffyrdd mynediad yn ardal y Gogarth
- Gwelliannau i ran o lwybr sy'n arwain i Warchodfa Natur Morfa Madryn yn Llanfairfechan.

7.12.4 Y cynllun gweithredu ydi'r cam nesaf o'r astudiaeth yma, lle bydd y prosiectau uchod yn cael eu hasesu ar gyfer cost, ffynhonnell nawdd, sefydliad arweiniol ac amserlen.

7.13 **Harbwr y Foryd, Y Rhyl - astudiaeth Dichonolrwydd Pont Droed i Gerddwyr**

7.13.1 Cynhyrchwyd yr astudiaeth ymarferoldeb hon gan Atkins ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, ac roedd yn archwilio darparu pont gerdded a beicio dros Harbwr y Foryd, sydd wedi'i leoli ar y ffin rhwng Conwy a Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd mae dolen gyswllt ar goll ar Lwybr Beicio Cenedlaethol 5, sy'n cysylltu Lerpwl a Chaergybi ar hyd arfordir gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae beicwyr yn cael eu dargyfeirio ar yr A548 i groesi'r afon. Mae Atkins wedi argymhell y dylid codi 'adeiledd priodol nodedig gyda rhychwant symudol' (i ganiatáu cychod i fynd oddi tano) o Wal Cei Rhodfa'r Gorllewin yn y dwyrain i Farina Iard Gychod y Sgwâr Cyhoeddus yn y gorllewin. Rhoddwyd caniatâd yn ddiweddarach i'r bont yn 2011 ac mae'r cynllun yn rhan o gynlluniau ehangach Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer ardal y Foryd a glan y môr y Rhyl.

7.14 **Astudiaeth Isranbarthol Gorllewin Swydd Caer – Gogledd Ddwyrain Cymru 2004**

7.14.1 Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan grŵp traws-ffiniol o bartneriaid o asiantaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac mae'n ymdrin â ffiniau bwrdeistrefi dosbarth sirol, Sir y Fflint, Wrecsam, Ellesmere Port a Neston a Chaer ond yn edrych ar yr ardal graidd hon yng nghyd-destun ardaloedd cyffiniol Sir Ddinbych, Cilgwri, Halton a Warrington.

7.14.2 Mae amcanion yr astudiaeth hon fel a ganlyn:

- Beth yw'r gyrrwyr economaidd a fydd yn dylanwadau ar ddatblygiadau yn yr isranbarth yn y dyfodol?
- Beth ydi deinameg y farchnad dai isranbarthol?
- Pa rôl mae'r isranbarth yn ei chwarae ar hyn o bryd a beth ydi dyheadau'r budd-ddeiliaid?
- Beth yw'r opsiynau ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r isranbarth yn y dyfodol?

7.14.3 Mae casgliadau ac argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Diffinnir yr opsiwn twf economaidd a ffafrir gan y twf uwch gyda chynhwysiad cymdeithasol a'r senario addasrwydd amgylcheddol.
- Mae angen amlygu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer yr isranbarth, sy'n arwain at ddarparu fframwaith gynllunio ac economaidd ranbarthol a lleol sydd yn gyson.

- Mae angen delio â goblygiadau gofodol twf trwy agwedd gydlynol a strategol y cytunir arni.
- Dylai'r astudiaeth ddechrau cyfarwyddo polisi rhanbarthol a lleol gan gynnwys y polisi adfywio, ac i gael cyfarwyddyd pellach drwy baratoi strategaeth isranbarthol gynhwysol.
- Mae angen agwedd gydlynol i ostwng y cam cymhathu rhwng cyrhaeddiad addysgol ac anghenion sgiliau/hyfforddiant yn y sectorau economaidd allweddol.
- Datblygu agwedd ategol i ddwyn ymlaen safleoedd cyflogaeth fel rhan o ddatblygu strategaeth isranbarthol.
- Mae angen gwneud gwaith pellach i asesu effaith y TGCh ac isadeiledd gwasanaethau fel cyfyngiad y datblygu.
- Caiff cyflenwad tir preswyl ei asesu a'i gefnogi trwy ddatblygu astudiaethau anghenion tai lleol ar lefel leol.

7.15 **Strategaeth Ofodol Isranbarthol Gorllewin Swydd Caer –Gogledd Ddwyrain Cymru 2006 - 2021**

7.15.1 Roedd y strategaeth hon yn dilyn astudiaeth isranbarthol 2004 ac yn adeiladu ar rai o'r materion a amlygwyd ac yn eu ffurfio i mewn i strategaeth ofodol. Er hynny penderfynodd Bwrdd Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy ym mis Ionawr 2011 i beidio bwrw ymlaen â'r Strategaeth Ofodol Isranbarthol a rhoi'r gorau i'w ddefnyddio fel dogfen strategol.

7.16 **Fframwaith Is-ranbarthol Conwy-Sir Ddinbych**

7.16.1 Comisiynwyd GVA Grimley ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAG), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a Cyngor Sir Ddinbych (DCC) i ymgymryd â fframwaith gofodol ar gyfer isranbarth Conwy / Sir Ddinbych. Mae'r astudiaeth yn edrych ar fwrdeistrefoedd sirol y ddau awdurdod gan gynnwys y Parc Cenedlaethol sy'n gorwedd o fewn Conwy, ac yn syrthio o fewn i dri pharth fel y diffiniwyd gan Gynllun Gofodol Cymru, y parthau hynny yw Gogledd Ddwyrain Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Orllewin Cymru.

7.16.2 Nid yw'r fframwaith yn statudol, ond bwriedig iddi ddarparu gwybodaeth y gellir ei bwydo'n uniongyrchol i Gynlluniau Datblygu Lleol y ddau awdurdod. Mae amcanion y Fframwaith Ofodol fel a ganlyn:

- Darparu asesiad gwaelodlin corfforol, economaidd a chymdeithasol cynhwysfawr o'r ardal astudiaeth.
- Amlygu gwendidau strwythurol tymor hir i gyfarwyddo datblygu Cynllun Gofodol Cymru a pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych a strategaethau perthnasol y rhain, ac awdurdodau statudol eraill.
- Amlygu'r materion gofodol allweddol a'r cymhellion economaidd-gymdeithasol o fewn yr ardal ac archwilio synyrgerddau posibl rhwng y rhain a'r materion sydd ar ddod, a'r cyfleodd a gyflwynir gan yr isranbarth ehangach, a'r camau sy'n deillio o strategaeth isranbarthol yng Ngorllewin Sir Gaer / Gogledd Ddwyrain Cymru.
- Sicrhau bod pob datblygiad yn y dyfodol yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, a bod hyn yn llwyr gynaliadwy ac yn ecsbloetio hunaniaeth lleol.
- Cyflawni cyfuniad, cysondeb a chydaddoldeb rhwng y blaenoriaethau a'r camau sy'n deillio o dri pharth Cynllun Gofodol Cymru, sef Gogledd Ddwyrain, Gogledd Orllewin a Chanolbarth Cymru.
- Ystyried sut y gallai'r ardal osod ei un yn well mewn perthynas â rhaglenni pan Wales neu UE gan ystyried ei anghenion economaidd-gymdeithasol tymor hir.
- Asesu'r gritigol ystod o senarios a ddeillir yn ofodol ar gyfer datblygiad tymor hir (15 mlynedd) yr ardal fel rhan o strategaeth realistig ond uchelgeisiol i ddelio â'r materion a gwendidau tymor hir a gydnabuwyd.

7.16.3 Mae'r adroddiad yn dechrau trwy edrych ar gyflwr cyfredol y rhanbarth mewn perthynas â'i isadeiledd, nodweddion amgylcheddol, proffil economaidd-gymdeithasol, y farchnad tai, y sylfaen economaidd a thueddiadau poblogaeth. Yna mae dadansoddiad SWOT yn amlygu'r prif gryfderau, gwendidau, cyfleodd a'r bygythiadau sy'n wynebu'r rhanbarth, gan helpu i ddatblygu matrices sy'n amlygu'r prif faterion sy'n wynebu'r rhanbarth. Gellir gweld canlyniadau'r dadansoddiad SWOT isod:

Strengths	Weaknesses
<ol style="list-style-type: none"> 1. Population growth driven by in-migration but increasingly an economically active population 2. Connectivity by road east to west, linking Holyhead with Chester and Manchester and to M54 / West Midlands 3. High quality environment of international importance in landscape, heritage and biodiversity 4. Growing economy with prospects for continued positive future growth, albeit at a lower level than recent trends 5. Strong quality of life / place attributes directly relating to the environment and aesthetic appeal of the area 	<ol style="list-style-type: none"> 1. An ageing population exacerbated by increased in-migration of elderly workforce and impacts on healthcare / support services 2. Poor road connectivity north south, inter-and intra-regionally 3. Future potential for development constrained to existing settlements as broad areas of search, given environmental constraints, which limits opportunity for significant expansion 4. High economic inactivity with large areas of deprivation located particularly along the coastal strip 5. Over reliance on lower income generating – and value – sectors / occupations to make good any deficits in economic base 6. Out-flow of higher value skills to adjoining areas 7. Housing affordability
Opportunities	Threats
<ol style="list-style-type: none"> 1. Realising the opportunities derived from a stock of older people and the skills they bring – target enterprise, skills and training strategies 2. Improved frequency and speed of rail access east to west to connect with Manchester Airport and Manchester 3. Euroroute 22 connecting Dublin with Hull and Continental Europe provides opportunity for expansion of communications sector as well as spin off benefits for business growth 4. Investment in gateways – airports and ports and opening up the sub-region to investment 5. Proximity to larger markets to the east and taking advantage of spill-over investment. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Climate change and flooding risk 2. Inability to diversify economic base with associated impact on population, labour market and business competitiveness 3. Economic exposure of cross-border sub-region 4. Exacerbated housing affordability with average house prices moving beyond the ability of first-time buyers 5. Future land supply constraints attributable to character of the area, not being brought forward, placing a premium on value 6. Public policy targeting of higher value sectors not addressing the 'knowledge needs' of sub-region's distinctive sectors 7. Fallibility of agricultural sector impacting upon stewardship 8. Global exposure – particularly in the manufacturing sector

7.16.4 Mae'r Fframwaith yn datblygu gweledigaeth ofodol sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwerth sylfaen economaidd a hynny wrth godi proffil asedau amgylcheddol y rhanbarth. Mae'r weledigaeth yn nodi 'bydd isranbarth Conwy/Sir Ddinbych yn datblygu fel ardal flaengar sydd yn enwog am ansawdd eithriadol ei hamgylchedd ac yn cynnig dewis o lefydd o ansawdd uchel i fyw ynddynt, i ymweld â nhw ac i wneud busnes. Mae'n dod yn isranbarth â llawer o gysylltiadau mewn perthynas â'u sgiliau a gynigir yn y cyd-destun gofodol ehangach, ei hygyrchedd drwy isadeiledd cludiant gwell, a thrwy fuddsoddiad mewn galluoedd TGCh'.

7.16.5 Tanategir y weledigaeth gan gyfres o amcanion strategol craidd. Sef:

- datblygu a meithrin cymunedau cynaliadwy a rhyng-gysylltiedig;
- cynnal a gwella asedau amgylcheddol yr ardal;
- tyfu'r economi leol;
- meithrin cynhwysiant economaidd a chymdeithasol; a,
- creu hunaniaeth nodedig ar gyfer yr isranbarth yng nghanol Gogledd Cymru.

7.16.6 Mae'r Fframwaith yn amlygu cyfres o Opsiynau Strategol yn dynodi natur y newid o ran twf, ac Opsiynau Gofodol yn dynodi'r ardaloedd ar gyfer crynodiad twf.

7.16.7 Yr Opsiynau Strategol ydi:

- Opsiwn Adfywio A: Buddsoddiad Cyfredol.

- Opsiwn Adfywio B: Twf Cynaliadwy efo Cynnydd Cymdeithasol (Rhyngyfrydol).
- Opsiwn Adfywio C: Twf Economaidd Cynaliadwy efo Cynnydd Cymdeithasol (Uchel).

7.16.8 Yr Opsiynau Gofodol ydi:

- Opsiwn 1: Buddsoddiad gwasgarog – amlygodd yr ymgynghoriadau bod buddsoddiadau yn yr isranbarth ar ffyrdd prosiectau yn tueddu fod wedi eu rhannu drwy'r anheddau gan ddiffygio o unrhyw gydlynid go iawn neu fas critigol.
- Opsiwn 2: Model 2 Ardal - roedd yr opsiwn hwn yn ystyried fframwaith gofodol ar gyfer yr isranbarth, lle'r oedd y prif ddau ffocws ar gyfer buddsoddiad yn y Rhyl a Llandudno / Cyffordd Llandudno. Roedd y cyfyngiadau amgylcheddol mewn perthynas â Llandudno, yn enwedig o gofio pa mor debygol yr oedd o ddioddef llifogydd, yn cael ei hadlewyrchu yn yr opsiwn fframwaith i ystyried 'Llandudno ehangach' a oedd yn cynnwys y Gyffordd.
- Opsiwn 3: Model Aml-Ardal – mae'r Opsiwn hwn yn ystyried buddsoddi gan dargedu Rhyl, Llandudno / Cyffordd Llandudno a Llanelwy / Bodelwyddan – o gofio ei lleoliad cynaliadwy ar goridor yr A55 – ynghyd â rôl bwysig, er yn gyfyngedig, ar gyfer buddsoddiad yn y canolfannau gwasanaeth arfordirol a gwledig yn benodol i dargedu twristiaeth a'r sectorau economi gwledig.

7.16.9 Mae'r Fframwaith yn amlygu Opsiwn Adfywio C ynghyd ag Opsiwn Gofodol 3, fel y modd y dymunir i wella cystadleugarwch sectorau allweddol Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r opsiwn twf uchel hwn yn edrych tuag at arwain at gynnydd o 1% yng nghyfradd twf cyflogaeth yn y sectorau cyflogaeth sefydledig a dychwelyd i lefelau 2005 o gyflogaeth erbyn 2021, yn y sectorau hynny lle bu dirywiad mewn cyflogaeth. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 8,000 o swyddi o waelodlin 2005 i 78,000 erbyn 2021. Mae Opsiwn Gofodol 3 yn ceisio canolbwyntio twf yn nhrefi rhanbarthol Llandudno a Rhyl ac ar leoliadau arfordirol o'u cwmpas o Gyffordd Llandudno, Conwy, Bae Colwyn, Prestatyn, Bae Cinmel, Llanelwy a Rhualt mewn modd tebyg i Opsiwn Gofodol 2. Fodd bynnag, mae Opsiwn Gofodol 3 hefyd yn cydnabod cyfraniad pwysig y cefnwlod gwledig, ac o'r herwydd mae'n amlygu'r ardaloedd gwledig o gwmpas Llanrwst, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen

er mwyn egsbloetio'r cyfleoedd twf allweddol mewn mannau eraill. Hefyd, mae'r A55 fel rhan o Lwybr Ewro E22, sy'n cysylltu Dulyn, Gogledd Cymru, Gorllewin Lloegr efo Ewrop yn darparu cyfleoedd amhrisiadwy i gysylltu'r rhanbarth efo'r ardaloedd allweddol Prydain a chyfandir Ewrop.

7.16.10 Yn gryno, mae'n amlwg er bod Fframwaith i ddechrau yn amlygu'r materion allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth o ran y ffactorau amgylcheddol, economaidd ac economaidd-gymdeithasol, mae canlyniad asesiad y gwahanol opsiynau gofodol yn canolbwyntio llawer iawn tuag at lefelau buddsoddiad yn y dyfodol a chreu'r swyddi sydd angen i fynd a'r rhanbarth yn ei flaen i 2021. Mae gan waith Fframwaith Isranbarthol Conwy-Sir Ddinbych, ddylanwad uniongyrchol ar opsiynau cyflogaeth y strategaethau Cynllun Datblygu Lleol Conwy a Sir Ddinbych. Gellir gweld hyn mewn mwy o fanylion ym Mhapur Cefndir 3 – Adroddiad Opsiynau Lefel Twf a Phapur Cefndir 13 – Argaeledd Tir Cyflogaeth.

7.17 **Cau'r Bwch - Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru Ail Ddrafft 2009**

7.17.1 Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'r ffordd y bydd polisïau a goliau eang Cynllun Gofodol Cymru yn cael eu cyflawni yng Ngogledd Orllewin Cymru gan ymdrin â Siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Y weledigaeth ar gyfer yr isranbarth ydi: 'Ardal hyderus sy'n edrych tuag allan, sy'n gwneud defnydd da o'i hasedau diwylliannol a naturiol fel sail ar gyfer ansawdd bywyd uchel a chynnydd o ran ffyniant. Ardal sy'n sicrhau iechyd da a lles ei holl breswylwyr a chymunedau'.

7.17.2 Tanategir y strategaeth gan yr egwyddorion canlynol:

- Ystyried gwahanol anghenion a chyfleoedd dosbarthu;
- Ymateb yn gadarnhaol i newid sydd y tu hwnt i'n rheolaeth;
- Bod yn gyfiawn;

7.17.3 Wrth gydnabod yr heriau mae'r Strategaeth yn cynnig ymateb sy'n seiliedig ar y pedair thema a ganlyn:

- LLEFYDD – Datblygu gofodol
- LLEFYDD – Datblygu isadeiledd
- POBL – Datblygu sgiliau

- POBL – Yr economi a ffyniant

Ar gyfer pob un o'r themâu hyn, mae'r strategaeth yn nodi anghenion, yn anelu ymatebion ac yn targedu newidiadau i'w cyflawni erbyn 2020.

7.17.4 Mae'r Strategaeth yn cydnabod y canolbwyntiau a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru, gan gynnwys canolbwynt Arfordir y Gogledd, sy'n cynnwys aneddiadau Llandudno, Conwy a Bae Colwyn. Yn y canolbwynt hwn mae'r Strategaeth yn ceisio canolbwyntio datblygiadau ar yr economi swyddfeydd, twristiaeth, ei botensial fel canolfan ddsbarthu, manwerthu, geo-wyddoniaeth a pheirianeg a gwasanaethau arfor. Nodir canolbwyntiau eraill yn Menai, Caergybi a Phyllheli a Phorthmadog, yn ogystal ag amryw o ddalgylchoedd lleol, gan gynnwys Abergele a Llanrwst. Bydd datblygiadau yn y dalgylchoedd lleol hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu cryfderau presennol y canolfannau lleol.

7.17.5 Bwriedir adolygu'r Strategaeth a'i chanlyniadau bob tair blynedd i sicrhau cynnydd tuag at gyflawni ei hamcanion, ei gweledigaeth a'i hamcanion. Mae'r awdurdodau lleol perthnasol yn bwriadu mabwysiadu'n ffurfiol y strategaeth hon fel sylfaen ar gyfer polisiau a blaenoriaethau lleol yn y dyfodol, a bydd yn dylanwadu ffurfio polisiau lleol a chenedlaethol yn y dyfodol. Bydd angen adlewyrchu'r materion a'r camau gweithredu a amlygwyd yn y CDLI.

7.18 **Aseiad Marchnad Tai Lleol Gogledd Orllewin Cymru**

7.18.1 Bydd Aseiad Marchnad Tai Lleol Gogledd Orllewin Cymru yn datblygu modd ar gyfer adnabod a monitro angen a'r galwa am dai yn siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd, Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri.

7.18.2 Cyhoeddwyd cam un o'r NWWLHMA ym mis Mawrth 2008 ac mae'n amlinellu'r angen am 5,000 o dai fforddiadwy dros gyfnod y CDLI yng Nghonwy (331 o dai fforddiadwy newydd bob blwyddyn). Bydd cam dau yr aseiad, yn amlinellu'r math o dai fforddiadwy sydd ei angen ym mhob lefel anheddiad yng Nghonwy. Bydd y CDLI yn monitro ac yn newid polisi i sicrhau bod polisiau a'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â Cham Dau NWWLHMA.

7.19 **Datganiad Dros Dro Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru**

7.19.1 Cyhoeddwyd Datganiad Dros Dro Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru ar 26 Mawrth 2007 ar gynnydd a chanfyddiadau allweddol Cynllun Gofodol Cymru yng Nghanolbarth Cymru. Mae'n cydnabod yr angen i fwyafu'r cyfleoedd ar gyfer yr holl sectorau i symud i fyny'r farchnad, cydnabod yr angen i gynnal ac i gryfhau cystadleugarwch marchnata cloer yn Nyffryn Hafren, ac i ffermwyr ychwanegu gwerth at gynhyrchu bwyd trwy frandio a datblygu cilfachau.

7.19.2 Mae'r grŵp Cynllun Gofodol hwn ar hyn o bryd yn ffurfio strategaeth Aneddiadau Allweddol ac Ardaloedd Gwledig, a fydd yn darparu strategaeth â ffocws ar gyfer yr ardal, ynghyd â gwneud y defnydd gorau posibl o nawdd UE dros y blynyddoedd nesaf. Gellir gweld y weledigaeth ar gyfer canolbarth Cymru yn y ddogfen hon yn 6.1.16 a bydd y CDLI yn gwneud yn siŵr bod y weledigaeth a'r cynigion a amlygwyd ar gyfer yr ardal wedi cael eu hystyried wrth ffurfio ei faterion a'i amcanion ei hun.

8. **Cynlluniau a strategaethau lleol**

8.1 **Un Conwy 2013-2025**

8.1.1 Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol i gynhyrchu fframwaith gynllunio trosfwaol ar gyfer bob strategaeth arall, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol.

8.1.2 Er mwyn cefnogi a chynghori ar ddatblygu Strategaethau Cymunedol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (WG) ganllawiau statudol yn 2001 sy'n gorchymyn pob Awdurdod Lleol i gynhyrchu strategaeth erbyn 2004, efo hyd amser strategol o 10 – 15 mlynedd. O ganlyniad, lluniodd Conwy Strategaeth Gymunedol '*Troi Syniadau'n Realiti*', gan gynllunio am y cyfnod 2004 – 2014.

8.1.3 Adolygwyd canllawiau statudol 2001 wedyn yn 2008, a'i enw ydi '*Gweledigaeth Leol: datblygu a darparu Strategaethau Cymunedol*'. Mae'r canllawiau newydd yn gorchymyn bod rhaid i Strategaethau Cymunedol a'u trefniadau cefnogol gael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod dal yn ymatebol i anghenion lleol yn ogystal â darparu eu potensial yn unol â'r canllaw newydd.

8.1.4 O ganlyniad mae Strategaeth Gymunedol 2004 yn cael ei diweddarau rŵan ar ffurf dogfen newydd 'Un Conwy – *Cydweithio i Sicrhau Gwell Dyfodol*' sy'n gynllun integredig sy'n cynnwys y Strategaeth Gymunedol Ddiwygiedig, Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles gan amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer dyfodol y Fwrdeistref Sirol dros y cyfnod 2013-2025.

8.1.5 Mae'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol sydd wedi'i chynnwys yn Un Conwy yn seiliedig ar yr wyth canlyniad a ganlyn:

- **Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau** – Mae gan blant a phobl ifanc fynediad i well cyfleoedd addysgol, mae pobl y cael eu cefnogi i wella eu sgiliau a'u cymwysterau;
- **Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel** – Gostyngiad mewn troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i effaith ar y gymuned, a chynnig gwell cefnogaeth i ddiodefwr;
- **Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas** – Darparu tai cyraeddadwy, fforddiadwy ac o ansawdd da a gostwng digartrefedd a thanau damweiniol mewn tai;
- **Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol** – Annog pobl i fyw bywydau iach ac egniol a gostwng salwch, derbyniadau i'r ysbyty, beichiogrwydd yn yr ardegau a cham-drin alcohol;
- **Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus** – Cynnydd mewn datblygu a buddsoddiad ar draws y Fwrdeistref Sirol i greu swyddi a busnesau newydd, a gostwng tlodi, amddifadedd a busnesau'n cau i lawr;
- **Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag amgylchedd cynaliadwy** – Gostyngiadau mewn gwastraff a risg llifogydd, datblygu dewisiadau cludiant cynaliadwy, a diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;
- **Man pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu** – Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo mynediad at y cyfryngau, gwasanaethau llyfrgell a llefydd o ddiddordeb hanesyddol, ac annog a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg;
- **Mae pobl yng Nghonwy'n wybodus, yn cael eu cynnwys a gwrandewir arnynt** – Cynnydd yn rhan y gymuned ar draws gwasanaethau sector cyhoeddus a darparu cyfleoedd i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth;

- 8.1.6 Cafwyd ymgynghori cyhoeddus ar ddrafft o ddogfen Un Conwy ddiwedd 2011 ac mae'n debygol y bydd y farn a dderbynnir gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy yn cael ei hystyried cyn cyhoeddi fersiwn derfynol y ddogfen.
- 8.1.7 I grynhoi, Un Conwy, y Strategaeth Gymunedol ddiwygiedig yw'r ddogfen allweddol a fydd yn cael ei defnyddio'n bennaf i arwain y CDLI ac mae'r wyth canlyniad a nodir wedi'u cyfeirio atynt a'u gwirio yn erbyn y rhestr o amcanion y CDLI a ddeilliodd o ganlyniad i'r papur hwn. Gallwch weld hwn fel Atodiad A ar ddiwedd y papur hwn.
- 8.1.8 Cynhyrchodd Conwy hefyd strategaeth ar wahân dan y teitl 'Strategaeth Amgylchedd o Safon Conwy' (2016-2014) a oedd yn datblygu ar y materion amgylcheddol a nodwyd yn y Strategaeth Gymunedol gyntaf i greu cyfres o ddatganiadau cenhadaeth, nodau ac amcanion. Gallwch weld asesiad o'r strategaeth hon ym mharagraff 8.9.

8.2 **Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2008 – 2012**

- 8.2.1 Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn amlinellu agwedd y Cyngor tuag at ailfywhau ein cymunedau a rhoi Conwy yng nghanol Gogledd Cymru dros y pedair blynedd nesaf. Gan symud ymlaen o'r Cynllun Corfforaethol blaenorol "Gwireddu Potensial" i ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella ac i fuddsoddi ynddynt gan gymunedau lleol. Bydd y CDLI yn cefnogi amcanion y Cynllun Corfforaethol trwy ei Weledigaeth, ei Amcanion, ei Bolisiau a'i Fonitro.
- 8.2.2 Prif amcan y Cynllun Corfforaethol ydi prif amcan yw ailfywhau ein cymunedau er mwyn i'w trigolion fod yn falch ohonynt. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ei ymrwymadau ar:
- Pobl – chi, ein cwsmeriaid.
 - Lleuedd – y cymunedau rydych yn byw ynddynt.
 - Partneriaethau – pan na fyddwn yn gallu darparu'r gwasanaeth ar ein pen ein hunain a bod angen cydweithio ag eraill.

- 8.2.3 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlygu 12 o ymrwymadau i gymunedau Conwy. Amlygir elfennau tir y rheiny isod:
- Os ydych yn hŷn, byddwn yn eich helpu i gynnal eich annibyniaeth ac i gadw'ch lle yn y gymuned, trwy greu cynlluniau tai â gofal ychwanegol yn Llanfairfechan, Llanrwst, Llandudno ac Abergele.
 - Byddwn yn sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau a'r dechrau gorau'n gymdeithasol. Byddwn yn gweithredu rhaglen moderneiddio ysgolion cynradd, a fydd yn ymchwilio i safonau addysgol; ydy ein hadeiladau a'n hoffer yn addas i'w pwrpas; lleoedd gwag a pha mor rhwydd yw cael adnoddau.
 - Byddwn yn adolygu a gwarchod ansawdd ein hamgylchedd a strydwedd ein cymunedau.
 - Byddwn yn cynyddu nifer y gerddi ar osod sydd ar gael mewn cymunedau.
 - Gan weithio gyda chymdeithasau tai a datblygwyr tai, byddwn yn creu atebion tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.
 - Fel Cyngor, byddwn yn cydweithio â busnesau lleol i ganfod bylchau mewn sgiliau. Byddwn wedyn yn helpu pobl i wella'u sgiliau a chael gwaith, fel eu bod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau diweithdra, a'u bod yn gwella'u lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chynyddu eu hincwm gwario.
 - Fel sefydliad, byddwn yn arwain y ffordd i sicrhau ein bod yn cyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy.
 - Bydd darpariaeth Hamdden a Diwylliant pob ardal yn cael ei hadolygu a byddwn yn cefnogi'r clybiau, grwpiau a phrosiectau hynny sy'n hyrwyddo gweithgareddau corfforol a dulliau iach o fyw.
 - Byddwn yn diweddarau'n dulliau gweithio ac yn gwneud ein gwasanaethau yn haws i'w cael.
 - Byddwn yn gweithio gyda busnesau i sefydlu Fforwm Busnes ac yna'n llunio pecyn o gamau i helpu busnesau mewn ardaloedd sydd angen eu hadfywio..
 - Byddwn yn trafod y tebygolrwydd o lifogydd ac erydiad yr arfordir a goblygiadau hynny, gyda'n cymunedau, gan weithio i geisio deall a rheoli'r hyn maent yn ei ddisgwyl gennym. Byddwn hefyd yn eu helpu i baratoi ar gyfer llifogydd ac i leihau canlyniadau digwyddiadau, gan adfer y sefyllfa cyn gynted ag y bo modd.

- Byddwn yn sicrhau bod diogelwch ac effeithiolrwydd pob dull cludiant yn cael ei wella a'n bod yn delio ac eithrio cymdeithasol, gan sicrhau bod gwaith, addysg, iechyd a gwasanaethau i bob cymuned yn haws i'w cael.

8.2.4 Yn gryo bydd y CDLI yn chwarae rôl allweddol o ran gweithredu Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dros y pedair blynedd nesaf, gan gefnogi darparu'r amcanion a'r ymrwymadau uchod.

8.3 **Strategaeth Adfywio Conwy 2005 – 2015**

8.3.1 Yn y Strategaeth Adfywio nodir y cyfeiriad a'r weledigaeth ar gyfer Ardal y Cynllun hyd 2015. Mae'r strategaeth yn barhad o'r Strategaeth Gymunedol ac ailadroddir llawer o'r nodau a'r amcanion yn Strategaeth Iechyd Conwy 2005 – 2008. Dyma'r weledigaeth gyffredinol fel y mae'n cael ei datgan yn y Strategaeth Adfywio o ran yr effaith ar ddefnydd o dir:

- hybu mentergarwch, annog busnesau i ffynnu a datblygu cynnyrch neilltuol a marchnadoedd twf;
- datblygu a hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth amrywiol o ansawdd uchel;
- cefnogi cyflenwi digon o dir i ddarparu rhagor o dai fforddiadwy a chyfleusterau cymunedol lleol gwell; a;
- darparu cynigion a phrofiad nodedig ac o ansawdd uchel i ymwelwyr a fydd yn gwerthfawrogi ac yn gwella treftadaeth, diwylliant a phrydferthwch naturiol unigryw'r Sir.

8.3.2 O ran gwelliant economaidd mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cefnogi twf busnesau gyda mwy o werth ychwanegol ar draws amrywiaeth o sectorau gan gynnwys gwyddorau daear ac ynni adnewyddadwy;
- hybu mwy o ddatblygu yn y sector cyhoeddus a'r datblygiad o swyddfeydd;
- cefnogi cyflogaeth gynaliadwy mewn cymunedau gwledig;
- Cyffordd Llandudno fel erfyn i ddenu mwy o fuddsoddiad i'r ardal;
- Cynyddu'r gyfran o bobl mewn gwaith er mwyn rhoi Conwy yn yr ail grŵp 20% uchaf o ardaloedd awdurdodau lleol erbyn 2015; a;
- Chynyddu'r gyfran o gyflogaeth mewn sectorau sy'n seiliedig ar wybodaeth er mwyn rhoi Conwy yn y trydydd grŵp 20% uchaf o ardaloedd awdurdodau lleol erbyn 2015.

8.3.3 Ymdrinnir â chymunedau cydlynol trwy:

- hybu chwaraeon a gwella'r cyfleusterau;
- darparu digon o dir ar gyfer tai fforddiadwy;
- cefnogi a datblygu mentergarwch cymunedol a chymdeithasol o'r newydd;
- defnyddio Bae Colwyn fel canolbwynt ar gyfer adfywio; a,
- cynyddu'r gymhareb o enillion blynyddol gros i brisiau tai cyfartalog er mwyn rhoi Conwy yn yr ail grŵp 20% uchaf o ardaloedd awdurdodau lleol erbyn 2015.

8.3.4 Mae'r cyfleoedd o ran diwylliant a'r amgylchedd yn cynnwys:

- twf chwaraeon dŵr a gweithgareddau hamdden eraill;
- defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol (bioamrywiaeth a chadwraeth tirwedd);
- defnydd mwy effeithlon o safleoedd cyflogaeth bresennol a safleoedd tir a ddefnyddiwyd eisoes;
- darparu llwybrau cerdded a seiclo a llwybrau ceffylau; a,
- cynyddu'r ganran o gyfanswm hyd llwybrau troed a hawliau tramwy eraill sy'n hawdd i'w defnyddio gan aelodau o'r cyhoedd o 34% i 59% erbyn 2015.

8.3.5 Mae'r agenda o ran yr isadeiledd yn cynnwys:

- hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chartrefi gwyrddach;
- gwella'r cysylltiadau cludiant;
- lleihau tagfeydd (parcio a chludo, mwy o fannau parcio);
- darparu mwy o unedau cychwyn busnes;
- cefnogi ailddatblygu ar dir a ddefnyddiwyd eisoes;
- gwella canolfannau manwerthu a defnyddio eiddo gwag;
- cynyddu cyfanswm y gofod llawr masnachol a diwydiannol er mwyn rhoi Conwy yn y trydydd grŵp 20% uchaf o ardaloedd awdurdodau lleol;
- cynyddu ailgylchu, aildefnyddio neu gompostio gwastraff bwrdeistrefol o 18% i 25% erbyn 2015; a,
- Cynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus i bwrpasau teithio i'r gwaith er mwyn rhoi Conwy yn y trydydd grŵp 20% uchaf o ardaloedd awdurdodau lleol erbyn 2015.

8.3.6 Mae'r Strategaeth Adfywio yn amlygu 12 Maes Gweithredu i'w defnyddio i ddarparu amcanion cyffredinol y strategaeth. Mae'r 12 Maes Gweithredu fel a ganlyn:

- Hyrwyddo'r Sir fel pecyn cynhwysfawr;
- Adfywio Bae Colwyn;
- Annog tyfu busnesau gwerth uwch;
- Datblygu delwedd forol y Sir;
- Uwchraddio apêl y Sir fel cyrchfan twristiaeth busnes;
- Cadw pobl ifanc;
- Helpu busnesau lleol i dyfu;
- Adeiladu capasiti ar gyfer y sector gwirfoddol;
- Hwyluso datblygu mentrau cymunedol a chymdeithasol;
- Datblygu rhwydwaith cludiant integredig;
- Hyrwyddo Conwy fel cyrchfan twristiaeth iach; a,
- Magu hyder o fewn cymunedau gwledig.

8.3.7 Yn gryno, mae'r Strategaeth Adfywio'n mabwysiadu ymagwedd debyg i'r Strategaeth Gymunedol ac yn darparu trosolwg o'r hyn y gall Conwy ei wneud i fod yn fwy ffyniannus. Gall hybu amrywiaeth a buddsoddiad mewn ardaloedd gwledig a threfol a gwella isadeiledd hybu twf economaidd, a gellir darparu cymunedau cydlynol mewn modd tebyg i'r hyn a nodwyd o dan y thema 'Cymunedau Cryf a Diogel' yn y Strategaeth Gymunedol.

8.4 **Strategaeth Cynaliadwyedd 2008**

8.4.1 Mae'r strategaeth hon yn nodi sefyllfa Conwy ar gynaliadwyedd a sut bydd yn dod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cyngor. Dyma'r un gyntaf a luniwyd gan y Cyngor, ac mae'n manylu ar sut bydd cynaliadwyedd yn cael ei hyrwyddo trwy bolisiau, strategaethau a gwasanaethau, a chodi ymwybyddiaeth a chefnogi cynaliadwyedd mewn cymunedau lleol. Mae'n amlygu'r Strategaeth Gymunedol a'r CDLI fel dogfennau allweddol o ran darparu datblygu cynaliadwy.

8.4.2 Gweledigaeth y strategaeth ydi: 'cwrdd ag anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyfredol, a hynny wrth geisio ffynnu'n ar gyfer anghenion cenedlaethau'r dyfodol'. Mae'r strategaeth wedyn yn amlygu ymrwymadau

sylyfaenol i danategu gweithredoedd. Ystyriwyd y canlynol fel y rhai mwyaf perthnasol i'r CDLI:

- Hyrwyddo a gwerthuso cymunedau cynaliadwy, sy'n cynnwys cydlyniad cymdeithasol a diogelwch, mynediad cyfartal at wasanaethau a chyfleusterau hamdden, cyfleoedd cyflogaeth, a cheisio cwrdd ag anghenion lleol yn lleol.
- Parchu terfynau amgylcheddol a gwarchod Conwy a'r amgylchedd ehangach trwy gamau ystyrion sydd ddim yn disbyddu neu'n niweidio ein hardal naturiol a'i hadnoddau.

8.4.3 Mae'r strategaeth hefyd yn amlygu pum thema'r Strategaeth Gymunedol fel Egwyddorion Cynaliadwyedd, i arwain agwedd sensitif, lleol a chydlynol. Amlygwyd y blaenoriaethau, ac ystyriwyd bod y canlynol fwyaf perthnasol i'r CDLI:

- Mewnosod ystyriaethau datblygu cynaliadwy ym mhob cam a lefel o'r Strwythur Cynllunio Strategol a dogfennau cefnogol.
- Ystyried a Chynllunio ar gyfer Cysylltiadau rhwng Cynaliadwyedd a'r Cyddestun ehangach o Newid Hinsawdd.

8.4.4 Yn gryno, mae'r CDLI yn elfen allweddol o ran gweithredu'r Strategaeth Cynaliadwyedd. Mae canllawiau oddi wrth WAG yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei gynnwys yn y CDLI. Mae Atodiad 3 yn dangos sut mae amcanion y CDLI yn plethu â'r themâu cynaliadwyedd oddi wrth WAG.

8.5 **Menter Bywyd y Bae – Cynllun Datblygu 2007-2014**

8.5.1 Canlyniad menter ar y cyd rhwng CBS Conwy a Llywodraeth Cymru ydi'r cynllun hwn i gydnabod y materion cyfredol sy'n wynebu Bae Colwyn a datblygu cynllun gweithredu i wella ei ddyfodol. Mae ffocws cymunedol mawr ar y cynllun ac mae wedi cysylltu ag amrywiaeth eang o aelodau'r gymuned o'r cychwyn cyntaf. Y weledigaeth ydi i fae Colwyn fod yn dref i fod yn falch ohoni, ac yn dref ffyniannus, ddeniadol a llawn bywyd sy'n groesawgar, yn saff ac yn gyfeillgar; lle efo cymeriad unigryw y mae pobl yn falch o fyw ynddo.' Nid yw'r amcanion wedi eu cyfyngu i adfywiad ffisegol yr ardal yn unig, ac mae sawl gôl wedi ei hamlinellu er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mewn saith thema allweddol:

Cludiant a'r Amgylchedd:

- Ei gwneud hi'n haws i ymweld â Bae Colwyn; a,
- Sicrhau bod Bae Colwyn yn lle mwy diogel, glanach ac iachach i fyw ynddo, i weithio ac i ymweld ag o.

Cyflogaeth:

- Sicrhau bod economi Bae Colwyn yn llwyddiannus.

Busnes:

- Sicrhau bod Bae Colwyn yn dod yn ganolfan manwerthu arbenigol a chloer ac yn ganolfan weinyddol ar gyfer Gogledd Cymru.

Tai:

- Sicrhau bod canol Bae Colwyn yn cynnig cymysgedd o dai o ansawdd uchel, fforddiadwy, preifat ac i'w rhentu.

Addysg a Sgiliau:

- Darparu mynediad at safon uchel o addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes i bawb.

Trosedd ac Anrhefn:

- Gwneud i bobl deimlo'n saff a diogel ym Mae Colwyn.

Iechyd a Lles:

- Sicrhau bod yna fynediad at ofal iechyd ac addysg ar gyfer pawb.

8.5.2 Mae Menter Bywyd y Bae wedyn yn datblygu matrices prosiect a amlygwyd gan ei bartneriaid er mwyn helpu darparu'r goliau a'r blaenoriaethau a amlygwyd uchod. Mae'n rhaid i'r CDLI ystyried y prosiectau allweddol canlynol, er mwyn sicrhau llwyddiant Menter Bywyd y Bae:

- TE1 – Gwella'r Promenâd, fel ei fod yn cwrdd ag anghenion preswylwyr ac ymwelwyr a gwella ei gysylltiadau â'r dref.
- TE3 - Gwella'r strydlyn, gan gynnwys gwell arwyddion, manau agored, celf gyhoeddus a gwelliannau i alïau cefn a manau gwasanaeth.
- TE4 – Gwella a datblygu marchnadoedd stryd.
- E1 – Darparu cyfleoedd hyfforddiant ym meysydd adeiladu, busnes a gweinyddiaeth a darparu unedau dechrau ar gyfer datblygiadau swyddfa newydd.
- B1 – Darparu gofod busnes digonol i gefnogi'r economi leol.
- B3 – Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth arbenigol.

- HW1 – Datblygu hamdden a thwristiaeth ym Mrac eirias gan gynnwys trac beicio a chanolfan gerdd.
- HW2 – Canolfan Iechyd Colwyn. Ymestyn y cyfleusterau Yng Nghanolfan Hamdden Parc Eirias er mwyn galluogi defnyddio gweithgareddau corfforol fel ymyriad iechyd.
- CD1 – Gostwng trosedd ac anrhefn a sut y mae'r cyhoedd yn ei weld, trwy agwedd partneriaeth.
- CD2 – Datblygu amgylchedd gyda'r nos llawn bywyd
- H1 – Datrys materion tai ym Mae Colwyn gan ddefnyddio cymhellant ac arfau gorfodaeth.

8.5.3 Yn gryno, mae'r cynllun yn cydnabod bod Bae Colwyn yn dioddef o ddelwedd wael, a bod canol y dref yn enwedig wedi mynd â'i ben iddo ac yn cynnig ychydig o gyfleusterau i ddenu ac i gynnal buddsoddiad o'r tu allan. Datblygwyd y cynllun gweithredu ar y cyd â'r gymuned leol er mwyn amlygu cyfres o brosiectau a ddyluniwyd i adfywio Bae Colwyn mewn modd cyfannol er mwyn sicrhau ei dyfodol tymor hir.

8.6 Cynllun Gweithredu Twristiaeth 2008 – 2016

8.6.1 Ysgrifennwyd y ddogfen hon mewn ymateb i archwiliad o'r gwasanaeth twristiaeth, a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2006. Eu hargymhelliad oedd "Datblygu strategaeth ar gyfer twristiaeth sy'n darparu synnwyr clir o bwrpas a chyfarwyddyd ar gyfer gwasanaethau twristiaeth ar draws y Cyngor". Mae'r cynllun drafft yn seiliedig ar bolisiau cenedlaethol, ar lefel Cymru a'r DU ac fe'i cefnogir ymhellach gan strategaethau lefel rhanbarthol ac awdurdod.

8.6.2 Mae'r cynllun yn amlinellu tair blaenoriaeth allweddol:

- Darparu ansawdd uchel, cyson a gwerth am arian;
- Uwchraddio apêl Conwy fel cyrchfan twristiaeth busnes; a,
- Hyrwyddo'r Sir fel cyrchfan twristiaeth werdd.

8.6.3 Mae'r cynllun yn amlygu meysydd gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn; credir bod y canlynol yn fwyaf perthnasol i'r CDLI:

- Adfywio Bae Colwyn;

- Datblygu delwedd forol- chwaraeon dŵr, peirianeg forol, angori a chynnyrch bwyd môr;
- Cadw pobl ifanc trwy gyflenwi mwy o dai fforddiadwy, gweithgareddau hamdden atyniadol a thaeniad ehangach o gyfleoedd gwaith; a,
- Cynyddu cyfleoedd gwaith yn y diwydiant twristiaeth.

8.6.4 Mae'r cynllun hefyd yn amlygu camau gweithredu i gyflawni'r rhain; credir bod y canlynol yn fwyaf perthnasol:

- Argaeledd safleoedd addas ar gyfer datblygu twristiaeth;
- Amlygu safleoedd twristiaeth morol newydd, gan gynnwys cynnydd mewn cyfleusterau angori;
- Parhau i ddatblygu mannau agored cyhoeddus a mannau gwyrdd o fewn canol trefi a phromenadau;
- Datrys materion rheoli traffig a pharcio Llandudno gan gynnwys diogelu cael maes parcio aml-lawr a/ neu gyfleusterau parcio a theithio;
- Datblygu mesurau cefnogi i warchod y llefydd cysgu y mae cymaint o alw amdanynt; ac,
- Archwilio'r potensial ar gyfer adeiladu llwybrau beicio/ cerdded a llwybrau ceffylau ar hyd afonydd Conwy a Chlwyd.

8.6.5 Yn gryno, mae'r cynllun yn ceisio sicrhau dyfodol y diwydiant twristiaeth yn yr ardal. Caiff sawl gwelliant eu cynnwys yn y cynllun, a bydd y CDLI yn helpu sicrhau bod y rhain yn bosibl.

8.6.6 Yn ychwanegol i'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth, amlygwyd gwella a chynnal cynhwysfawr cyffredinol y parth arfordirol fel ei bod yn chwarae rhan hanfodol mewn darparu atyniad allweddol i ddatblygu'r meysydd twristiaeth a'r diwydiant twristiaeth yn y 'Strategaeth Troi'r Llanw' ar gyfer Ardal Adfywio Strategol Bae Colwyn. Amlygodd y ddogfen hon bwysigrwydd morlin Bae Colwyn a'r angen i wella ar y cynnig presennol i ddatblygu teulu cynaliadwy a detholiad o chwaraeon dŵr.

8.7 **Aseiad Risg Llifogydd Conwy**

8.7.1 Gyda Newid Hinsawdd bellach yn amlygu ei hun fel bygythiad allweddol i gymunedau cynaliadwy, mae'r effeithiau, fel mwy o lifogydd, wedi cael ei amlygu

fel risg uchel sydd angen gweithredu arni i'w rheoli ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

8.7.2 Mae Asesiad Risg Llifogydd Conwy yn erbyn arloesol a gwerthfawr ar gyfer mesur ac amlygu meysydd risg llifogydd llanwol heddiw a'r risg bosibl i'r dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth effeithiau Newid Hinsawdd ymhen 50 mlynedd a 100 mlynedd.

8.7.3 Mae Asesiad Risg Llifogydd Conwy yn cynnig canllaw mwy cywir yn benodol ar raddfa leol yn hytrach na'r mapiau cyngor datblygu sydd yn TAN 15. Mae deilliannau model CTFRA wedi cael eu defnyddio i lunio mapiau risg llifogydd rhyngweithiol manwl gyda gwybodaeth union ynglŷn â dyfnder llifogydd, y raddfa mae'n codi, a chyflymder y llif, yn unol â chanllaw TAN 15. Bydd yr LDP yn ystyried meysydd risg llifogydd a amlygwyd yn y CTFRA wrth leoli safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd. Gellir gweld mwy o wybodaeth ar Asesiad Risg Llifogydd Conwy ym Mhapur Cefndir 17.

8.8 **Cynllun Strategaeth Amddiffyn Arfordir Bae Colwyn 2006**

8.8.1 Yn 2004 gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gais i Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAG) am nawdd i gynnal astudiaeth strategaeth ar gyfer y blaen traeth. Yn dilyn stormydd ym mis Chwefror 2005, a oedd angen dros £100,000 o waith trwsio i sefydlogi gwaelod yr amddiffynfeydd presennol yn Hen Golwyn, rhoddwyd cymeradwyaeth gan WAG i lunio strategaeth.

8.8.2 Mae datblygu'r cynllun strategaeth yn ceisio:

- Penderfynu ar ffordd ymlaen ar gyfer darparu amddiffynfeydd arfordirol am y 50-100 mlynedd nesaf;
- Diffinio opsiynau addas a chynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r strategaeth blaen traeth ar waith, a'i hadolygu'n rheolaidd;
- Peri teimlad o feddiannaeth a chysylltiad mewn rheoli'r arfordir yn y dyfodol; a,
- Darparu balans priodol rhwng anghenion cymdeithas a'r amgylchedd.

8.8.3 Mae'r strategaeth yn amlygu materion, cyfyngiadau ac amcanion ar gyfer pob uned rheoli a amlygwyd o dan unedau CPU 1 a 2 Cynllun Rheoli Morlin Bae

Lerpwl (gweler uchod). Amlygwyd y gofynion cyffredinol canlynol ar gyfer y tair rhan o'r blaen traeth:

- Trwyn y Fuwch i Bwynt y Rhos:
 - Buddsoddiad sylweddol dros y 15 mlynedd diwethaf.
 - Cynnal a chadw cyffredinol o'r amddiffynfeydd presennol. Efallai bod angen ychydig o waith uwchraddio mân.
- Pwynt y Rhos i Hen Golwyn:
 - Gofyniad cyffredinol i ddarparu amddiffynfeydd arfordirol gwell ar hyd yr holl flaen traeth.
- Hen Golwyn i Tan Penmaen:
 - Uwchraddio diweddar o amddiffynfeydd a gynhelir gan NR.
 - Cynnal a chadw cyffredinol o'r amddiffynfeydd presennol. Efallai bod angen ychydig o waith uwchraddio mân.

8.8.4 Mae'r strategaeth yn amlygu pedwar cynllun posibl y gellid eu defnyddio ar draws y blaen traeth cyfan neu ar wahân o fewn pob uned. Mae'r opsiynau fel a ganlyn:

- Amddiffynfeydd gwaelod clogwyni gwell (fel sy'n bodoli eisoes ar rai rhannau);
- wal gynnal concrit llinol (ar stepiau a/ neu ar oleddfa);
- wal gynnal llinol o'r creigiau; a,
- ail-lenwi'r traeth.

8.8.5 Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ar y strategaeth yn 2007. Y cam nesaf ydi i gam 2 ddechrau, a fydd yn diweddu â chyflwyno'r strategaeth. Bydd angen i'r CDLI gefnogi nodau ac amcanion y cynllun strategaeth yma, ynghyd â rhai Asesiad Risg Llifogydd Llanwol Conwy a Chynllun Rheoli Morlin Bae Lerpwl er mwyn sicrhau cynlluniau amddiffyn addas sydd ddim yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol neu'r amgylchedd adeiledig.

8.9 **Strategaeth Amgylchedd o Safon Conwy 2006 – 2014**

8.9.1 Lansiodd y Bartneriaeth Amgylchedd o Safon y Strategaeth Amgylchedd o Safon ym mis Tachwedd 2006 yn dilyn cyfres o weithdai a chyflwyniadau a gynhaliwyd i amlygu'r materion amgylcheddol allweddol sy'n wynebu Conwy.

Mae'r ddogfen yn ceisio darparu amcanion amgylcheddol Strategaeth Gymunedol Conwy a delio â'r themâu canlynol:

- Yr Amgylchedd Adeiledig;
- Amgylchedd Lân ac Iach;
- Diwylliant a Hamdden;
- Tai;
- Yr Amgylchedd Naturiol;
- Cludiant; a,
- Rheoli Gwastraff.

8.9.2 Yr Amgylchedd Adeiledig

Y Datganiad Cenhadaeth ar gyfer yr amgylchedd adeiledig ydi 'cynnal amgylchedd sy'n Iach, yn fwy iach ac yn fwy diogel er budd pawb; y gymuned, gweithwyr ac ymwelwyr Conwy.' Cyflawnir hyn trwy'r amcanion canlynol:

Amcanion	Dangosyddion	Targed	Cyfrifoldeb
Cadw a gwella ein treftadaeth adeiledig	Nifer o Adeiladau Rhestredig mewn Risg Lefel gwariant ar gymorth grant	Lleihau nifer yr Adeiladau Rhestredig mewn risg o 3 y flwyddyn Gwario o leiaf £150,000 ar gymorth grant y flwyddyn yn y Sir	Adran Gynllunio CBS Conwy / Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Adran Gynllunio CBS Conwy / Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.
Gwneud y defnydd mwyaf o safleoedd "tir llwyd" a gwarchod safleoedd "maes glas"	Canran o ddatblygiadau newydd ar safleoedd "tir llwyd" a "thir glas"	Lleiafswm o 60% o ddatblygiadau ar safleoedd "tir llwyd" y flwyddyn	Adran Gynllunio CBS Conwy Adran Gynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
Gwarchod ein treftadaeth archeolegol gan gynnwys ardaloedd o bwys tirweddol hanesyddol	Nifer o safleoedd archeolegol o bwys cenedlaethol, rhanbarthol neu leol a gollwyd / ddifrodwyd	Peidio â cholli na difrodi safleoedd rhanbarthol neu leol o bwys	Adran Gynllunio CBS Conwy Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.
Hybu safon dylunio, deunyddiau a chreffftwaith ym mhob gwaith adeiladu.	Nifer y prif ddatblygiadau a ddenodd gefnogaeth y Comisiwn Dylunio	Yr holl brif ddatblygiadau a ddenodd gefnogaeth y Comisiwn Dylunio	Adran Gynllunio CBS Conwy / Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri./ Penseiri
Gwella dealltwriaeth y cyhoedd, a'u gwerthfawrogiad o'n treftadaeth adeiledig.	Nifer y mentrau dehongli / addysgol yn gysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig	Pedair o fentrau dehongli / addysgol yn gysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig	Adran Gynllunio CBS Conwy ac Adrannau eraill / Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri ac Adrannau eraill / ysgolion / Coleg Llandrillo

8.9.3 Amgylchedd Lân ac Iach

Y Datganiad Cenhadaeth ar gyfer amgylchedd lan ac iach ydi 'cynnal amgylchedd sy'n lanach, yn fwy iach ac yn fwy diogel er budd pawb; y gymuned, gweithwyr ac ymwelwyr Conwy' Cyflawnir hyn trwy'r amcanion canlynol:

Amcanion	Dangosyddion	Targed	Cyfrifoldeb
Sicrhau bod ansawdd aer, tir a dŵr yn cyflawni safonau cenedlaethol.	Monitro canlyniadau Adroddiadau Adolygu Rheoli Ansawdd Aer Gwobrwyon Glan-y-môr Cofrestr Tir Halogedig	Targedau a osodwyd yn genedlaethol.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Asiantaeth yr Amgylchedd
Sicrhau bod y bwyd rydym yn ei brynu'n addas i'w fwyta.	Ystadegau gwenwyn bwyd. Canran eiddo risg-uchel a archwiliwyd		Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Asiantaeth Safonau Bwyd Bwrdd Iechyd Lleol Conwy
Sicrhau bod yr amgylchfyd gwaith yn ddiogel.	Ystadegau damweiniau yn y gwaith	Lleihau nifer y diwrnodau a gollwyd o'r gwaith oherwydd damweiniau ac anafiadau.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Lleihau nifer yr achosion o gŵn yn baeddu a sbwriel yn yr amgylchedd.	Arolygon cŵn yn baeddu a sbwriel. Nifer y cwynion a dderbyniwyd.	Cynllun Gweithredu yn weithredol erbyn 2007.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Addysgu a hysbysu pawb yng Nghonwy ynghylch cyflwr presennol yr amgylchedd a sut gallant wneud gwahaniaeth.	Nifer y gweithgareddau addysgol/hyrwyddo a wnaed Canlyniadau monitro.	Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno yn weithredol erbyn 2007.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Asiantaeth yr Amgylchedd Bwrdd Iechyd Lleol Conwy

8.9.4 Diwylliant a Hamdden

Y datganiad cenhadaeth ar gyfer diwylliant a hamdden ydi 'gwella ansawdd bywyd pobl Conwy trwy ddatblygu gweithgareddau a chyfleoedd hamdden a diwylliannol fforddiadwy o safon uchel naill ai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth â sectorau cymunedol, gwirfoddol a phreifat ar draws y Fwrdeistref Sirol.' Cyflawnir hyn trwy'r amcanion canlynol:

Amcanion	Dangosyddion	Targed	Cyfrifoldeb
Datblygu gweithgareddau diwylliannol a hamdden fforddiadwy o safon uchel.	Nifer o weithgareddau wedi'u trefnu.	Cyfrifwyd llinell sylfaen 2006/7 Cynnydd o 10% erbyn 2007/8 25% erbyn 2009/10	Llyfrgelloedd, Gwybodaeth a Diwylliant a Gwasanaethau Hamdden a Datblygiad Cymunedol
Sicrhau bod gweithgareddau'n cyflawni anghenion a dyheadau cymuned amrywiol Conwy.	Bodlonrwydd â gweithgaredd trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau ymgyngori/cyfranogiad.	Bodlonrwydd o 75% ymysg y rhai yr ymgynghorwyd â hwy 2006/7 80% 2007/8 85% erbyn 2009/10	Llyfrgelloedd, Gwybodaeth a Diwylliant a Gwasanaethau Hamdden a Datblygiad Cymunedol

Cynyddu cyfraniad mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden.	Nifer y bobl sydd wedi cyfrannu, wedi'i ddadansoddi ar sail ardaloedd cymunedol.	Cyfrifwyd llinell sylfaen 2006/7 Cynydd o 10% erbyn 2007/8 25% erbyn 2009/10	Llyfrgelloedd, Gwybodaeth a Diwylliant a Gwasanaethau Hamdden a Datblygiad Cymunedol
Cefnogi datblygiad amgylcheddau gweithgar – llwybrau beicio, llwybrau troed a manau agored.	Nifer y bobl o fewn taith gerdded o 10 munud.	95% o drigolion o fewn taith 10 munud	Llyfrgelloedd, Gwybodaeth a Diwylliant a Gwasanaethau Hamdden a Datblygiad Cymunedol

8.9.5 Tai

Y datganiad cenhadaeth ar gyfer tai ydi i 'greu cyfle i drigolion fyw mewn tai fforddiadwy o ansawdd da, a'u bod yn gallu dewis lle i fyw a phenderfynu ai prynu neu rentu sydd orau iddynt hwy a'u teuluoedd. Dylai cartrefi ar draws yr holl ddaliadaethau fod wedi'u cynnal yn dda; yn effeithlon o ran ynni a diogel a dylai'r sector rhent fod wedi'i reoli'n dda.' Cyflawnir hyn trwy'r amcanion canlynol:

Amcanion	Dangosyddion	Targed	Cyfrifoldeb
Cynyddu'n sylweddol y cyflenwad o gartrefi fforddiadwy i gyflawni'r angen lleol a nodwyd.	Sefydlu a datblygu prosesau i asesu'r galw lleol am dai fforddiadwy.	Cynnal Asesiad Tai Lleol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad erbyn Ionawr 2007.	Tîm Strategaeth Dai
	Defnyddio i'r eithaf gytundebau adran 106 i ddarparu tai fforddiadwy.	Sefydlu Canllawiau Cynllunio Atodol effeithiol.	Tîm Strategaeth Tai/Cynllunio
	Atal a lleihau digartrefedd yng Nghonwy.	Cynyddu nifer yr achosion lle caiff digartrefedd ei atal. Lleihau'r defnydd o Wely a Brecwast yn unol â deddfwriaeth.	Tîm Cefnogi/Opsiynau Tai
	Datblygu Strategaeth Cartrefi Gwag.	Lleihau nifer y cartrefu gwag yn y sir sy'n anaddas i fyw ynddynt.	Tîm Strategaeth Tai/Gorfodaeth Tai.
Gwella Safonau Tai ar draws yr holl ddaliadaethau.	Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar draws yr holl ddaliadaethau.	Cyflawni targedau Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth y Cynulliad.	Tîm Strategaeth Dai
	Sicrhau bod yr holl Dai Rhent Cymdeithasol yn cyflawni safon Ansawdd Tai Cymru.	Cwrdd â'r Safon erbyn 2012 – monitro'r cynnydd.	Gwasanaethau Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
	Sicrhau bod Anheddau'r Sector Rhent Preifat yn cael eu rheoli a'u cynnal i safon uchel.	Datblygu'r Cynllun Cofrestru Tai Amlfeddiannaeth (HMO). Gweithredu ac ehangu Adnewyddu Tai'n Seiliedig ar Ardal.	Gorfodaeth Tai.

Gwella safonau anheddau perchen feddiannydd.

Gweithredu Polisi Adnewyddu Tai presennol y Sector Preifat.

Gwasanaethau Technegol

8.9.6 Yr Amgylchedd Naturiol

Y datganiad cenhadaeth ar gyfer yr amgylchedd naturiol ydi ‘cadw a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol a hybu mwynhad a dealltwriaeth y cyhoedd ohono, a thrwy hynny wneud cyfraniad cadarnhaol i safon byw pobl.’ Cyflawnir hyn trwy’r amcanion canlynol:

Amcanion	Dangosyddion	Targed	Cyfrifoldeb
Cadw amrywiaeth cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion eraill sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig ein tirweddau lleol	% y nodweddion arbennig y mae safle dynodedig wedi'i nodi mewn "cyflwr ffafriol"	85% mewn cyflwr ffafriol erbyn 2013	CCGC
	Polisiau priodol ar gyfer diogelu bioamrywiaeth a thirweddau yn y Cynllun Datblygu Lleol	Polisiau yn eu lle a'r Cynllun wedi'i fabwysiadu erbyn 2009	CBSC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
	Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn effeithiol	80% o'r camau i'w gweithredu erbyn y dyddiad targed a nodwyd yn y cynllun	CBSC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, CCGC, RSPB
Hybu cyfraniad cymunedol a dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol	% yr ysgolion lleol sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau newydd ymarferol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol	10% yn uwch na'r ffigur sylfaenol 2006 erbyn 2014	RSPB, CBSC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Dŵr Cymru, Comisiwn Coedwigaeth
	Aelodaeth grwpiau gwirfoddol gweithgar yng Nghonwy	5% yn uwch na'r ffigur sylfaenol erbyn 2014	RSPB, Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru, CBSC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy

Hybu mynediad i gefn gwlad	Nifer defnyddwyr llwybrau a safleoedd a hyrwyddir	10% yn uwch na'r ffigur sylfaenol erbyn 2014	CBSC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Coed Cadw, RSPB, Comisiwn Coedwigaeth, Dŵr Cymru, Fforwm Mynediad Lleol
	% yr hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored ac sy'n hawdd eu defnyddio	Cynyddu o 16% i 50% erbyn 2014	CBSC, Fforwm Mynediad Lleol

8.9.7 Cludiant

Y datganiad cenhadaeth ar gyfer cludiant ydi 'darparu system gludiant integredig a diogel, sy'n helpu twf economaidd, yn cynyddu mynediad i bobl ac yn hybu cynhwysiant cymdeithasol mewn modd cynaliadwy, gyda chyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd.' Cyflawnir hyn trwy'r amcanion canlynol:

Amcanion	Dangosyddion	Targed	Cyfrifoldeb
Cynyddu'r defnydd a wneir o Gludiant Cyhoeddus.	Cynydd defnydd cludiant cyhoeddus. Llywodraeth Cynulliad Cymru. % oedolion 60+ oed â thocyn consesiynau teithio.	Gosod targedau 1 Ebrill bob blwyddyn (adrodd ffurfiol 12 mis yn ddiweddarach)	CBSC, Llywodraeth y Cynulliad, Cyngorau Cyfagos, Gweithredwyr Cludiant Cyhoeddus, Cludiant Cymunedol Conwy, Defnyddwyr Bysiau DU, Cymdeithas Ddinesig Dyffryn Conwy
Hybu mwy o feicio a cherdded.	Cynyddu hyd llwybrau beicio yn y Bwrdeistref Sirol.	Gosod targedau 1 Ebrill bob blwyddyn (adrodd ffurfiol 12 mis yn ddiweddarach)	CBSC, Llywodraeth y Cynulliad, Parc Cenedlaethol Eryri, Sustrans, Clwb Teithio Beicwyr, CCGC, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas y Cerddwyr, Cymdeithas i Gerddwyr (PA), Cymdeithas Ceffylau Prydain, Cyngor Chwaraeon Cymru
Cynnal llif traffig rhwydd a lleihau tagfeydd.	Cyflwyno Gorfodaeth Parcio wedi'i Ddadgrimalleiddio.	Medi 2006.	CBSC, Llywodraeth y Cynulliad, Cyngorau Cyfagos, AD, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Mynediad Gwirfoddol Cymru
Gwella diogelwch ffyrdd a lleihau damweiniau ffyrdd.	Cwblhau Cynlluniau Llwybrau Mwy Diogel i'r Ysgol a Diogelwch Ffyrdd.	Nifer y cynlluniau a gwblhawyd. Gostyngiad o 40% mewn KSI erbyn 2010.	CBSC, Llywodraeth y Cynulliad, Heddlu Gogledd Cymru
Gwella a chynnal y Rhwydwaith Priffyrdd i safon dderbyniol.	Mesur cyflwr priffyrdd a ffyrdd dosbarthedig sydd heb fod yn brif ffyrdd.	Gosod targedau 1 Ebrill bob blwyddyn (adrodd ffurfiol 12 mis yn ddiweddarach)	CBSC, Llywodraeth y Cynulliad, Cyngorau Tref a Chymuned, Parc Cenedlaethol Eryri, AD, Cadw

8.9.8 Rheoli Gwastraff

Y datganiad cenhadaeth ar gyfer rheoli gwastraff ydi 'datblygu a gweithredu Strategaeth Wastraff integredig i Gonwy fydd yn cyflawni anghenion, dyheadau a delfrydau'r gymuned ac a fydd yn sicrhau bod Conwy'n cyrraedd yr holl dargedau gwastraff cenedlaethol ac Ewropeaidd ac yn gweithredu fel arweinydd

cymunedol o safbwynt materion yn gysylltiedig â gwastraff.' Cyflawnir hyn trwy'r amcanion canlynol:

Amcanion	Dangosyddion	Targed	Cyfrifoldeb
Nod pennaf y rhaglen rheoli gwastraff yw datblygu a chefnogi lleihau gwastraff lle bo hynny'n ymarferol bosibl.	Lleihau gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Canran ffigur sylfaenol 2001 ar gyfer safleoedd tirlenwi	Targed yn seiliedig ar leihau'r tunelli a roddir mewn safleoedd tirlenwi fel a ganlyn: 85% o ffigur sylfaenol 2001 erbyn 2004/5 75% o ffigur sylfaenol 2001 erbyn 2006/7 60% o ffigur sylfaenol 2001 erbyn 2009/10	Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol
Yn ail ceisio atal cymaint â phosibl o wastraff rhag mynd i safleoedd tirlenwi trwy wahanu gwastraff a gwneud defnydd arall ohono, drwy ei drin, ei brosesu neu ei ailgylchu.	Canran y gwastraff sy'n cael ei gompostio, ei ailgylchu a'i atal rhag mynd i safleoedd tirlenwi.	15% wedi'i gyfuno erbyn 2003/4 25% erbyn 2006/7 40% erbyn 2009/10	Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol
Gweithio tuag at leihau'r gwastraff a gynhyrchir gan bob aelwyd	Cyfartaledd pwysau gwastraff a gynhyrchir gan bob aelwyd.	Sicrhau nad yw'r cynnydd blynyddol mewn gwastraff yn uwch na 4%.	Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol

Mae Strategaeth Amgylchedd o Safon Conwy yn dilyn ymlaen ar y themâu a amlygwyd yn Strategaeth Gymunedol Conwy a'u datblygu ymhellach mewn perthynas â safon yr amgylchedd. Bydd darparu'r nodau ac amcanion hyn yn cynnwys nifer o wahanol gyrf ff yn gweithio'n integredig, lle bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn chwarae rhan allweddol.

8.10 Rhaglen Gweithredu dros Gonwy 2005 - 2015

8.10.1 Mae'r Strategaeth Adfywio yn cynnwys atodiad i'r enw 'Rhaglen Gweithredu dros Gonwy', sy'n amlinellu mewn mwy o fanylion y deuddeg Maes Gweithredu a amlinellwyd yn y Strategaeth Adfywio. Mae'r Meysydd Gweithredu hyn yn ffurfio rhan o'r weledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol hyd at 2015. Mae'r atodiad yn amlinellu'r rolau y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn ei chwarae o ran cyflawni'r Meysydd Gweithredu, gan gynnwys rôl Cynllunio. Bydd gan yr eitemau canlynol o'r 12 Maes Gweithredu effaith uniongyrchol ar waith y CDLI:

CAM GWEITHREDU II - Adfywio Bae Colwyn
Datblygu cynllun adfywio integredig ar gyfer canol tref Bae Colwyn
CAM GWEITHREDU III – Annog twf busnesau gwerth uchel
Sicrhau bod safleoedd â gwasanaethau addas, gan gynnwys unedau cynnal ar gael i gefnogi sefydliad a thwf busnesau gwerth uwch.
Hyrwyddo, ar y cyd â'r Grŵp Geo-wyddorau, leoliad Conwy fel Canolfan

Ragoriaeth Geo-Wyddorau yn y DU.
CAM GWEITHREDU IV – Datblygu delwedd forol y Sir
Amlygu safleoedd ar gyfer mwy o gyfleusterau angori ar hyd arfordir Conwy gydag isadeiledd a gwasanaethau cefnogi cysylltiedig.
Gwella cyfleusterau (gan gynnwys cyfleusterau newid) ar gyfer chwaraeon arfordir a mewndirol er mwyn denu mwy o bobl sy'n frwdfrydig am chwaraeon dŵr.
Datblygu cyfleusterau peirianeg morol yn ai ym Mhenmaenmawr neu Bae Cinmel/ Tywyn.
CAM GWEITHREDU V – Uwchraddio apêl y Sir fel cyrchfan twristiaeth busnes
Sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden, diwylliant a chelfyddydau o ansawdd gan arlwyio ar gyfer y farchnad twristiaeth busnes.
Annog datblygiadau gwestai cynadledda o ansawdd uchel i ategu at y ddarpariaeth bresennol.
Parhau i ddatblygu mannau cyhoeddus agored a mannau tir glas o fewn canol trefi a phromenadau.
Gweithio tuag at greu cysylltiadau cludiant cyhoeddus effeithiol.
Datrys problemau rheoli traffig a pharcio gan gynnwys cyfleusterau parcio aml-lawr a pharcio a theithio.
Helpu'r sector gwestai gymryd mantais lawn o'r cyfleusterau cynadledda gwell trwy uwchraddio'r cyfleusterau i gwrdd â disgwyliadau ymwelwyr busnes.
Datblygu mesurau cefnogaeth i warchod y niferoedd gwelyau y mae angen mawr amdanynt.
Annog datblygiadau gwestai gan arlwyio ar gyfer y nifer estynnol o swyddfeydd yn ardal Cyffordd Llandudno/ Bae Colwyn.
Annog datblygu bwytai a chyfleusterau adloniant gyda'r nos eraill.
CAM GWEITHREDU VI – Cadw pobl ifanc
Sicrhau y darperir cyfleusterau hamdden ac adloniant atyniadol o ansawdd uchel i bobl iau.
Ystyried eiddo gwag yng Nghonwy a datrysiadau arloesol eraill o ran darparu tai fforddiadwy.
Gwella cysylltiadau cludiant cyhoeddus rhwng cymunedau gwledig ac o fewn trefi arfordirol
Darparu cyfleusterau cynnal ar gyfer mentrau ifanc.
CAM GWEITHREDU VII – Helpu busnesau lleol i dyfu
Helpu i recriwtio a chadw staff trwy ddarparu tai mwy fforddiadwy
Datrys rheoli traffig a mannau parcio.
Gwella llwybrau cludiant cyhoeddus i ac o fannau gwaith a manwerthu.
Sicrhau bod yna gyflenwad digonol a pharod o safleoedd ac eiddo o fewn y Sir i ddarparu ar gyfer busnesau'n ymestyn.
CAM GWEITHREDU VIII – Adeiladu capasiti ar gyfer y sector gwirfoddol
Cynyddu ystent Cludiant Cymunedol o fewn y Sir.
CAM GWEITHREDU X – Datblygu rhwydwaith cludiant integredig
Annog y defnydd o gludiant cyhoeddus a llwybrau beicio ar gyfer teithio o gartref i'r ysgol.
Sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn cael eu hystyried gan gadw mewn cof argaeledd cludiant cyhoeddus.
Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni nawdd ar gyfer pyrth cludiant cyhoeddus mewn lleoliadau busnes a thwristiaeth allweddol yn y Sir.
Gwarchod a gwella llwybrau craidd ar gyfer bysus teithio i'r gwaith. Adolygu llwybrau er mwyn gwneud teithio ar fws yn fwy cyfeillgar ac yn fwy uniongyrchol.

Parhau i hyrwyddo a datblygu cysylltiadau llwybrau beicio o gwmpas y sir i gynnwys darparu cyfleusterau cawod a newid.
Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau parcio aml-lawr a pharcio a theithio yn Llandudno.
Annog gwell defnydd o gyfleusterau cludiant cyhoeddus fel modd a ffafrir o ran cyrraedd lleoliadau allweddol.
Gwella cysylltiadau cludiant cyhoeddus rhwng cymunedau gwledig a threfi arfordirol, ochr yn ochr â gwelliannau priffyrdd mwy cyffredinol.
CAM GWEITHREDU XI - Hyrwyddo Conwy fel cyrchfan twristiaeth iach
Datblygu ac uwchraddio cyfleusterau hamdden a chelfyddydau o ansawdd uchel.
Archwilio'r potensial ar gyfer adeiladu llwybrau beicio/ cerdded a llwybrau ceffylau (9efo cyfleusterau newid) ar hyd afonydd Conwy a Chlwyd.
CAM GWEITHREDU XII - Magu hyder o fewn cymunedau gwledig
Gwella mynediad priffyrdd ar lwybrau allweddol i gefn gwlad Conwy

8.10.2 Bydd y Meysydd Gweithredu hyn yn effeithio ar baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Er enghraifft, bydd 'helpu busnesau lleol i dyfu' yn cynnwys sicrhau bod cyflenwad digonol a pharod o safleoedd yn bodoli eisoes o fewn y Fwrdeistref Sirool er mwyn cyflawni'r amcan o gynyddu'r nifer o fusnesau newydd, yn enwedig busnesau gwerth uwch.

8.11 **Strategaeth Tai Lleol ar gyfer Conwy 2008-2012**

8.11.1 Mae'r Strategaeth Tai Lleol yn disodli Strategaeth Tai Lleol flaenorol 2004 ar gyfer Conwy ac yn amlinellu gweledigaeth tymor hir ar gyfer Conwy ynglŷn â sut y gellir diwallu anghenion a dyheadau tai pobl. Mae'r strategaeth yn cofnodi llwyddiannau allweddol ers cyhoeddi'r Strategaeth flaenorol yn 2004 ac yn cydnabod ar yr un pryd fod problemau cyflenwi tai yn parhau i fod yn ddifrifol yn y Fwrdeistref Sirool. Nod y strategaeth yw adeiladu ar y rhain drwy greu cyfleoedd i drigolion fyw mewn tai fforddiadwy o safon dda.

8.11.2 Mae'r Strategaeth yn cydnabod y bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn holl bwysig o ran amlinellu datblygiad tai i'r dyfodol drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol ac yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu a chynnal y cysylltiadau rhwng y Strategaeth Tai Lleol a'r CDLI. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod angen i dir ac adeiladau gael eu rhyddhau drwy'r CDLI i ddenu cyfleoedd cyflogaeth a chyfrannu tuag at ddarparu tai fforddiadwy a fydd yn denu ac yn cadw pobl ifanc yma.

8.12 **Strategaeth Cefn Gwlad Conwy 1998 – 2003**

8.12.1 Nid yw'r strategaeth hon bellach mewn grym. Yn ei lle mae yna restr gynhwysfawr o nodau ac amcanion ar gyfer y Gwasanaeth Cefn Gwlad, ynghyd ag amcanion ehangach perthnasol a amlygwyd yn Strategaeth Gymunedol Conwy a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, mae dal yn darparu trosolwg hanesyddol defnyddiol o agwedd y Cyngor Bwrdeistref Sirol tuag at faterion rheoli cefn gwald.

8.12.2 Amcan y gwasanaeth cefn gwlad ydi **'cynnal a gwella amgylchedd naturiol y Fwrdeistref Sirol (yn bennaf tu allan i'r Parc Cenedlaethol), ac i hyrwyddo ei fwynhad a'i ddealltwriaeth i'r cyhoedd'**. Mae yna 6 amcan allweddol sy'n helpu cyflawnir amcan gyffredinol. Maent fel a ganlyn:

- **Rheoli safleoedd** ar gyfer cadwraeth a mwynhad y cyhoedd, ac i gynnal y safleoedd hynny mewn safon dda, gyda'r cynlluniau rheoli neu ddatganiadau diweddaraf wedi eu sefydlu ac yn cael eu gweithredu.
- **Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau** trwy: Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy; darparu canllaw a chyngor; rheoli safleoedd a phrosiectau arbennig.
- Cyfrannu at gynnal a gwella nodweddion pwysig ein **tirweddau lleol** fel coetiroedd, coedwigoedd, cloddiau a waliau cerrig sych.
- **Hyrwyddo mynediad i gefn gwlad** a sicrhau bod y llwybrau cerdded sy'n cael eu hyrwyddo gan y Gwasanaeth yn cael eu cynnal a bod yna arwyddion yn dangos y ffordd ynghyd â darpariaeth ddeongliadol ddiweddaraf.
- **Peri gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd** o'n cefn gwlad a'r amgylchedd naturiol trwy fentrau addysg deongliadol ac amgylcheddol.
- **Hyrwyddo cynnwys y cyhoedd** mewn rheoli'r amgylchedd naturiol leol, gan gynnwys gwirfoddolwyr unigol a grwpiau cymunedol.

8.13 **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy**

8.13.1 Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn ymwneud i raddau helaeth â chadwraeth a gwella pob math ar fioamrywiaeth y tu mewn i Ardal y Cynllun. Diffinnir bioamrywiaeth fel 'amrywiaeth o fywyd' ac mae gwarchod amrediad o rywogaethau a'u cynefinoedd yn hollbwysig.

8.13.2 Mae'r cynllun wedi'i rannu i nifer o adrannau sy'n trafod y Cynlluniau Gweithredu a ganlyn:

- Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd – cynlluniau gweithredu ar gyfer mathau penodol o dirwedd gan amrywio rhwng twyni tywod yr arfordir a llecynnau glas yn y dref.
- Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau – cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau pwysig fel y dylluan wen a llygoden y dŵr.
- Cynlluniau Gweithredu Pynciol – cynllun rheoli i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad ymysg aelodau'r gymuned.

8.13.3 Mae'r cynllun yn cynnwys rhestr o'r amcanion allweddol a ganlyn i gyflawni'r nod cyffredinol, sef cynnal a gwella bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- Diogelu, cynnal a gwella niferoedd a dosbarthiadau rhywogaethau o bwysigrwydd lleol a chenedlaethol a chadw eu hamrywiaeth genetigol.
- Diogelu, cynnal a gwella cynefinoedd ac ecosystemau naturiol a rhannol naturiol.
- Creu cynefinoedd newydd ac adfer safleoedd a ddiraddiwyd yn amgylcheddol er budd bywyd gwylt.
- Sicrhau nad yw'r polisiau a'r arferion presennol yn niweidio bioamrywiaeth a niferoedd naturiol lleol ond yn helpu i'w cadw a'u cynyddu.
- Cydweithio'n gadarnhaol gyda ffermwyr a thirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill i gefnogi bioamrywiaeth ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan gynnig cyngor a chymorth lle bo'n briodol.
- Codi ymwybyddiaeth ymysg dinasyddion Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â bioamrywiaeth a phwysigrwydd bioamrywiaeth.
- Hybu cyfranogiad cymunedol yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) Conwy.
- Integreiddio'r LBAP Conwy i broses UKBAP.
- Ceisio nawdd ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth yng Nghonwy.
- Monitro effeithiolrwydd yr LBAP a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddogfen waith ddiweddar.

- 8.13.4 Dyma grynodedb o brif oblygiadau'r cynllun gweithredu o ran defnydd tir:
- Bydd rhaid ymateb i'r galw am ddatblygu gan sicrhau ar yr un pryd nad effeithir ar ansawdd yr amgylchedd.
 - Dylid annog pobl i ddefnyddio dulliau cludiant mwy cynaliadwy.
 - Dylid gwarchod, cynnal a gwella cynefinoedd ac ecosystemau naturiol a lled-naturiol.
 - Dylid creu cynefinoedd newydd ac adfer safleoedd lle mae'r amgylchedd wedi dirywio er budd bywyd gwyllt.
 - Dylid sicrhau nad yw polisïau ac arferion cyfredol yn niweidiol i fioamrywiaeth leol a phoblogaethau naturiol ond yn hytrach yn cyfrannu tuag at eu gwarchod a'u gwella.

8.14 **Adroddiad Coed Conwy 2003**

- 8.14.1 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym mis Medi 2003 er mwyn asesu ansawdd y coed i'w torri yng nghoetiroedd Conwy, ac i ba raddau maent yn cael eu rheoli. O safbwynt polisi cyffredinol, mae gwarchodaeth coetiroedd yn weddol unffurf ac ymdriniwyd â'r maes eisoes yn y dadansoddiad o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy. Y prif gasgliadau ar gyfer defnydd o dir a ddeilliai o'r adroddiad hwn oedd bod mwyafrif helaeth y coed o safon isel neu ganolig ac yn cael eu rheoli'n wael fel arfer. Felly, argymhellir systemau rheoli effeithiol ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau gwell ansawdd; mae hyn yn ganfyddiad sydd yn unol â'r angen am ynni adnewyddadwy a nodir yn NCT8 a gallai gynorthwyo yn y gwaith o gynhyrchu ynni o fomas yn yr ardaloedd gwledig.

8.15 **Cynllun Lleol Gweithredu Dros Gymunedau Gwledig Conwy**

- 8.15.1 Sefydlwyd Partneriaeth Wledig Conwy yn 2000 a'i swyddogaeth yw gweithio ochr yn ochr â'r cymunedau gwledig i ddatblygu amryw o fentrau economaidd a chymdeithasol er budd cymunedau lleol.
- 8.15.2 Gweledigaeth gyffredinol y cynllun yw 'cymunedau lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld; cymunedau lle mae mynediad i gyfleoedd a buddion economaidd, amgylchedd dymunol a diogel a rhwydweithiau cymuned cymdeithasol gweithgar a chynhwysol.'

8.15.3 Prif nod y cynllun yw gwella egni economaidd yr ardaloedd gwledig trwy ddefnyddio mentrau datblygu economaidd cymunedol ledled y cymunedau gwledig. Mae gwybodaeth, felly, am unrhyw oblygiadau penodol o ran defnydd tir yn Ardal y Cynllun yn gyfyngedig. Er hynny, cydnabyddir bod angen i'r cynllun ddiogelu amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol cymunedau gwledig a bod ag ymwybyddiaeth o hynny.

8.16 **Cynllun Cludiant Lleol CBSC 2001 - 2006**

8.16.1 Mae'r Cynllun Cludiant Lleol yn amlinellu sut y byddai'r awdurdod yn ymwneud â materion cludiant hyd at 2006 ond mae wedi'i ddisodli gan Gynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru a gyfeiriwyd ato'n gynharach.

8.17 **Strategaeth Conwy Iach 2008 - 2011**

8.17.1 Ysgrifennwyd y Strategaeth hon mewn ymateb i Adran 40 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Roedd hon yn gofyn i bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol yng Nghymru i lunio strategaeth ar y cyd ar gyfer iechyd a lles y boblogaeth leol a'i chadw mewn cof wrth gyflawni eu swyddogaethau.

8.17.2 Amcan y strategaeth ydi 'galluogi datblygu cymunedau iach a gofalgarn trwy ganolbwyntio ar atal salwch, hyrwyddo iechyd da ac annog hunan-help'. Mae'r themâu yn cynnwys tai a darparu cyfleusterau ar gyfer ystod eang o bobl efo anghenion unigol.

8.17.3 Yn gyffredinol, mae crynodeb isod o nodau ac amcanion defnydd tir Strategaeth Conwy Iach:

- Sicrhau datblygu tai priodol, fforddiadwy sy'n gysylltiedig ag angen unigol a dewis.
- Gwella'r ddarpariaeth o dai â chefnogaeth a adeiladwyd yn bwrpasol i gwrdd ag anghenion pobl ddiamddiffyn.
- Datblygu pedair Canolfan Iechyd Sylfaenol a Gofal Cymdeithasol arall yn y Sir.

8.17.4 Yn gyffredinol, prif ffocws Strategaeth Conwy Iach yw ymagwedd partneriaeth gyda'r nod cyffredinol o wella iechyd pobl Conwy. Mae'r strategaeth yn plethu

mewn â strategaethau eraill, gan gynnwys y Strategaeth Gymunedol, y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a'r CDLI.

8.18 **Strategaeth Hamdden a Datblygiad Cymunedol Conwy 2006 - 2010**

- 8.18.1 Mae'r strategaeth hon yn dilyn Strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan yr enw '*Dringo'n Uwch*'. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio pwysigrwydd chwaraeon a hamdden o safbwynt lleol, lle cydnabyddir fod hamdden a chwaraeon yn 'uno pobl o bob oed o wahanol gefndiroedd; ac mae'n helpu i hybu gwaith tîm, gallu creadigol, cyfrifoldeb a ffyrdd o fyw iach'.
- 8.18.2 Rhoddir blaenoriaeth i gynigion ar gyfer chwaraeon a chyfleusterau cymunedol a chanfyddir adnoddau er mwyn caniatáu i ddarpariaethau ar gyfer y gwasanaeth fynd rhagddynt.
- 8.18.3 Mae tir agored yn parhau i fod yn fater o bwys. Rhaid cynnal cydbwysedd rhwng yr angen am dir ar gyfer datblygiadau newydd ar y naill law a chadw rhwydwaith o fannau agored a chaeau chwarae sydd yn cyfrannu'n allweddol at ansawdd bywyd yn Ardal y Cynllun ar y llall.
- 8.18.4 Mae darparu meysydd chwarae yn bwysig er mwyn ymdrin â'r prinder presennol. Mae angen dyraniadau yn y Cynllun er bod y strategaeth yn cydnabod nad oes fawr o obaith o wireddu'r gobeithion yn y maes hwn ar hyn o bryd.
- 8.18.5 Mae angen darpariaeth gytbwys ac addas ar gyfer cyfleusterau hamdden ledled Ardal y Cynllun, gan gynnwys yr ardaloedd gwledig.
- 8.18.6 Ystyrir mannau chwarae i blant yn elfen hanfodol o fyw mewn tref ac maent yn brin ar hyn o bryd. Yn ôl y polisi presennol mae dyletswydd ar ddatblygiadau preswyl o faint sylweddol i gynnwys mannau chwarae, ac oni fo hynny'n ymarferol, rhaid gwneud cyfraniad ariannol.
- 8.18.7 Mae 11 safle dynodedig mewn gwahanol fannau ar gyfer rhandiroedd ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth Hamdden a Datblygu Cymunedol, wrth ddarparu

rhandiroedd er mwyn hyrwyddo byw'n iach, yn anelu at gynnig gwasanaeth cost-
effeithiol i'r cyhoedd.

8.18.8 Mae angen darparu cyfleusterau cytbwys ac addas ledled Ardal y Cynllun. Ni ddylid creu darpariaeth ychwanegol y tu hwnt i'r stoc bresennol o dir oni ellid profi fod angen hynny ac y byddai'n cydweddu â'r ddarpariaeth bresennol. Dylid defnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer datblygiadau newydd:

- A fydd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a gweithgarwch corfforol?
- A yw er lles y cyhoedd ac a ddaw budd i'r gymuned?
- A fydd yn ariannol hyfyw ac a fydd yn denu arian partneriaeth?
- A fydd yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd yr ardal yn y tymor hir?
- A yw'n dangos cyfraniad amlwg at y rhaglen gymdeithasol ehangach?
- A yw'r gymuned yn ei gefnogi?
- A yw'n unol ag agenda'r Cyngor a LICC?
- A yw'n cefnogi gwasanaethau eraill yn yr ardal?
- A yw'n lleihau unrhyw ddiffyg yng nghyfleusterau'r ardal?

8.18.9 I gloi, mae cyfleusterau cymunedol, megis llecynnau agored a hamdden, caeau chwarae, rhandiroedd a chyfleusterau hamdden yn cyfrannu'n sylweddol at les cymdeithasol cymunedau. Dylid adolygu'r ddarpariaeth a lleoli'r cyfleusterau mewn mannau strategol ar hyd a lled Ardal y Cynllun, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig lle ceir ymdeimlad cryf o gymuned leol.

8.19 **Strategaeth Ddiwylliannol Ddrafft Ar Gyfer Conwy 2004 – 2009**

8.19.1 Lluniwyd y strategaeth hon er mwyn sicrhau bod ymagwedd gydlyned at gynllunio, darparu a chyflwyno amrediad o weithgareddau diwylliannol yn Ardal y Cynllun.

8.19.2 Mae'r strategaeth yn ymwneud i raddau helaeth â chodi ymwybyddiaeth am y gweithgareddau diwylliannol amrywiol sydd yn bodoli yn Ardal y Cynllun ac â hyrwyddo'r cyfryw weithgareddau. O ran defnydd o dir, fodd bynnag, mae'r strategaeth yn dweud bod angen defnyddio cyfleusterau addysgol ac eraill i gefnogi'r ddarpariaeth ddiwylliannol bresennol.

8.19.3 Mae potensial gwledig cefn gwlad yn fater allweddol oherwydd y gellir manteisio ar gyfleoedd i ymwelwyr er mwyn lleihau'r pwysau ar y trefi glan môr; dyma ffactor sy'n cael ei phwysleisio yn Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru.

8.20 **Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Conwy 2005 - 2008**

8.20.1 Datblygwyd yr adroddiad gan Dîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau (SMAT) gydag un nod yn unig, sef adnabod y diffygion presennol yn y gwasanaeth sy'n angenrheidiol i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau. Nid oes gan yr adroddiad lawer o oblygiadau ym maes cynllunio'r defnydd o dir. Un pwynt sydd yn cael ei bwysleisio, fodd bynnag, yw angen yr ardal am gyfleuster cyfnewid nodwyddau ym Mae Colwyn, ynghyd â chyfleusterau Lleihau Niwed. Bydd ceisiadau ar gyfer y rhain yn cael eu hasesu ar eu cymhwyster gan ddefnyddio'r polisïau yn y CDLI.

8.21 **Crynodeb o Gynllun Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy Ebrill 2009 i Mawrth 2010**

8.21.1 Mae Adran 17 Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 yn gorfodi pob awdurdod lleol i ystyried troseddau ac anhrefn ym mhob agwedd o'u gwaith. Daeth Cynllun Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Conwy yn lle Strategaeth Diogelwch Cymunedol 2005-2008, sy'n cael ei adolygu bob mis Mawrth. Mae yna ddau faes sy'n berthnasol i'r CDLI a'r rheiny ydi cynyddu'r defnydd o TCC ac arwyddion i ostwng lefelau trosedd yn y Fwrdeistref;

8.21.2 **Defnydd effeithiol o Wylidwriaeth TCC**

Mae gan TCC rôl bwysig i'w chwarae mewn gostwng trosedd yn ein canol trefi a byddwn yn ceisio adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes trwy weithio mewn partneriaeth. Bydd rôl TCC hefyd yn cael ei estyn i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd a bydd yn effeithiol mewn taclo gollwng sbwriel, caniatáu cŵn i faeddu a thipio anghyfreithlon.

8.21.3 **Arwyddion Effeithiol**

Mae gosod rheolau yn dechneg effeithiol i atal troseddau. Bydd Ardaloedd â Rheolau Alcohol a mannau 'poeth' ar gyfer troseddau Amgylcheddol fel gollwng

sbwriel, gadael i gŵn faeddu, tipio anghyfreithlon a graffiti â'r arwyddion a'r orfodaeth briodol.

8.22 **Prif Gynllun Cyffordd Llandudno 2009**

8.22.1 **Cyflwyniad**

Ym mis Medi 2007, penodwyd URBED gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Adran Economi a Chludiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi Prif Gynllun ar gyfer Cyffordd Llandudno. Cafwyd yr adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2009 a chafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau ar 23 Medi a gan Gabinet Cyngor Conwy ar 13 Hydref 2009. Y penderfyniad oedd cefnogi egwyddorion ehangach y Prif Gynllun.

8.22.2 **Ardal/ Ystâd Ddiwydiannol Tremarl**

Amcanion Allweddol:

- Darparu unedau modern a gofod gwaith ar gyfer defnyddiau diwydiannol a gweithdai o ochr uwch; yn cynnwys busnesau cysylltiedig â gwerthu, adeiladu, a thrwsio cerbydau (gyda defnyddiau ochr isel yn cael eu hadleoli i eiddo mwy addas.)
- Gwella hygyrchedd, ansawdd amgylcheddol ac amwynder y stad ddiwydiannol er mwyn creu ffyrntiad amlwg o ansawdd uchel ar hyd Ffordd Conwy a Ffordd Maelgwyn- trwy lwybrau troed a llwybrau beicio deniadol a diogel.
- Creu amgylchedd o ansawdd uchel ger Cylchdro'r Black Cat
- Darparu gofod swyddfa newydd
- Gwella cysylltiadau a chroesfannau cerddwyr
- Integreiddio celf gyhoeddus leol fel nodweddion porth

Disgrifiad o argymhellion y Prif Gynllun:

Cefnogi busnesau (yn enwedig y rhai mewn sectorau allweddol) ar Stad Ddiwydiannol Tremarl:

- Cyngor adleoli.
- Hyfforddiant. Recriwtio.
- Ffocws neilltuol ar annog busnesau i gymryd prentisiaid ifanc ac ar sicrhau bod cwmnïau lleol yn cael budd o weithgaredd datblygu.

Amcanion a ragwelir ar gyfer y safle:

Ystâd ddiwydiannol efo busnesau wedi eu lleoli yn yr eiddo priodol i uchafu eu heffeithiolrwydd. Mae yna ffocws penodol ar annog busnesau i gyflogi prentisiaid ifanc, gan sicrhau bod cwmnïau lleol yn elwa o weithgarwch datblygu.

8.22.3 **Dwyrain y Stryd Fawr**

Amcanion Allweddol

- I gyflwyno gwelliannau amgylcheddol ar hyd y stryd fawr i gysylltu'r orsaf â'r datblygiad Cynulliad Cymru newydd
- I annog siop fwyd newydd yng nghanol y dref ar gyfer siopwyr lleol

Disgrifiad o argymhellion y Prif Gynllun:

Datblygiad defnydd cymysg gerllaw safle garej Esso ar ben dwyreiniol y Stryd Fawr.

Amcanion a ragwelir ar gyfer y safle:

Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau wedi symud ar hyd y Stryd Fawr gan gysylltu ardal datblygiad y Point. Mae'r siopau'n ffynnu ac mae gweithgaredd yn digwydd o'r Orsaf i safle'r Point.

8.22.4 **Clwb Cymdeithasol a Chanolfan Ieuenctid**

Amcanion Allweddol:

- Creu canolfan gymuned leol yn cynnig llefydd hyblyg ac amlbwrpas ar gyfer grwpiau lleol, dosbarthiadau, clwb ieuenctid a chlwb cymdeithasol
- Creu canolfan gymuned newydd i weithredu fel canolbwynt ar gyfer pobl a gweithgarwch lleol

Disgrifiad o argymhellion y Prif Gynllun:

Datblygiad preswyl a darpariaeth cyfleuster cymunedol newydd

Amcanion a ragwelir ar gyfer y safle:

Mae'r clybiau'n ganolfannau ffyniannus o weithgaredd sy'n hwyluso anghenion y gymuned o amgylch, a chynnig amrediad gwych o wasanaethau i bob oed..

8.22.5 Esgyryn

Amcanion Allweddol:

- I ddarparu estyniad cynaliadwy i Gyffordd Llandudno wedi ei seilio ar egwyddorion arfer gorau dylunio ac adeiladu cynaliadwy.
- I greu safle defnydd cymysg gan integreiddio'n llwyddiannus tai, eiddo masnachol a mannau gwyrdd newydd.
- I ddarparu gofod swyddfa fodern o ansawdd uchel fel rhan o ganolfan economaidd newydd amgylch adeilad Cynulliad Cymru.
- I ddarparu cymysgedd o fathau o dai a daliadaeth ac arloesi â dyluniadau newydd cynaliadwy.
- I wella'r golygfeydd o'r safle i'r cefn gwlad o amgylch.
- I sicrhau mynediad rhagorol i 'r ardal a thrwy'r ardal ar droed, beic, bws a char.

Disgrifiad o argymhellion y Prif Gynllun:

Dynodi ardal ar gyfer datblygiad defnydd cymysg tymor hirach..

Amcanion a ragwelir ar gyfer y safle:

Safle integredig â defnydd cymysg gwirioneddol, yn cynnwys gofod preswyl, swyddfa a hamdden. Bydd oddeutu 355 o anheddau yn ôl 45 annedd fesul hectar ac oddeutu 30, 000 metr sgwâr o arwynebedd llawr masnachol. Bydd y 5 bloc swyddfa yn cael eu gosod agosaf at LICC ac yn dod â gweithgaredd ychwanegol i wella'r Stryd Fawr mewn termau cymdeithasol ac economaidd. Safle defnydd cymysg sydd â gofod swyddfa sy'n gweddu'n dda i swyddfeydd LICC a stad breswyl gyda 400 o anheddau ar 55 dph.

8.22.6 **Glan-Y-Môr**

Amcanion Allweddol:

- I adeiladu ar y busnesau yn yr ardal a chreu amgylchedd manwerthu arbenigol nodedig wedi ei seilio ar hynafolion sy'n gwella'r dreftadaeth sydd o amgylch yr adeiladau presennol.
- I greu ffocws i ben gorllewinol y dref a fyddai'n denu ymwelwyr a phreswylwyr fel ei gilydd.

Disgrifiad o argymhellion y Prif Gynllun:

Amlinellu'r safle fel annedd amldefnydd gan gynnwys datblygiad ailwampio ac adeiladu.

Amcanion a ragwelir ar gyfer y safle:

Mae'r holl ddefnyddiau amhriodol wedi eu hadleoli i safleoedd addas eraill ac mae hon wedi dod yn ardal defnydd cymysg sy'n cynnal rhai busnesau arbenigol yn cynnwys delwriaethau hynafolion. Mae'r ardal wedi cadw llawer o'i chymeriad treflun ac mae datblygiadau i'r dyfodol yn gweddu i hyn.

8.22.7 **Amserlen y Cynllun:**

Safle

Tremarl
Dwyrain y Stryd Fawr
Clwb Ieuenctid a Chlwb Cymdeithasol
Y Point
Esgyryn
Glan-Y-Môr
Albini House
Marineland
Marl Farm

Amserlen

Tymor byr - canolig (2008-2017)
Tymor canolig (2013-2017)
Tymor canolig (2008-2012)
Tymor byr - canolig (2008-2017)
Tymor canolig (2013-2017)
Tymor hir (2018+)
Tymor byr - canolig (2008-2017)
Tymor byr (2008-2012)
Tymor byr - canolig (2008-2017)

8.22.8 **Perthynas â'r CDLI:**

- Tremarl; defnyddiau bwriedig o arddangosfeydd ceir/ garejys, masnachol, mannau agored ac unedau diwydiannol.
- Clwb Ieuenctid a Chymdeithasol: Mae hwn yn safle tir llwyd sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

- Y Point: mae gan y safle hwn ganiatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth. Mae rhan o'r safle yn cael ei datblygu ar hyn o bryd fel swyddfeydd newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r cam cyntaf o'i ddatblygiad.
- Esgyryn: Mae'r dyddiadau, dwyseddau a'r manylion eraill a roddwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cymryd cysail dros y rheiny a roddwyd ym Mhrif Gynllun Cyffordd Llandudno e.e. yn y CDLI, mae'r niferoedd o anheddau a'u dwysedd wedi ei nodi fel 120 annedd ar ddwysedd o 30 annedd fesul hectar yn groes i 410 annedd ar 55 annedd yr hectar a nodwyd ym Mhrif Gynllun Cyffordd Llandudno. Mae'r CDLI yn cynnig bod y safle yn cael ei datblygu ar gymhareb o 60% defnydd tir cyflogaeth a 40% defnydd tir preswyl lle mae'r Uwchgynllun yn cynnig bod y safle yn cael ei datblygu fel 70% o ddefnydd tie preswyl a 30% o ddefnydd tir cyflogaeth.
- Glan-Y-Môr: gwasanaeth bws parcio a theithio a detholiad neu flociau trefol gan gynnwys unedau preswyl, masnachol a diwydiannol.
- Albini House: Mae ganddo ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ond nid yw'r gwaith wedi dechrau eto
- Marineland a Marl Farm: efo caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl ac mae'r gwaith wedi dechrau

8.22.9 **Penderfyniad y Cabinet 13/10/2009:**

- (a) Cefnogi egwyddorion yr Uwchgynllun os ydynt yn ychwanegu gwerth i bolisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol ac yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r rhain, ac yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried:
 - i) Cynllunio penodol i safleoedd/briffiau datblygu
 - ii) Rhaglen adfywio er mwyn denu buddsoddiad pellach i Gyffordd Llandudno a sefydlu ei safle yng nghanol Gogledd Cymru;
 - iii) Adeiladu capasiti'r Gymuned i fod yn rhan o ddatblygu a rheoli asedau'r gymuned a chymryd 'perchnogaeth' ohoni.
- (b) Cefnogi'r swyddogion i gyflwyno rhaglen adfywio a reolir er mwyn cyflawni amcanion yr Uwchgynllun cyn gynted â phosibl.

8.23 **Cynlluniau a strategaethau eraill**

Mae'r cynlluniau a'r strategaethau a ganlyn hefyd wedi cael eu hasesu, ac rydym o'r farn nad yw'r wybodaeth ynddynt yn berthnasol iawn i gynllunio defnydd tir yn Ardal y Cynllun.

- Cynllun Drafft Plant a Phobl Ifanc Conwy 2008 – 2011;
- Cynllun Strategol Addysg Conwy 2002 – 2005;
- Strategaeth Troseddau Ieuencid Cymru Gyfan;
- Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru; a,
- Cymunedau'n Gyntaf Tudno a Mostyn, Llandudno.

9. **Cynlluniau datblygu awdurdodau cyfagos**

9.1 **Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych 1996 -2011**

9.1.1 Mae Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych yn ymwneud â Sir Ddinbych sydd yn rhannu ffin ddwyreiniol Conwy. Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol hwn, er yn effeithio'n bennaf ar faterion o fewn ffiniau'r sir, yn berthnasol hefyd i faterion trawsffiniol ynglŷn â thir a rennir rhwng y ddau awdurdod ac felly manylir ar y polisïau ar ddefnydd o dir.

9.1.2 Ym Mholisi CPZ8, sydd yn ymdrin â chynllunio ar yr arfordir, tynnir sylw at yr angen am asesiad amgylcheddol wrth ddatblygu Harbwr y Foryd, er mwyn asesu'r effaith ar y dirwedd a'r arfordir naturiol, cadwraeth natur, nodweddion o werth hanesyddol ac unrhyw effaith arall a fyddai'n debygol o godi o ddatblygiad arfaethedig.

9.1.3 Ym Mholisi TSM14 dywedir y caniateir cais i ddatblygu Harbwr y Foryd fel 'ardal o ddatblygiad twristaidd sylweddol' cyn belled ag y cynhwysir asesiad o'r effeithiau economaidd, cymdeithasol, gweledol ac amgylcheddol a'r effaith o ran trafnidiaeth ac y bydd y cais yn sicrhau cynnydd cyffredinol yn apêl yr ardal fel cyrchfan ymwelwyr ac fel ardal ddeniadol.

9.1.4 Mae polisi HSG1 yn caniatáu ar gyfer darparu 4100 o anheddau ychwanegol yn ystod cyfnod y cynllun. Mae hyn yn cynnwys safleoedd newydd ar gyfer 880 o anheddau. Mae polisi HSG2 yn nodi y bydd hyn yn bennaf ym mhrif ganolfannau Corwen (twf isel), Llangollen, Rhyl, Llanelwy, Dinbych, Prestatyn a Rhuthun. Credir nad yw'r aneddiadau llai yn addas ar gyfer eu hehangu ar

raddfa eang, ond mae rhai dyraniadau wedi'u gwneud. Mae hyn i wneud yn siŵr bod yr isadeiledd, systemau cludiant a gwasanaethau presennol yn cael eu defnyddio yn effeithlon a hefyd i gadw edrychiad gwledig y sir.

9.1.5 Mae polisi EMP1 yn darparu 164ha o dir cyflogaeth, ac mae 84ha ohono wedi'i ddyrannu o'r newydd. Mae polisi EMP2 yn nodi bod y rhain ar gyfer Defnydd Busnes B1, Diwydiant Cyffredinol B2 a Warws a Dosbarthu B8 yn unig. Mae gan Parc Busnes Llanelwy ei ganllawiau ei hun (Polisi EMP3), sy'n cyfyngu'r defnydd ymhellach i B1 a manwerthu, cyllid a defnydd swyddfa, busnes neu gyfleuster lleol ar raddfa fechan ar gyfer anghenion y parc. Pwrpas hyn yw gwneud yn siŵr ei fod yn aros yn safle cyflogaeth o ansawdd. Dyraniad mawr arall yw'r safle yng Ngglasdir, Rhuthun. Mae nifer o safleoedd llai hefyd wedi cael eu dyrannu yn y sir. Mae'r prif safleoedd cyflogaeth yn cynnwys, ymysg eraill, Rhyl (sawl safle), Llanelwy (2 safle) a Dinbych (2 safle). Gellir datblygu cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig lle nad oes darpariaeth safleoedd tir cyflogaeth, i helpu i sicrhau economi gwledig amrywiol a darparu swyddi. Amcan arall y cynllun yw sicrhau nad yw datblygiad cyflogaeth ar draul yr amgylchedd.

9.2 **Strategaeth a Ffafir Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021**

9.2.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi bwrw ymlaen â gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol newydd. Felly, mae'n bwysig iawn bod y ddau awdurdod yn cydweithio i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio dull integredig a chynaliadwy o baratoi'r dogfennau hyn. Dechreuodd Archwiliad cyhoeddus ar y Cynllun ym mis Ionawr 2012.

9.2.2 Y weledigaeth ar gyfer y ddogfen yw "Y bydd gan Sir Ddinbych, trwy ddatblygu'n gynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ac ardaloedd gwledig ffyniannus. Bydd anghenion tai a chyflogaeth y Sir yn cael eu diwallu, bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei ddiogelu a'i wella a bydd ansawdd bywyd uchel yn cael ei gynnal ar gyfer pob cymuned gan gydnabod yn llawn bod gennym iaith a diwylliant Cymreig cadarn y dylid ei gynnal a'i ddiogelu ledled y Sir".

- 9.2.3 Ar sail y weledigaeth hon mae'r Cynllun yn nodi 16 o amcanion i fynd i'r afael â'r materion a'r anghenion yn y Sir, a'r lefel twf a ffafrir i ddiwallu'r amcanion hyn yw 500 o dai'r flwyddyn a 50 hectar o dir cyflogaeth dros gyfnod yr LDP. Mae dewis gofodol y CDLI yn ceisio canolbwyntio datblygiadau i nifer fechan o safleoedd mawr yng ngogledd y Sir. Nodwyd safle defnydd cymysg Strategol Allweddol ym Modelwyddan, gyda lle i 1715 o anheddau a 26 hectar o dir cyflogaeth o fewn cyfnod y Cynllun.
- 9.2.4 Mae Polisi PSE 2 Tir ar gyfer Defnydd Cyflogaeth yn bwriadu diogelu tir ym Marc Busnes Llanelwy ar gyfer defnyddiau cyflogaeth o ansawdd uchel. Cyfeirir hefyd at ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru (sy'n cynnwys y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy a Bodolwyddan yn ogystal â Bae Colwyn) ym Mholisi PSE 1 ac mae Polisi PSE 6 yn ceisio gwella'r Rhyl fel canolfan siopa isranbarthol. Mae Rhyl, Llanelwy, Bodolwyddan, Prestatyn a Bae Cinmel wedi'u nodi fel canolbwynt strategol yng Nghynllun Gofodol Cymru ac felly mae'r polisiâu hyn yn debygol o gael effaith ar Fae Cinmel. Bydd y cynnydd cyflogaeth bwriedig hefyd yn cael effaith ar ardaloedd eraill yn nwyrain Conwy.
- 9.2.5 Mae Polisi VOE 9 Ynni Adnewyddadwy yn cyfeirio at Ardal Fferm Wynt Clocaenog, ac mae rhan ohono yng Nghonwy. Mae'r polisi hwn yn caniatáu ar gyfer ffermydd gwynt mawr yn yr ardal hon yn unig. Mae'r polisi hefyd yn crybwyll y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu cynhyrchu, fydd yn cynnwys adolygiad o'r Canllawiau Cynllunio Interim ar y cyd a gynhyrchwyd gyda Chonwy. Bydd angen cydweithio pellach yma i sicrhau dull cyson ledled Clocaenog.
- 9.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001 - 2016**
- 9.3.1 Yn strwythur Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a abwysiadwyd, dull thematig sydd yn cael ei fabwysiadu yn hytrach na dull sydd yn seiliedig ar bwnc.
- 9.3.2 Mae polisi strategol 15 a pholisi D1 yn dangos fod tir wedi ei ddiogelu ar gyfer cyflogaeth yn Nalgylch Datblygu Bangor. Mae mwy na 55 ha ar gael (yn cynnwys tir o fewn y Parc Cenedlaethol) yn ogystal â 4 ha ychwanegol a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Unedol. Mae Parc Menai, ger Bangor, yn safle cyflogaeth 14 ha ac mae'n debygol o gael effaith drawsffiniol yn rhan

orllewinol Ardal Cynllun Conwy o ran lefelau cymudo dyddiol i Wynedd. Mae stadau diwydiannol eraill yn cynnwys Stad Ddiwydiannol Llandygái sydd yn 24 ha a Stad Bryn Cegin sydd yn 36 ha o faint.

9.3.3 Ym mholisi strategol 10 dywedir fod 782 o unedau o anheddau wedi eu dynodi ar gyfer dalgylch Bangor ar gyfer cyfnod y cynllun, sef 2001 - 2016, a bod hynny'n 47% o ddyraniad tir anheddau Gwynedd i gyd. Mae arfordir Penmaenmawr a Llanfairfechan yn cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygiad preswyl oherwydd y perygl o lifogydd. Mae effeithiau trawsffiniol y cynnydd mewn datblygu preswyl yng Nghanolfan Is-ranbarthol Bangor yn debygol o fod yn sylweddol o ran patrymau mudo ynghyd â nifer mwy o gyfleoedd am gyflogaeth yng Ngwynedd.

9.3.4 Mae'n amlwg felly mai'r prif faterion strategol sy'n deillio o Gynllun Datblygu Unedol Conwy yw adfywio economaidd yn nalgylch Bangor a'r goblygiadau economaidd a demograffaid i Gonwy.

9.4 **Cynllun Lleol Eryri 1993 – 2003**

9.4.1 Mabwysiadwyd y Cynllun Lleol ar 10 Tachwedd 1999 gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac ynghyd â Chynllun Fframwaith Gwynedd, roedd yn sail i benderfyniadau cynllunio yn y Parc Cenedlaethol nes i Gynllun Datblygu Lleol Eryri, sydd bellach yn disodli'r Cynllun Lleol, gael ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2011.

9.4.2 Aseswyd Cynllun Goriad Gwyrdd Eryri 2005 hefyd. Mae'r goblygiadau defnydd tir sydd wedi'u cynnwys ynddo yn canolbwyntio i raddau helaeth ar reolaeth fwy effeithiol o'r Parc Cenedlaethol o safbwynt parcio, gwelliannau cludiant ac arian. Ystyrir felly mai bach iawn yw ei oblygiadau o ran cynllunio defnydd tir yn ardal Cynllun Conwy.

9.5 **Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007 - 2022**

9.5.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Gorffennaf 2011 ac, ynghyd â'r polisi cenedlaethol, bydd yn arwain polisi defnydd tir a phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu pellach yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod hyd at 2012.

- 9.5.2 Y weledigaeth ar gyfer parc cenedlaethol Eryri sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol (a'i hamlinellu yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol) yw; 'erbyn 2035 bydd Eryri'n parhau i fod yn dirwedd esblygol a gwarchoddedig, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol a rhyngwladol'.
- 9.5.3 Gan ystyried y weledigaeth hon a'r amcanion ar gyfer y Parc Cenedlaethol, seilir polisïau a chynigion y CDLI ar yr amcanion a ganlyn:
- Diogelu, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol;
 - Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol;
 - Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy;
 - Cefnogi'r Economi Wledig;
 - Hyrwyddo Mynediad a Chynwysoldeb;
- 9.5.4 Mae ystyriaethau amgylcheddol o bwysigrwydd aruthrol yn y Parc Cenedlaethol a Chonwy gan fod y ddau awdurdod yn rhannu rhai o'r dynodiadau tir a ddiogelir sy'n bodoli yn y rhanbarth. Mae'r polisïau'n ymwneud â'u diogelu'n debyg o ran natur i'r rhai sydd eisoes yn bodoli yng Nghonwy fel polisïau ar gyfer yr arfordir nad yw wedi'i ddatblygu, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) a safleoedd efo dynodiadau rhyngwladol fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC). Mae Conwy a'r Parc Cenedlaethol yn rhannu Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coed (NNR) Dolgarrog ac mae polisi mewn grym yn y cynllun hwn i ddiogelu'r ardaloedd hyn rhag datblygiadau niweidiol (polisi GN2)
- 9.5.5 Mae nifer o aneddiadau ar ffin y Parc Cenedlaethol a Bwrdeistref Sirol Conwy, sef; Dolgarrog, Dwygyfylchi, Capelulo, Trefriw, Tal-y-Bont, Castell, Rowen a Nebo. Felly mae'n bwysig deall barn y Parc Cenedlaethol ar hierarchaeth aneddiadau a pholisïau cynllunio posibl yn y dyfodol, sy'n cael eu tanategu gan yr hierarchaeth.
- 9.5.6 Mae'r Parc Cenedlaethol yn bwriadu cynnwys pedair haen yn eu hierarchaeth aneddiadau; Canolfannau Gwasanaeth Lleol, Aneddiadau Gwasanaeth, Aneddiadau Eilaidd ac Aneddiadau Llai. Nodwyd Dolgellau a'r Bala yn

ganolfannau gwasanaeth lleol lle bydd rhwng 22 a 34% o'r gofyniad tai llawn yn cael ei ddarparu.

- 9.5.7 Nodwyd mai materion tai yw'r prif faes pryder ar gyfer llawer o gymunedau yn Eryri: hygrychedd a thai fforddiadwy yn benodol. Nodwyd y materion hyn fel rhai hanfodol ar gyfer sicrhau cynladwyedd a hyfywdra yn y tymor hir ar gyfer cymunedau gwledig. Mae'r strategaeth tai yn ceisio diwallu anghenion lleol (nid dyheadau) o fewn y capasiti amgylcheddol, gan oresgyn anawsterau mynediad a darparu cyflenwad o dai fforddiadwy. Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru a'r ymarfer dosrannu a gynhaliwyd gan awdurdodau cynllunio lleol yng Ngogledd Cymru, mae'r CDLI yn cynnwys gofyniad tai newydd o 51-55 annedd y flwyddyn ar gyfer Eryri, sy'n rhoi ffigwr o rwng 770 a 830 annedd dros gyfnod y cynllun.
- 9.5.8 Nodir fforddiadwyedd tai lleol fel un o brif faterion y Cynllun ac o fewn yr aneddiadau a nodwyd bydd y rhan fwyaf o'r datblygiadau tai wedi eu cyfyngu i dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.
- 9.5.9 Mae nifer o aneddiadau sydd wedi'u rhannu rhwng dau awdurdod cynllunio, sef Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn Nolgarrrog er enghraifft, oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol mae'r Cynllun yn nodi y bydd yr anghenion tai fforddiadwy yn cael eu diwallu tu allan i'r Parc Cenedlaethol o fewn ardal CLI Conwy. Yn Nhrefriw fodd bynnag, dyrennir tir ar gyfer tai fforddiadwy o fewn ardal y Parc Cenedlaethol yn sgil materion capasiti a risg llifogydd yn Nhrefriw o fewn ardal CLI Conwy. Rhaid i unrhyw gydweithio yn y dyfodol wneud yn siŵr bod agwedd gyson tuag at gynllunio yn y pentrefi hyn.
- 9.5.10 O safbwynt yr economi ac ar sail nod y Cynllun o greu a chynnal economi wledig gynaliadwy bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi datblygiadau cyflogaeth newydd yn y canolfannau gwasanaeth lleol, yr aneddiadau gwasanaeth a'r aneddiadau eilaidd, yn gymesur â graddfa a swyddogaeth yr aneddiadau. Bydd yr Awdurdod yn ceisio hyrwyddo ailddefnyddio tir neu adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a thir ac adeiladau gwag ar gyfer pwrpasau economaidd a chefnogi'r sector amaeth a chyfleoedd arallgyfeirio gwledig nad ydynt yn effeithio ar nodweddion arbennig y parc.

9.5.11 Yn yr un modd, i gydnabod pwysigrwydd twristiaeth, mae'r Cynllun yn cefnogi twristiaeth a gweithgareddau hamdden sy'n gwneud y mwyaf o fanteision economaidd lleol ac ar yr un pryd yn lleihau effeithiau amgylcheddol a diogelu nodweddion arbennig y Parc.

10. Rhestr termau

Arallgyfeirio – Dyma broses lle bydd gweithgarwch a sefydlwyd yn cael ei ehangu i gynnwys ystod ehangach o nwyddau a gwasanaethau er mwyn bodloni newid yn y galw.

Ardal y Cynllun – Bwrdeistref Sirol Conwy, ac eithrio'r ardal sydd wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Bioamrywiaeth - Yr amrywiaeth o ffurfiau ar fywyd a welwn o'n cwmpas, gan gynnwys yr holl famaliaid, adar, ymlusgiaid, amffibiaid, pysgod, pryfaid ac anifeiliaid eraill di-asgwrn-cefn, planhigion, ffyngau, a micro-organebau.

Buddsoddi a Arweinir gan Fusnes – Buddsoddiadau economaidd o'r sector cyhoeddus a phreifat a ddefnyddir i greu cyfleoedd pellach ym maes cyflogaeth.

Cyfleusterau Rheoli Gwastraff - Cyfleusterau i gadw, didoli, trin a chael gwared â gwastraff. Maent yn cynnwys, er enghraifft Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, safleoedd mewnlenni, cyfleusterau compostio a dulliau amrywiol o adennill ynni.

Cymunedau Cynaliadwy – Cymunedau y mae pobl am fyw ynddynt, yn bresennol ac yn y dyfodol. Maent yn diwallu anghenion amrywiol trigolion presennol a thrigolion y dyfodol, yn sensitif i'r amgylchedd ac yn cyfrannu tuag at fywyd o ansawdd uchel. Maent yn gymunedau diogel a chynhwysol, wedi'u cynllunio, eu hadeiladu a'u rhedeg yn dda, ac yn cynnig cyfle cyfartal a gwasanaethau da i bawb.

Cynllun Datblygu Lleol – y cynllun datblygu statudol sy'n ofynnol ar gyfer pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru yn ôl Deddf Cynllunio ac Iawndal 2006.

Cynllun Datblygu Unedol (CDLI) – Cynllun a baratoir gan yr awdurdod cynllunio lleol sy'n pennu polisiau a chynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ardal yr awdurdod.

Cynllun Gofodol Cymru - Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynlluniad Cenedlaethol Cymru, sy'n pennu fframwaith strategol i lywio ymyriadau polisi a gwaith datblygu yn y dyfodol, p'un ai a ydynt yn ymwneud â rheolaeth gynllunio ffurfiol ai peidio. O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried y cynllun hwn wrth baratoi CDLI.

Datblygiad Cynaliadwy – Datblygiad sy'n diwallu'r anghenion presennol ac sy'n ymdrechu i'r un graddau i ddarparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Datganoli - Yng Nghymru, ystyr datganoli yw dirprwyo pwerau canolog o'r llywodraeth ganolog i awdurdod arall, sef Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr achos hwn.

Ffynonellau Ynni Anadnewyddol - Ffynonellau ynni na ellir eu haildefnyddio neu eu hadennill ar ôl eu defnyddio, megis cronfeydd olew, glo a nwy.

Gwarchodfa Natur Leol – Ardal a ddynodwyd yn lleol i'w diogelu rhag gwaith datblygu amhriodol oherwydd ei phwysigrwydd o ran cadwraeth natur.

Mudo o'r Ardal - Trigolion sy'n symud o Ardal y Cynllun i unrhyw ardal y tu allan i Ardal y Cynllun.

Persbectif Datblygu Gofodol Ewrop (ESDP) - Dogfen gynllunio sy'n cynnwys manylion ynglŷn â sut y gellir integreiddio syniadau cynllunio gofodol ledled Ewrop.

Safleoedd Bywyd Gwyllt- Safleoedd anstatudol sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth natur, sy'n cael eu dewis a'u dynodi'n unol â meini prawf llym sy'n trafod pa mor anghyffredin, amrywiol, a naturiol yw'r safle, yn ogystal â'i faint.

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) - Dyma safleoedd o werth biolegol neu ddaearegol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol ac a ddynodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn unol â'r hyn a nodir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Safonau Parcio – Nifer y llecynnau parcio ceir neu gerbydau eraill ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau newydd.

Strategaeth Gymunedol – Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i awdurdodau lleol lunio Strategaeth Gymunedol, gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol, ac economaidd eu hardaloedd. Yng Nghonwy, Partneriaeth Strategol Leol Conwy sy'n gyfrifol am lunio'r Strategaeth Gymunedol.

Tai Fforddiadwy – Tai naill ai ar gyfer rhentu, rhannu perchnogaeth neu brynu'n llwyr, a ddarperir am bris sy'n cael ei hystyried yn fforddiadwy o'i gymharu ag

incwm arferol neu incwm sy'n is na'r arferol, neu o'i gymharu â phris tai'r farchnad agored.

Tir Llwyd/Tir a ddatblygwyd eisoes - Tir y mae/bu adeilad parhaol yn sefyll arno, ac unrhyw wyneb sefydlog cysylltiedig. Mae'n cynnwys llecynnau o dir o amgylch adeiladau megis gerddi, ond nid yw'n cynnwys parciau, adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth, neu dir lle mae adfeilion adeiladau wedi cydweddu â'r dirwedd dros amser. Ceir disgrifiad llawnach o dir a ddefnyddiwyd eisoes yn Ffigwr 2.1 dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Polisi Cynllunio Cymru".

Tirwedd Hanesyddol – Tir a ddynodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'w ddiogelu rhag gwaith datblygu amhriodol oherwydd bod iddo gymeriad hanesyddol arbennig (CCW).

Ynni Adnewyddol – Ffynonellau ynni megis ynni'r gwynt neu'r haul a all barhau i gynhyrchu ynni am byth, heb i'r ynni ddarfod.

Atodiad 1

Amcan y CDLI	Canlyniadau Un Conwy							
	Mae pobl yng Nghonwy yn cydweithio i sicrhau gwell dyfodol	Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau	Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas	Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol	Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus	Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant, a'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Mae pobl yng Nghonwy'n wybodus, yn cael eu cynnwys a gwrandewir arnynt
AG1. <i>Cynnal lefelau twf poblogaeth cynaliadwy.</i>	•	•	•	•	•	•	•	
AG2 <i>Hyrwyddo adfywio cynhwysfawr o Fae Colwyn, Abergele, Tywyn a Bae Cinmel i ehangu gweithgarwch economaidd, mynd i'r afael ac eithrio cymdeithasol a lleihau amddifadiad trwy'r Fenter Ardal Adfywio Strategol</i>	•	•	•	•	•	•	•	•

<p>AG3.</p> <p><i>Darparu tir a datblygu cyflenwad digonol ac amrywiol i dai i gyfrannu at anghenion, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol ac i fodloni'r angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ar raddfa sy'n gyson â gallu ardaloedd a chymunedau gwahanol i dyfu.</i></p>		•	•	•		•		•
<p>AG4.</p> <p><i>Canfod a diogelu tir i ateb anghenion cymunedau ac i sicrhau lefelau cymudo allan o'r sir is, rhagor o swyddi a ffyniant economaidd gwell a lefelau cymudo allan llai gan ganolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch a datblygu sgiliau o fewn ac o gwmpas canolbwyntiau strategol Conwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn ac yn lleoliad cyraeddadwy a chynaliadwy Abergele.</i></p>	•			•	•	•		
<p>AG5.</p> <p><i>Annog cryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig llen bod hynny'n gydnaws â'r economi, y gymuned a buddiannau amgylcheddol lleol.</i></p>	•	•			•	•		

<p>AG6.</p> <p><i>Datblygu cyrchfannau canol tref bywiog ar gyfer siopa, diwylliant, adloniant a hamdden trwy wella bywiogrwydd, hyfywdra ac apêl Llandudno fel canolfan fanwerthu isranbarthol strategol, ac adfywio canol tref Bae Colwyn a chanolfannau siopau eraill.</i></p>		•		•	•	•	•	
<p>AG7.</p> <p><i>Canolbwyntio datblygiad ar hyd rhwydweithiau isadeiledd presennol a bwriedig, ac yn benodol mewn mannau sy'n gyfleus i gerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus.</i></p>		•	•	•	•	•		
<p>AG8.</p> <p><i>Cynorthwyo twristiaeth trwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig, ag ecsbloetio ymhellach y potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog y diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn;</i></p>		•		•	•	•	•	•

<p>AG9.</p> <p><i>Annog symud effeithlon a chydabod y rôl strategol y bydd yr A55, a choridorau'r rheilffyrdd yn ei chwarae wrth fodloni anghenion datblygu Ardal y Cynllun, a rhoi sylw penodol i leoliadau datblygu sy'n gyfleus i gerddwyr, cerdded a beicwyr yng Nghonwy i gynorthwyo gostwng gollyngiadau CO2 cludiant.</i></p>		•		•	•	•		
<p>AG10.</p> <p><i>Sicrhau darparu dylunio da, cynaliadwy, cynhwysol sy'n cynnwys cyfle i ddileu troseddu trwy ddylunio, i ddatblygu cymunedau cryf, diogel ac sy'n nodedig yn lleol ac annog y boblogaeth iau i aros yn yr ardal a dychwelyd iddi.</i></p>	•	•	•					•
<p>AG11.</p> <p><i>Gostwng y defnydd o ynni trwy leoli a dylunio adeiladau yn ofalus, a hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy lle mae ganddynt y rhagolygon o fod yn ddeniadol yn economaidd ac yn dderbyniol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.</i></p>			•		•	•		

<p>AG12.</p> <p><i>Diogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad arfordir a chefn gwlad heb ei datblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd/ cadwraeth a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol wrth sicrhau bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig.</i></p>				•		•	•	
<p>AG13.</p> <p><i>Diogelu a gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol gan gynnwys manau agored, iechyd, addysg a hamdden.</i></p>	•	•	•	•				
<p>AG14.</p> <p><i>Hyrwyddo'r defnydd darbodus o adnoddau trwy leihau gwastraff a chynorthwyo wrth ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff sy'n gyson ac anghenion yr ardal a'r hierarchaeth gwastraff.</i></p>				•	•			
<p>AG15.</p> <p><i>Cyfrannu at anghenion mwynol rhanbarthol a lleol yn gynaliadwy.</i></p>		•		•		•		

<p>AG16.</p> <p><i>Sicrhau bod datblygiad mewn cymunedau sy'n medru'r Gymraeg yn gydnaws a hyfywdra tymor hir yr iaith Gymraeg.</i></p>	•				•		•	•
---	---	--	--	--	---	--	---	---

Atodiad 2

Amcan y CDLI	Thema Cynllun Gofodol Cymru				
	Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy	Hybu Economi Gynaliadwy	Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd	Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy	Parchu Natur Unigryw
AG1. <i>Cynnal lefelau twf poblogaeth cynaliadwy.</i>	•	•	•	•	
<i>Hyrwyddo adfywio cynhwysfawr o Fae Colwyn, Abergele, Tywyn a Bae Cinmel i ehangu gweithgarwch economaidd, mynd i'r afael ac eithrio cymdeithasol a lleihau amddifadiad trwy'r Fenter Ardal Adfywio Strategol</i>	•	•		•	•
AG3. <i>Darparu tir a datblygu cyflenwad digonol ac amrywiol i dai i gyfrannu at anghenion, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol ac i fodloni'r angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ar raddfa sy'n gyson â gallu ardaloedd a chymunedau gwahanol i dyfu.</i>	•	•		•	
AG4. <i>Canfod a diogelu tir i ateb anghenion cymunedau ac i sicrhau lefelau cymudo allan o'r sir is, rhagor o swyddi a ffyniant economaidd gwell a lefelau cymudo allan llai gan ganolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch a datblygu sgiliau o fewn ac o gwmpas canolbwyntiau strategol Conwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn ac yn lleoliad cyraeddadwy a chynaliadwy Abergele.</i>	•	•		•	•
AG5. <i>Annog cryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig llen bod hynny'n gydnaws â'r economi, y gymuned a buddiannau amgylcheddol lleol.</i>	•	•			•

<p>AG6.</p> <p><i>Datblygu cyrchfannau canol tref bywiog ar gyfer siopa, diwylliant, adloniant a hamdden trwy wella bywiogrwydd, hyfywdra ac apêl Llandudno fel canolfan fanwerthu isranbarthol strategol, ac adfywio canol tref Bae Colwyn a chanolfannau siopau eraill.</i></p>	•	•		•	•
<p>AG7.</p> <p><i>Canolbwyntio datblygiad ar hyd rhwydweithiau isadeiledd presennol a bwriedig, ac yn benodol mewn mannau sy'n gyfleus i gerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus.</i></p>			•	•	
<p>AG8.</p> <p><i>Cynorthwyo twristiaeth trwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig, ag ecsbloetio ymhellach y potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog y diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn;</i></p>	•	•	•		•
<p>AG9.</p> <p><i>Annog symud effeithlon a chydabod y rôl strategol y bydd yr A55, a choridorau'r rheilffyrdd yn ei chwarae wrth fodloni anghenion datblygu Ardal y Cynllun, a rhoi sylw penodol i leoliadau datblygu sy'n gyfleus i gerddwyr, cerdded a beicwyr yng Nghonwy i gynorthwyo gostwng gollyngiadau CO2 cludiant.</i></p>		•	•	•	
<p>AG10.</p> <p><i>Sicrhau darparu dylunio da, cynaliadwy, cynhwysol sy'n cynnwys cyfle i ddileu troseddu trwy ddylunio, i ddatblygu cymunedau cryf, diogel ac sy'n nodedig yn lleol ac annog y boblogaeth iau i aros yn yr ardal a dychwelyd iddi.</i></p>	•	•			•

<p>AG11.</p> <p><i>Gostwng y defnydd o ynni trwy leoli a dylunio adeiladau yn ofalus, a hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy lle mae ganddynt y rhagolygon o fod yn ddeniadol yn economaidd ac yn dderbyniol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.</i></p>	•	•	•		•
<p>AG12.</p> <p><i>Diogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad arfordir a chefn gwlad heb ei datblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd/ cadwraeth a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol wrth sicrhau bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig.</i></p>			•		•
<p>AG13.</p> <p><i>Diogelu a gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol gan gynnwys mannau agored, iechyd, addysg a hamdden.</i></p>	•	•		•	
<p>AG14.</p> <p><i>Hyrwyddo'r defnydd darbodus o adnoddau trwy leihau gwastraff a chynorthwyo wrth ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff sy'n gyson ac anghenion yr ardal a'r hierarchaeth gwastraff.</i></p>			•		
<p>AG15.</p> <p><i>Cyfrannu at anghenion mwynol rhanbarthol a lleol yn gynaliadwy.</i></p>		•	•		
<p>AG16.</p> <p><i>Sicrhau bod datblygiad mewn cymunedau sy'n medru'r Gymraeg yn gydnaws a hyfywdra tymor hir yr iaith Gymraeg.</i></p>	•				•

Atodiad 3

Amcan CDLI	Penawdau Penodau'r CDLI / Thema Cynladwyedd Polisi Cynllunio Cymru			
	Cynnydd Cymdeithasol Sy'n Cydnabod Anghenion Pawb	Lefelau Cadarn ac Uchel o Dwf Economaidd a Chyflogaeth	Defnydd Darbodus o Adnoddau Naturiol	Diogelu'r Amgylchedd yn Effeithiol
AG1. <i>Cynnal lefelau twf poblogaeth cynaliadwy.</i>	•	•		•
<i>Hyrwyddo adfywio cynhwysfawr o Fae Colwyn, Abergele, Tywyn a Bae Cinmel i ehangu gweithgarwch economaidd, mynd i'r afael ac eithrio cymdeithasol a lleihau amddifadiad trwy'r Fenter Ardal Adfywio Strategol</i>	•	•		•
AG3. <i>Darparu tir a datblygu cyflenwad digonol ac amrywiol i dai i gyfrannu at anghenion, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol ac i fodloni'r angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ar raddfa sy'n gyson â gallu ardaloedd a chymunedau gwahanol i dyfu.</i>	•	•		•
AG4. <i>Canfod a diogelu tir i ateb anghenion cymunedau ac i sicrhau lefelau cymudo allan o'r sir is, rhagor o swyddi a ffyniant economaidd gwell a lefelau cymudo allan llai gan ganolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch a datblygu sgiliau o fewn ac o gwmpas canolbwyntiau strategol Conwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn ac yn lleoliad cyraeddadwy a chynaliadwy Abergele.</i>	•	•		

<p>AG5.</p> <p><i>Annog cryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig llen bod hynny'n gydnaws â'r economi, y gymuned a buddiannau amgylcheddol lleol.</i></p>	•	•		•
<p>AG6.</p> <p><i>Datblygu cyrchfannau canol tref bywiog ar gyfer siopa, diwylliant, adloniant a hamdden trwy wella bywiogrwydd, hyfywdra ac apêl Llandudno fel canolfan fanwerthu isranbarthol strategol, ac adfywio canol tref Bae Colwyn a chanolfannau siopau eraill.</i></p>	•	•		•
<p>AG7.</p> <p><i>Canolbwyntio datblygiad ar hyd rhwydweithiau isadeiledd presennol a bwriedig, ac yn benodol mewn mannau sy'n gyfleus i gerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus.</i></p>	•	•		•
<p>AG8.</p> <p><i>Cynorthwyo twristiaeth trwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig, ag ecsbloetio ymhellach y potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog y diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn;</i></p>	•	•		•
<p>AG9.</p> <p><i>Annog symud effeithlon a chydabod y rôl strategol y bydd yr A55, a choridorau'r rheilffyrdd yn ei chwarae wrth fodloni anghenion datblygu Ardal y Cynllun, a rhoi sylw penodol i leoliadau datblygu sy'n gyfleus i gerddwyr, cerdded a beicwyr yng Nghonwy i gynorthwyo gostwng gollyngiadau CO2 cludiant.</i></p>	•	•	•	

<p>AG10.</p> <p><i>Sicrhau darparu dylunio da, cynaliadwy, cynhwysol sy'n cynnwys cyfle i ddileu troseddau trwy ddylunio, i ddatblygu cymunedau cryf, diogel ac sy'n nodedig yn lleol ac annog y boblogaeth iau i aros yn yr ardal a dychwelyd iddi.</i></p>	•			•
<p>AG11.</p> <p><i>Gostwng y defnydd o ynni trwy leoli a dylunio adeiladau yn ofalus, a hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy lle mae ganddynt y rhagolygon o fod yn ddeniadol yn economaidd ac yn dderbyniol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.</i></p>		•	•	•
<p>AG12.</p> <p><i>Diogelu a gwella cymeriad ac ymddangosiad arfordir a chefn gwlad heb ei datblygu, safleoedd o bwysigrwydd tirwedd/ cadwraeth a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol wrth sicrhau bioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchoddedig.</i></p>			•	•
<p>AG13.</p> <p><i>Diogelu a gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol gan gynnwys manau agored, iechyd, addysg a hamdden.</i></p>	•		•	•
<p>AG14.</p> <p><i>Hyrwyddo'r defnydd darvoudus o adnoddau trwy leihau gwastraff a chynorthwyo wrth ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff sy'n gyson ac anghenion yr ardal a'r hierarchaeth gwastraff.</i></p>	•		•	•

<p>AG15.</p> <p><i>Cyfrannu at anghenion mwynol rhanbarthol a lleol yn gynaliadwy.</i></p>	•		•	•
<p>AG16.</p> <p><i>Sicrhau bod datblygiad mewn cymunedau sy'n medru'r Gymraeg yn gydnaws a hyfywdra tymor hir yr iaith Gymraeg.</i></p>	•			•